

# Arweiniad Creu Lleoedd ar gyfer Datblygiad gan Berchennog Tŷ

Canllawiau Cynllunio Atodl - Hydref 2021

## Placemaking Guidance for Householder Development

Supplementary Planning Guidance - October 2021



Cyngor **Abertawe**  
**Swansea** Council



# Cynnwys

## 1.0 Cyflwyniad

## 2.0 Paratoi eich Cynnig Datblygu

## 3.0 Gofynion Creu Lleoedd Trosgynnol

## 4.0 Canllawiau ar gyfer Mathau o Ddatblygiadau Deiliaid Tai

A - Tai ar Wahân

B - Tai Pâr

C - Tai Teras

Ch - Byngalos

D - Rhandai a Llety Ategol

Dd - Dormerau ac Estyniadau To

E - Cynlluniau Mwyhau

F - Deciau Uchel, Balconïau a Walïau Cynhaliol

Ff - Garejys Domestig ac Adeiladau Allanol

G - Mynediad a Pharcio

Ng - Triniaethau Ffinïau

H - Coed a Llystyfiant Arall

## 5.0 Cyflwyno Cais Cynllunio

## Atodiadau



### Sut i ddefnyddio'r canllaw hwn:

Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) hwn yn darparu canllawiau dylunio wedi'i ffocysu ar yr hyn a elwir yn ddatblygiad 'berchennog Tŷ'. Mae'r canllaw wedi'i wneud yn syml i'w ddefnyddio trwy gynnwys diagramau enghreifftiol dangosol gyda thiciau a chroesau. Bwriedir i'r rhain fod yn ganllaw yn unig ac nid ydynt yn nodi bod unrhyw ddull penodol yn cael ei dderbyn neu ei wrthod yn gyffredinol. Ar bob adeg, dylai'r pwyslais fod ar amgylchiadau unigol pob safle. Noder bod yr holl ddimensiynau a ddatgenir neu a nodir yn y canllaw dylunio hwn yn cael eu mesur yn allanol.

## 1.0 Cyflwyniad

### Nodau a Diben

- 1.1 Nod pennaf y ddogfen hon yw disgrifio canllawiau clir a chyson ar faterion sy'n gysylltiedig â Chreu Lleoedd, Treftadaeth a Dylunio ar gyfer pob math o ddatblygiad Deiliaid Tai. Trwy lynu wrth y Canllaw, bydd ymgeiswyr yn gallu ymgymryd â datblygiad deiliaid tai mewn modd sy'n parchu cymeriad y gymdogaeth leol, yn mwyhau ymdeimlad o le ac yn diogelu hawliau a llesiant cymdogion. Bydd hyn yn galluogi deiliaid tai i aros yn eu cymunedau ac addasu eu cartrefi i ddiwallu eu hanghenion newidiol dros amser.
- 1.2 Mae'r ddogfen (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel 'Y Canllaw') yn darparu Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) i gefnogi polisiau cynllunio yng Nghynllun Datblygu Lleol Abertawe (CDLI) a fabwysiadwyd. Bydd y Canllaw yn ddeunydd pwysig wrth benderfynu ar gynigion cynllunio a gyflwynir i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, gan gynnwys yn y camau cyn-ymgeisio a chais cynllunio.
- 1.3 Dylid defnyddio'r Canllaw ar gyfer pob math o ddatblygiad deiliaid tai a wneir i eiddo domestig yn ardal weinyddol Abertawe. Mae'r Canllaw yn berthnasol i ddeiliaid tai sy'n ystyried estyniadau neu addasiadau i'w tŷ neu eu gardd lle bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith dan sylw. At hynny, mae ei egwyddorion hefyd yn berthnasol i waith nad oes angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer ond a all effeithio ar amwynder a'r strydlyn. Mae'r Canllaw yn berthnasol i eiddo domestig ym mhob rhan o Abertawe, gan amrywio o ardaloedd dwysaf a mwyaf trefol y ddinas i'r amrywiaeth eang o faestrefi, trefi, pentrefi allweddol ac ardaloedd gwledig â phoblogaeth wasgarog sydd hefyd yn nodweddiadol o'r Sir.
- 1.4 Mae'r Canllaw yn amlinellu'r materion creu lleoedd y mae angen eu hystyried 'fesul achos'. Nid yw'r canllawiau'n set o reolau ond yn hytrach yn set o egwyddorion y gellir ymdrin â nhw mewn llawer o ffyrdd gwahanol. Y diben trosgynnol yw hwyluso dyheadau creu lleoedd y Cyngor a chyflwyno'r amcan allweddol o godi safonau dylunio'n sylweddol ar draws y Sir.
- 1.5 Mae'r CCA yn amlinellu'r materion allweddol y mae angen eu hystyried er mwyn sicrhau bod cynigion yn cydymffurfio â pholisi cynllunio lleol a cenedlaethol mewn perthynas â chreu lleoedd, treftadaeth a dylunio, ac yn cadarnhau'r wybodaeth sy'n ofynnol wrth gyflwyno cais cynllunio. Gan hynny, bydd dilyn y Canllaw yn helpu osgoi oedi diangen wrth geisio caniatâd cynllunio, ac yn darparu mwy o wrthrychedd, sicrwydd a chysondeb wrth wneud penderfyniadau.

## Pwysigrwydd Creu Lleoedd a Dylunio Da

1.6 Mae egwyddorion Creu Lleoedd wrth wraidd agenda cynllunio strategol y Cyngor, ac yn yr un modd maent yn nodwedd hanfodol o'i ymagwedd at reoli datblygiadau. Ar ei ffurf symlach, mae creu lleoedd yn ymagwedd 'sy'n canolbwyntio ar bobl' at gynllunio, dylunio a rheoli pobl a lleoedd. Mae'n ceisio creu adeiladau ac ardaloedd y byddai pobl yn dymuno byw, gweithio a threulio amser hamdden ynddynt. Mae amrywiaeth eang o lleoedd sefydledig yn Abertawe sydd wedi cyflawni'r nod hwn yn union. Mae'r rhain yn amrywio o ran cymeriad o ardaloedd trefol bywiog, dwys Uplands a'r Mwmbwls, i'r llu o bentrefi hardd Gŵyr. Nid yw'r dull o greu lleoedd yn un sy'n ceisio ailddyfeisio'r olwyn, ond yn hytrach ei nod yw ein harwain i ddeall beth sy'n gwneud i lleoedd presennol 'weithio orau' i'r bobl sy'n byw ac yn treulio amser yno, ac i ddefnyddio'r rhinweddau hyn fel cyanseiliau ar gyfer Byw yn yr 21<sup>ain</sup> Ganrif.




Creu Lleoedd Cymru  
Placemaking Wales

1.7 Gall yr holl ddatblygiadau newydd gyfrannu ar ryw ffurf at greu lleoedd a dylanwadu ar sut y caiff y lle hwnnw ei brofi a'i fwynhau (h.y. ei 'ymdeimlad o le'), a fydd yn sefyll fel etifeddiaeth i genedlaethau o ddeiliaid ac ymwelwyr yn y dyfodol. Mae'r Canllaw hwn a'r polisïau CDLI y mae'n eu hadleisio, yn hyrwyddo cymhwyso dull Creu Lleoedd a Rheoli Lleoedd ym mhob ardal ac ar amrywiaeth o raddfeydd, er mwyn creu etifeddiaeth gynaliadwy go iawn yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LICDC). Yr hyn sy'n hollbwysig yw bod creu lleoedd llwyddiannus, neu gyflawni newidiadau cadarnhaol mewn lleoedd sydd eisoes yn bodoli, yn gofyn am ddull cyfannol sy'n dod â nifer o ddisgyblaethau gwahanol at ei gilydd.

## Y Cyd-destun Cenedlaethol a Lleol

### Polisi Cynllunio Cymru 2021


1.8 Ar y lefel genedlaethol, mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn disgrifio'r egwyddorion cenedlaethol trosgynnol mewn perthynas â chynllunio a chreu lleoedd. Mae'r egwyddorion hyn yn sail i ffurfio polisiau cynllunio lleol ac yn cyfeirio penderfyniadau unigol ar gynigion datblygu. Mae PCC yn nodi bod yn rhaid i benderfyniadau cynllunio geisio hybu datblygu cynaliadwy a chefnogi llesiant pobl a chymunedau ledled Cymru. Mae'n mynnu bod hyn yn cael ei wneud trwy ymdrin â saith nod llesiant, y mai un ohonynt yw Meithrin Cymunedau Cydlynus, gan bwysleisio pwysigrwydd cyfuniadau priodol o ddefnyddiau tir. Mae PCC yn egluro bod creu lleoedd ac egwyddorion datblygu cynaliadwy yn hanfodol i ddatblygu ar bob graddfa.



*“Ffordd holistig o fynd ati i gynllunio a dylunio datblygiadau a lleoedd yw “creu lle”, sy’n canolbwyntio ar ganlyniadau positif.*

(Polisi Cynllunio Cymru, t16)

### Adeiladu Lleoedd Gwell: Creu Lleoedd ac Ymadfer yn sgil Covid-19, Gorffennaf 2020.



1.9 Mae'r ddogfen hon gan Lywodraeth Cymru yn ategu Polisi Cynllunio Cymru ac yn cynyddu'r pwyslais ar greu lleoedd a seilwaith gwyrdd. Mae'r dyfyniadau canlynol o'r ddogfen yn tynnu sylw at sut mae angen i benderfyniadau cynllunio briodoli pwysigrwydd sylweddol i'r materion hyn, ac yn nodi effeithiau andwyol posib peidio â sicrhau y glynir wrth egwyddorion creu lleoedd:

*“Rydym i gyd wedi treulio mwy o amser yn ein cymdogaethau yn ystod wythnosau'r cyfnod clo a gallwn i gyd werthfawrogi'r gwahaniaeth rhwng cael amgylchedd o safon i fyw, gweithio ac ymlacio ynddo a sut y gall cael ein torri i ffwrdd o'n ffrindiau a'n teulu olygu y gall amgylchedd gwael, heb fynediad neu â mynediad cyfyngedig i nwyddau, gwasanaethau a manau gwyrdd lleol gael effaith niweidiol iawn ar ein hiechyd meddwl a chorfforol a'n lles, yn ogystal â'n gallu i warchod ein bywoliaeth.*

*Yn awr, yn fwy nag erioed, mae angen i ni feddwl am leoedd a chreu lleoedd. Dyma fydd ein gwerth craidd yn y gwaith rydym yn ei wneud i sicrhau adferiad Cymru. Bydd y camau adfywio a gymerwn ar bob lefel yn cael eu cyfeirio gan feddwl integredig ac nid hwylustod tymor byr a all arwain at ddeilliannau tymor hwy negyddol.”*

Rhagair gan y Gweinidog Julie James MS (t2)

## Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

- 1.10 Mae Cymru'r Dyfodol, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 24 Chwefror 2021, yn pennu haen genedlaethol Cynllun Datblygu Cymru. Mae'r canlynol yn rhoi crynodeb o rai polisiâu allweddol sydd wedi'u cynnwys o fewn Cymru'r Dyfodol.



### Polisi 1: Ble bydd Cymru'n Tyfu

- 1.11 Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi twf cynaliadwy ledled Cymru. Mewn tair Ardal Dwf Genedlaethol gwelir twf mewn cyfleoedd cyflogaeth a thai a buddsoddiad mewn isadeiledd. Yr Ardaloedd Twf Cenedlaethol yw: Bae Abertawe a Llanelli.

### Polisi 2: Llywio Twf ac Adfywio Trefol a Chreu Lleoedd strategol

- 1.12 Dylai twf ac adfywio trefi a dinasoedd wneud cyfraniad cadarnhaol at greu lleoedd cynaliadwy sy'n cefnogi bywydau egniol ac iach, gyda chymdogaethau trefol cywasgedig a cherddedadwy, sydd wedi'u trefnu o amgylch canolfannau defnydd cymysg a chludiant cyhoeddus ac wedi'u hintegreiddio ag isadeiledd gwyrdd.

## Llywio twf ac adfywio trefol

- 1.13 Mae dyheadau Cymru'r Dyfodol o ran twf yn gyfle i adfywio ein trefi a'n dinasoedd a llywio eu maint, eu strwythur a'u dwysedd. Mae creu lleoedd wrth wraidd y system gynllunio yng Nghymru ac mae'r polisi hwn yn sefydlu dull strategol o greu lleoedd ac egwyddorion er mwyn helpu awdurdodau cynllunio i lywio twf ac adfywio trefol.

### Polisi 9: Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn ac Isadeiledd Gwyrdd

- 1.14 Er mwyn gwella bioamrywiaeth, sicrhau bod ecosystemau yn gadarn a darparu isadeiledd gwyrdd, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i wneud y canlynol:
- nodi ardaloedd y dylid eu diogelu a'u creu fel rhwydweithiau ecolegol;
  - nodi cyfleoedd lle y gellid manteisio i'r eithaf ar isadeiledd gwyrdd presennol a phosib fel rhan o greu lleoedd, lle mae angen defnyddio atebion yn seiliedig ar natur fel dull allweddol o sicrhau twf cynaliadwy, cysylltedd ecolegol, cydraddoldeb cymdeithasol a lles.
- 1.15 Ym mhob achos, dylai camau gweithredu tuag at gynnal a gwella bioamrywiaeth (er mwyn sicrhau mantais net) a gwneud ecosystemau ac asedau isadeiledd gwyrdd yn gadarn gael eu dangos fel rhan o gynigion datblygu drwy ddulliau arloesol yn seiliedig ar natur o gynllunio safleoedd a dylunio'r amgylchedd adeiledig. Dangoswyd pwysigrwydd gwirioneddol manau gwyrdd trefol pan fu'n rhaid i bobl gadw'n heini mewn manau gwyrdd lleol cyfagos yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19.

**CDLI Abertawe**

1.16 Mae'r ymagwedd gyfannol at greu lleoedd a rheoli lleoedd fel a amlinellir mewn polisi, canllawiau a chyngor cenedlaethol wedi'i halinio â CDLI mabwysiedig Abertawe a'i hyrwyddo ynddo. Y CDLI



yw'r ddogfen polisi cynllunio leol drosgynnol ac yn darparu'r fframwaith polisi lleol statudol y mae'n rhaid penderfynu pob cais cynllunio a gyflwynir o fewn y Sir yn ei erbyn. Mae'r Polisiâu CDLI yn ymwreiddio'r egwyddor y mynnir i ddatblygu greu lleoedd a mannau o safon yn ddiamwys. Maent yn pwysleisio bod gan yr holl ddatblygiadau newydd, ni waeth pa mor fach y maent, y potensial i gyfrannu mewn ffordd gadarnhaol a phwrpasol at sut y caiff lle ei brofi a'i fwynhau.

1.17 Yn benodol mae Polisi CDLI PS2 yn mynnu bod y datblygiad yn creu lleoedd o safon trwy annog ymagwedd o ddeall ac ymateb i gyd-destun a chymeriad y safle sy'n destun y cais. Mae'n amlygu bod yn rhaid rhoi ystyriaeth nid yn unig i'r adeilad ond i'r gofod o'i gwmpas hefyd. Mae Polisi PS2 yn darparu'r ffon fesur y bydd effeithiau cais yn cael eu mesur yn ei herbyn. Mae'n ganllaw i ystyried yr effeithiau posib ar dreftadaeth ddiwylliannol, amgylchedd naturiol, amwynder cyhoeddus, iechyd a llesiant, parcio, tirlunio, hygyrchedd a thrafnidiaeth.




Yn benodol mae Polisi PS 2 yn mynnu'r canlynol:

***“Dylai datblygu fwyhau ansawdd lleoedd a gofodau ac ymateb yn gadarnhaol i agweddau ar gyd-destun a chymeriad lleol sy'n cyfrannu at ymdeimlad o le”***

- 1.18 Mae'r CCA hwn yn darparu arweiniad a gwybodaeth gefnogol ar gyfer nifer o bolisiau CDLI gan gynnwys y canlynol, ond heb gael eu cyfyngu iddynt:
- PS 2: Creu Lleoedd a Rheoli Lleoedd
  - ER 1: Newid yn yr Hinsawdd
  - ER 2: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd Strategol
  - ER 4: Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AoHNE) Gŵyr
  - ER 8: Cynefinoedd a Rhywogaethau
  - ER 9: Rhwydweithiau Ecolegol a Nodweddion o Bwysigrwydd ar gyfer Bioamrywiaeth
  - ER 11: Coedydd, Perthi a Datblygu
  - CV 4: Trawsnewid Adeiladau Gwledig
  - HC 2: Cadwraeth neu Fwyhau Adeiladau a Nodweddion
  - F 8: Llety Preswyl Ategol
  - EU 2: Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel mewn Datblygiadau Newydd
  - RP 4: Llygredd Dŵr a Diogelu Adnoddau Dŵr
  - SI 1: Iechyd a Llesiant
  - SI 8: Diogelwch Cymunedol
  - T 8: Parcio
- 1.19 Wrth gydnabod hyn, mae'r Canllaw yn amlygu y gall estyniadau a newidiadau preswyl sydd wedi'u dylunio'n dda gyd-fynd â gofynion PS2, a gwneud cyfraniad pwysig at gymunedau cynaliadwy.



- 1.20 Gall y canllaw helpu i sicrhau bod deiliaid tai'n gallu aros yn eu cymunedau ac addasu eu cartrefi i ddiwallu anghenion newidiol dros amser mewn ffordd sy'n parchu cymeriad y gymdogaeth leol ac ar yr un pryd yn ceisio diogelu hawliau a llesiant cymdogion hefyd.
- 1.21 Mae'n bosib y bydd polisïau CDLI eraill na chyfeirir atynt yn y rhestr flaenorol a allai fod yn berthnasol hefyd i rai datblygiadau deiliaid tai, ac mae'n bwysig felly y darllenir y Canllaw ar y cyd â holl bolisïau perthnasol y Cynllun Datblygu a fabwysiadwyd.
- 1.22 Mae'r Canllaw hwn yn ffurfio rhan o gyfres o CCA sy'n darparu Canllawiau Creu Lleoedd, Treftadaeth a Dylunio ar gyfer datblygu yn Abertawe, sydd hefyd yn ymdrin â:
- Chanllawiau Creu Lleoedd ar gyfer Datblygiad Deiliaid Tai;
  - Canllawiau Creu Lleoedd ar gyfer Datblygu Mewnlenwi a Thir Cefn;
  - Canllawiau Creu Lleoedd ar gyfer Datblygiadau Preswyl; a
  - Chanllawiau Creu Lleoedd ar gyfer AoHNE Gŵyr.



- 1.23 Mae CDLI Abertawe hefyd yn cael ei gefnogi gan ystod o CCA eraill sy'n ystyriaethau materol ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, y canlynol:
- Gwarchod Coed
  - Seilwaith Gwyrdd
  - Bioamrywiaeth
  - Safonau Parcio (i'w ddiweddarau)
  - Rhwymedigaethau Cynllunio
- 1.24 Wrth wneud cais, bydd angen i chi ddangos sut mae eich cynigion yn bodloni gofynion yr amrywiaeth eang o bolisïau ac arweiniad a ddefnyddir gan y Cyngor.

## Strwythur y Ddogfen a'r Canllaw Defnyddiwr

- 1.25 Mae rhan graidd y canllaw hwn yn esbonio'r gwahanol faterion manwl sy'n ymwneud â chreu lleoedd, treftadaeth a dylunio y mae'n rhaid i chi eu hystyried wrth baratoi eich cais. Wrth ddefnyddio'r Canllaw Dylunio dylech ddarllen yn gyntaf y 'Gofynion Creu Lleoedd Trosgynnol' yn Adran 3.0, sy'n cynnwys cyngor ar 'Egwyddorion Allweddol Creu Lleoedd' yn ogystal â chyngor ar 'Ddiogelu Amwynder'. Mae Adran 3.0 hefyd yn cynnig canllawiau ar sut i ymgorffori'n llwyddiannus y nodweddion Bioamrywiaeth, Seilwaith Gwyrdd (SG), a Systemau Draenio Cynaliadwy (SUDs) angenrheidiol mewn cynigion.
- 1.26 Dim ond ar ôl ystyried yr egwyddorion trosgynnol hyn y dylech wedyn ddarllen drwy'r nodiadau canllaw dylunio penodol sy'n berthnasol i'ch cynigion, fel a ddisgrifir yn Adran 4.0 'Canllawiau ar gyfer Mathau o Ddatblygiad Deiliaid Tai'.
- 1.27 Mae Siart Llif sy'n crynhoi sut y dylai ymgeiswyr ddefnyddio'r Canllaw wedi'i dangos ar y dudalen nesaf.
- 1.28 Mae'r Canllaw yn pennu isafswm gofynion pan fo'n briodol ac yn amlinellu'r materion dylunio y mae angen eu hystyried fesul achos.

### 1 Dechrau o'r Cyd-destun Polisi Cynllunio Lleol

Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Abertawe

### 2. Paratoi eich Cynnig Datblygu

Caniatâd Cynllunio  
Cyngor Cyn-ymgeisio  
Ceisio Cyngor Dylunio Proffesiynol  
Ceisio Cyngor Ecolegol (pan fo'n briodol)  
Siarad â'ch Cymdogion  
Cvflwvno Cais Cynllunio dilvs

### 3. Gofynion Creu Lleoedd Trosgynnol

Egwyddorion Creu Lleoedd  
Enillion a Gwelliannau Bioamrywiaeth  
Seilwaith Gwyrdd  
Systemau Draenio Cynaliadwy  
Diogelu Amwynder  
Deall eich Tŷ a'ch Ardal Leol  
Parchu Cyd-destun a Chymeriad

### 4. Dewis y Nodiadau Canllaw Dylunio Perthnasol

A—Estyn eich Tŷ Ar Wahân  
B—Estyn eich Tŷ Pâr  
C—Estyn eich Tŷ Teras  
Ch—Estyn eich Byngalo  
D—Rhandai a Llety Ategol  
Dd—Dormerau ac Estyniadau To  
E—Cynlluniau Mwyhau  
F—Arwynebau Uchel, Balconïau a Waliau Cynhaliol  
Ff—Garejys Domestig ac Adeiladau Allanol  
G—Mynediad a Pharcio  
Ng—Triniaethau Ffiniau  
H—Coed a Llystyfiant Arall

## 2.0 Paratoi eich Cynnig Datblygu


### CAM 1: Cyfathrebu â'r Awdurdod Cynllunio Lleol

#### Cyngor Cyn-ymgeisio

- 2.1 Bydd y Canllawiau a ddarperir gan y ddogfen hon yn eich galluogi i baratoi i gyflwyno cais cynllunio. Fodd bynnag, gall cyngor cyn ymgeisio gan y Cyngor gynorthwyo wrth wella ansawdd y datblygiad a helpu i gyflymu'r broses o benderfynu ar y cais cynllunio dilynol. Felly, fe'ch anogir yn gryf i gyflwyno pecyn cyn-ymgeisio i'w ystyried, yn enwedig ar gyfer safleoedd a datblygiadau sensitif. Mae cynigion annerbyniol nad ydynt wedi bod drwy gyn-ymgeisio yn debygol o gael eu gwrthod heb drafodaethau.
- 2.2 Codir tâl am gyngor cyn-ymgeisio, ond mae hyn yn sylweddol is nag ar gyfer cais cynllunio llawn a bydd yn eich helpu i benderfynu pa newidiadau sydd angen eu gwneud i wneud eich cais yn llwyddiannus. Bydd disgwyl i chi ddarparu rhywfaint o wybodaeth gan gynnwys o leiaf rhai cynigion braslunio i'w hystyried er mwyn sicrhau bod eich amser chi a'n hamser ni'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon. Er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau'r Cyngor a galluogi'r awdurdod i ddarparu cyngor pwrpasol, bydd mwy o fanylder yn y cam hwn yn arwain at ymateb cynhwysfawr.
- 2.3 Mae'n bosib y bydd angen cyngor ecolegol arnoch hefyd. Gweler hefyd y CCA Bioamrywiaeth am wybodaeth ychwanegol a rhestrau gwirio arolygu.

#### Caniatâd Cynllunio

- 2.4 I gael gwybodaeth am ba fathau o waith sy'n mynnu caniatâd cynllunio, yn ogystal â throsolwg cyffredinol o waith nodweddiadol ar dai, ewch i wefan y Porth Cynllunio sy'n rhoi gwybodaeth am ystod o gynigion i newid neu ymestyn eich tŷ:



- 2.5 Nid oes angen caniatâd cynllunio ar rai categorïau bach o ddatblygiadau deiliaid tai ar gyfer addasiadau, estyniadau neu adeiladau allanol newydd oherwydd Hawliau Datblygu a Ganiateir a ganiateir o dan ddeddfwriaeth gynllunio genedlaethol. Er hynny, fe'ch anogir i gymhwyso'r un egwyddorion dylunio i'r cynlluniau hyn. Mae Hawliau Datblygu a Ganiateir mwy cyfyngol yn berthnasol mewn Ardaloedd Cadwraeth ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AoHNE) Gŵyr ac mewn rhai achosion mae'r rhain wedi'u dileu gan amod cynllunio ar ganiatâd cynllunio blaenorol neu gan Gyfarwyddyd Erthygl 4. Mae'n bwysig nodi nad yw

fflatiau'n mwynhau unrhyw hawliau datblygu preswyl a ganiateir ar gyfer estyniadau neu addasiadau o dan Ran 1 GPDO (fel y'i diwygiwyd). Fe'ch cynghori i wirio tudalen wefan Llywodraeth Cymru: *Caniatâd cynllunio: hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer deiliaid tai* y gellir dod o hyd iddynt yn:

(<https://llyw.cymru/caniatad-cynllunio-hawliau-datblygu-ganiateir-i-aelwydydd>)

### **Cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu**

- 2.6 Yn ogystal â chael caniatâd cynllunio bydd angen i chi hefyd wneud cais am Gymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu. Bydd adran Rheoli Adeiladu'r Cyngor yn gwirio a yw'r gwaith arfaethedig yn cydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu angenrheidiol. Dylid gwirio argymhellion yr Arolygydd Adeiladu (e.e. dymchwel) gyda'r Adran Rheoli Datblygu – yn enwedig yn achos Adeiladau Rhestredig neu mewn Ardaloedd Cadwraeth.

### **Rhywogaethau a Warchodir**

- 2.7 Gall anheddau gynnwys clwydi ystlumod sydd wedi'u diogelu gan y gyfraith. Mae'n rhaid hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) am unrhyw gamau arfaethedig sy'n debygol o darfu ar ystlumod neu eu clwydi. Rhoddir manylion cyswllt ar ddiwedd y ddogfen hon. Noder bod adar yn cael eu gwarchod tra byddant yn nythu (1 Mawrth i 31 Medi) ac ni ddylid tarfu arnynt yn ystod y cyfnod hwn. Mae moch daear a draenogod hefyd yn rhywogaethau a warchodir yn statudol. Mae'r CCA Bioamrywiaeth yn cynnwys canllawiau manwl ar rywogaethau a warchodir a datblygiadau deiliaid tai i gefnogi Polisiâu CDLI ER 8 ac ER 9.

- 2.8 Dim ond ar ôl cael yr hawliau neu'r trwyddedau angenrheidiol y dylid gwneud unrhyw waith sy'n tarfu ar rywogaethau a warchodir. Mae hyn yn berthnasol i bob gwaith p'un a oes angen caniatâd cynllunio neu fathau eraill o ganiatâd ar y rhain ai beidio. Mae gwaith datblygu a ganiateir hefyd yn dod o dan ofynion trwyddedau rhywogaethau a warchodir a gallech chi fod yn destun Camau Gorfodi ac erlyn yn y Llysoedd os bydd unrhyw waith yn cael ei wneud heb gael y caniatadau/trwyddedau angenrheidiol. O ganlyniad, efallai y bydd yn rhaid i chi gywiro pethau'n ddiweddarach ar anghyfleustra a chost sylweddol i chi'ch hun.

### **Caniatadau Eraill**

- 2.9 Yn ychwanegol at ganiatâd cynllunio, mae'n bosib y bydd angen caniatadau neu gydsyniadau arbennig eraill arnoch hefyd:

### **Caniatâd Adeilad Rhestredig**

- 2.10 Os oes gan eich eiddo gymeriad hanesyddol a/neu bensaernïol arbennig, mae'n bosib ei fod yn adeilad rhestredig. Mae hyn yn golygu, cyn gwneud unrhyw waith, y bydd angen i chi gael Caniatâd Adeilad Rhestredig gan y Cyngor ar gyfer y rhan fwyaf o newidiadau a gwaith arall sy'n effeithio ar gymeriad yr adeilad rhestredig yn allanol ac yn fewnol. Mae'n rhaid i'r ceisiadau hyn gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth (AED).

### **Caniatâd Ardal Gadwraeth**

2.11 Mae llai o Hawliau Datblygu a Ganiateir os yw eich eiddo o fewn ardal gadwraeth (Erthygl 1(5) Tir). Os yw eich eiddo o fewn ardal gadwraeth a'ch bod yn ystyried dymchwel unrhyw adeiledd dros 115m<sup>3</sup> neu unrhyw waliau ffiniol dros uchder penodol yn rhannol neu'n gyfan gwbl, yna bydd angen Caniatâd Ardal Gadwraeth (CAG) arnoch. Mewn achosion lle cynigir dymchwel, bydd angen cyflwyno cais cynllunio hefyd sy'n dangos beth fydd yn cymryd lle yr eiddo presennol. Mae'n ofynnol i bob datblygiad o fewn Ardaloedd Cadwraeth 'ddiogelu neu wella' cymeriad a golwg yr ardal honno. Mae'n rhaid i'r ceisiadau hyn gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth (AED).

### **Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr**

2.12 Penrhyn Gŵyr oedd Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AoHNE) dynodedig gyntaf y DU, a gydnabuwyd am ansawdd ac amrywiaeth y tirweddau a'r golygfeydd cysylltiedig. Er nad oes angen caniatâd ychwanegol, rhaid i gynigion i ymestyn neu newid tai a phob math arall o ddatblygiad deiliaid tai o fewn yr AoHNE ddangos sut y byddent yn gwarchod neu'n gwella harddwch naturiol yr ardal ddynodedig. Dylai ceisiadau yn ardal yr AoHNE hefyd ddilyn y canllawiau a nodir yng CCA Canllaw Dylunio AoHNE Gŵyr sy'n cefnogi gofynion Polisi ER 4.

### **Coed a Warchodir**

2.13 Mae rhai coed sy'n bwysig i amwynder lleol yn cael eu gwarchod gan Orchmynion Cadw Coed (TPO) a bennir gan y Cyngor. Yn yr un modd, mae coed mewn ardaloedd cadwraeth hefyd yn cael eu gwarchod a bydd angen caniatâd ar gyfer unrhyw waith i'r rhain hefyd. Os yw eich safle o fewn ardal gadwraeth, neu os yw coeden sy'n dod o dan Orchymyn Cadw Coed ar eich eiddo, neu'n gyfagos iddo, bydd angen ei osod yn gywir ar y cynllun safle a gyflwynir gyda'ch cais cynllunio. Mae unrhyw waith arfaethedig ar goed a warchodir yn gofyn am gyflwyno cais am waith ar goed. Mae gwaith anawdurdodedig ar goed a warchodir yn drosedd. Gall coed ddarparu cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau a warchodir, fel adar ac ystlumod. Dylid ceisio cyngor ecolegol. Dylai ceisiadau sy'n effeithio ar goed hefyd gyfeirio at y CCA Coed mewn Datblygiadau sy'n cefnogi Polisi ER 11.

### **Priffyrdd**

2.14 Noder nad yw caniatâd cynllunio yn cydsyniad i weithio ar y briffordd. Gan hynny, dylech gysylltu â'r Tîm Priffyrdd cyn gynted â phosib i drafod unrhyw wybodaeth ategol a chyngor sy'n ofynnol ar gyfer y cytundebau cyfreithiol angenrheidiol.

## **CAM 2: Ceisio Cyngor Creu Lleoedd a Dylunio**

### **Dod o Hyd i Gyngor Proffesiynol**

2.15 Mae Cymdeithas Frenhinol Penseiri Cymru (RSAW) yn rhoi arweiniad ar ddewis a phenodi pensaer. Yn ogystal, gall y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI), Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) a Sefydliad Siartredig Technolegwyr Pensaernïol (CIAT) roi cyngor ar brosesau cynllunio ac adeiladu. Mae'r Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (CIEEM) hefyd yn rhoi cyngor a rhestr o aelodau cofrestredig ac ecolegwyr â chymwysterau addas. Gweler y CCA Bioamrywiaeth hefyd.

### **Paratoi Briff ar gyfer eich Dylunydd**

2.16 Mae er budd i chi i nodi'n glir i'ch dylunydd yr hyn rydych am i'ch dyluniad ei ddarparu a pha luniadau sydd eu hangen i gyd-fynd â'ch cais cynllunio. Dylai rhan bwysig o'ch briff fod i'ch dylunydd ddilyn argymhellion y canllaw hwn.

## **CAM 3: Siarad â'ch Cymdogion**

2.17 Fe'ch cynghorir yn gryf i siarad â'ch cymdogion i esbonio eich cynigion cyn cwblhau eich cynlluniau. Mae'n syniad da rhoi eich hunain yn eu sefyllfa hwy wrth ystyried effaith eich cynnig arnynt. Os bydd eich cynigion yn effeithio ar wal gydrannol bydd angen i chi gydymffurfio â darpariaethau Deddf Waliau Cydrannol 1996. Fe'ch cynghorir i siarad ag Adran Rheoli Adeiladu'r Cyngor os nad ydych yn siŵr a yw hyn yn berthnasol i chi. Fel arall, mae llyfryn esboniadol ar gael i'w lawrlwytho o'r adran Rheoli Adeiladu ar-lein yn:

<https://www.abertawe.gov.uk/rheoliadeiladau>

2.18 Ar ôl i chi wneud cais cynllunio bydd y Cyngor yn rhoi cyhoeddusrwydd i'ch cais ac yn ymgynghori â'ch cymdogion agosaf. Os bydd eich cymydog neu drydydd partïon eraill yn gwrthwynebu'n ysgrifenedig i'r Cyngor, gall ohirio eich cais cynllunio. Os bydd gwrthwynebiadau a dderbynnir i'ch cais yn codi materion cynllunio dilys, gall y Cyngor ofyn i chi ddiwygio eich cais cynllunio. Serch hynny, hyd yn oed os nad yw eich cymydog yn gwrthwynebu eich cynnig, os ystyrir ei fod yn annerbyniol ar sail dylunio, gellir gwrthod eich cais o hyd.

### **CAM 4: Dilyn y Canllawiau Dylunio**

- 2.19 Mae'r Cyngor yn darparu nodiadau cyfarwyddyd manwl gyda'ch ffurflenni cais cynllunio sy'n nodi pa gynlluniau, lluniadau a gwybodaeth ategol arall y mae'n ofynnol eu cyflwyno gyda'ch cais cynllunio, gweler:
- <https://www.abertawe.gov.uk/cyflwynocaiscynllunio>
- 2.20 Darperir arweiniad yn Adran 5.0 hefyd. Bydd methu â chyflwyno'r wybodaeth berthnasol yn arafu cynnydd eich cais cynllunio yn sylweddol a gallai arwain at ei ddychwelyd atoch heb gael ei gofrestru.
- 2.21 Dylech ddilyn yr arweiniad a nodir yn y canllaw hwn i'ch helpu i gyflawni dyluniad da ar gyfer eich cynnig. Er y bydd pob cais cynllunio yn cael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod unigol, bydd angen i'r Cyngor asesu eich cais yn ofalus i weld a yw'n cydymffurfio â pholisi cenedlaethol, polisi CDLI a'r canllawiau hyn. Os nad yw'n bosib dangos sut mae'r cais yn dilyn y polisi perthnasol, mae'n bosib y caiff caniatâd cynllunio ei wrthod.

### 3.0 Gofynion Creu Lleoedd Trosgynnol

#### Trosolwg

- 3.1 Mae datblygiad deiliaid tai priodol yn cynnig cyfle i estyniadau a/neu addasiadau gael eu gwneud i anheddau mewn modd sy'n parchu cymeriad y gymdogaeth leol, yn gwella'r ymdeimlad o le mewn ardal, a hefyd yn diogelu hawliau a llesiant cymdogion. Yn ei hanfod, bydd hyn yn galluogi deiliaid tai i aros yn eu cymunedau ac addasu eu cartrefi i ddiwallu eu hanghenion newidiol dros amser.
- 3.2 **Ystyrir yr holl gynigion datblygu gan ddeiliaid tai gan roi sylw i'r gofynion Creu Lleoedd trosgynnol a nodir yn y bennod hon**, yn ogystal â'r arweiniad perthnasol sydd wedi'i gynnwys yn Adrannau A - H.
- 3.3 Diffinnir y gofynion trosgynnol hyn o dan y penawdau canlynol yn y paragraffau isod:
- **Egwyddorion Allweddol Creu Lleoedd**
  - **Enillion a Gwelliannau Bioamrywiaeth**
  - **Seilwaith Gwyrdd (SG)**
  - **Systemau Draenio Cynaliadwy (SUDs)**
  - **Diogelu Amwynder**
  - **Deall eich Tŷ a'ch Ardal Leol**
  - **Parchu Cyd-destun a Chymeriad**

### Egwyddorion Allweddol Creu Lleoedd

- 3.4 Mae'r Cyngor yn ymroddedig i integreiddio egwyddorion creu lleoedd **ar bob graddfa datblygu**. Mae egwyddorion Creu Lleoedd wrth wraidd agenda cynllunio strategol y Cyngor, ac yn yr un modd, maent yn nodwedd hanfodol o'i ymagwedd at reoli datblygu. Ar ei ffurf symlach, mae creu lleoedd yn ymagwedd 'sy'n canolbwyntio ar bobl' at gynllunio, dylunio a rheoli adeiladau, pobl a lleoedd. Mae pwysigrwydd **Creu Lleoedd** wedi cael ei gofleidio fel conglfaen yr agenda gynllunio genedlaethol yng Nghymru a'r amcanion datblygu cynaliadwy sy'n ei hategu. Pwysleisir hyn gan **Siarter Creu Lleoedd Cymru 2020** sy'n llywio pawb y maent yn rhan o'r broses gynllunio i feddwl am 'leoedd cyfan' yn hytrach na dim ond datblygiadau unigol neu ddefnydd tir ar wahân.
- 3.5 Mae'r chwe egwyddor a amlinellir yn Siarter Creu Lleoedd Cymru yn cwmpasu amrywiaeth o ystyriaethau sy'n cyfrannu at sefydlu a chynnal lleoedd da – **Pobl a Chymuned, Lleoliad, Symud, Cymysgedd o Ddefnyddiau, Parth Cyhoeddus a Hunaniaeth**. Mae'r egwyddorion trosgynnol hyn yn berthnasol i ddatblygiadau deiliaid tai mewn perthynas ag anheddau presennol gyda'r nod allweddol o alluogi cartrefi i gael eu newid er lles y deiliaid, ac ar yr un pryd bod yn ystyriol i gymdogion. Bydd hyn yn helpu cynnal cymunedau sydd eisoes yn bodoli a mwyhau lleoedd sydd eisoes yn bodoli.



Creu Lleoedd Cymru  
Placemaking Wales



## Enillion a Gwelliannau Bioamrywiaeth

- 3.6 Mae materion sy'n ymwneud â bioamrywiaeth yn ystyriaethau allweddol ar gyfer datblygu **ar bob graddfa**. Dylai cynigion datblygu deiliaid tai geisio lleihau'r effeithiau ar fioamrywiaeth, cynefinoedd a rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd presennol yn ogystal â chyflwyno mesurau i wella'r fath nodweddion naturiol pwysig.
- 3.7 Mae dull cadarnhaol sy'n cefnogi gwell bioamrywiaeth yn fuddiol mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys ecosystemau mwy sefydlog, rheoli llifogydd, aer glanach ac amgylcheddau mwy dymunol. Bydd graddfa a natur y gwaith arfaethedig yn cael effeithiau amrywiol ar fioamrywiaeth. Bydd angen ystyried agweddau ar y safle yn ogystal â chysylltedd ecolegol oddi ar y safle.
- 3.8 Fel a ddisgrifir yn Adran 6 Deddf yr Amgylchedd Cymru, bydd angen buddiant net ar y Cyngor ar gyfer gwelliannau bioamrywiaeth sydd wedi'u hintegreiddio'n llawn i gynigion datblygu. Mae manylion llawn sut y bydd y Cyngor yn cymhwyso'r ymagwedd hon at y broses gwneud penderfyniadau cynllunio wedi'u disgrifio yn y CCA Datblygu a Bioamrywiaeth.
- 3.9 Cynghorir ymagwedd amlddisgyblaethol yn gryf a dylai timau dylunio gysylltu mewn cam cynnar â swyddogion perthnasol y Cyngor i sicrhau y comisiynir yr adroddiadau ac arolygon technegol priodol mewn da bryd i osgoi oedi diangen i'r prosiect. Yn achos nodweddion ecolegol, argymhellir ymgysylltu â'r Tîm

Cadwraeth Natur ac ymgymryd ag Arfarniad Ecolegol Cychwynnol (AEC) yn gryf i adnabod unrhyw safleoedd dan warchodaeth, cynefinoedd a/neu rywogaethau sy'n bresennol.

- 3.10 Mae ecoleg yn cael ei chynnwys o dan ddeddfwriaeth ar wahân ac mae'n drosedd i achosi niwed a/neu aflonyddwch i rywogaethau a warchodir ac, o'r herwydd, fe'ch cynghorir i gyflwyno Asesiad Ecolegol Cychwynnol (AEC) cyn ymgymryd ag unrhyw waith. Mae'r CCA Bioamrywiaeth yn darparu rhestr wirio o'r mathau o ddatblygu gan ddeiliaid tai y gallai fod angen arolygon rhywogaethau ar eu cyfer. Gweler Atodiad 3 am fanylion ychwanegol ar Fioamrywiaeth.
- 3.11 Dylai cynigion datblygu deiliaid tai ddarparu mesurau gwella bioamrywiaeth a chynefinoedd megis cyfleoedd newydd i fywyd gwylt ar ffurf, er enghraifft, toeon/waliau gwyrdd, blychau nythu adar, nodweddion clwydo ystlumod, tirlunio i gynnwys perthi brodorol, coed ac ardaloedd blodau gwylt, creu gerddi pwll neu gors, lleihau'r defnydd o ffensys byrddau agos sy'n lleihau athreiddedd/cysylltedd ar gyfer bioamrywiaeth, cynnal llinellau coed presennol a chadw perthi.



Ffig 3.1 Mae waliau Byw/Gwyrdd yn cynnig manteision lluosog gan gynnwys cynefinoedd a gwelliannau bioamrywiaeth yn ogystal â helpu i amsugno a dal dŵr glaw i helpu i leihau llifogydd.

## Seilwaith Gwyrdd

3.12 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) 10 yn rhoi pwyslais newydd ar sicrhau manteision amlswyddogaethol o fewn datblygiadau drwy ddarparu Seilwaith Gwyrdd integredig.

3.13 Seilwaith Gwyrdd (SG) yw'r term am rwydwaith o fannau gwyrdd cysylltiedig, amlswyddogaethol, nodweddion naturiol a lled-naturiol eraill a systemau rheoli amgylcheddol. Caiff y rhain eu dylunio a'u rheoli i ddarparu ystod eang o wasanaethau ecosystem megis puro dŵr, ansawdd aer, gofod ar gyfer hamdden a lliniaru ac addasu'r hinsawdd. Gall y rhwydwaith hwn o fannau gwyrdd (tir) a glas (dŵr) helpu i ddarparu system cefnogi bywyd naturiol i bobl a bywyd gwyllt, gwella amodau amgylcheddol ac felly iechyd ac ansawdd bywyd.

3.14 Dylai'r man cychwyn ar bob safle fod i weithio o fewn y cyfyngiadau a chyfleoedd amgylcheddol sydd eisoes yn bodoli, a bydd angen i gynigion datblygu ystyried **SG ar bob graddfa**.

- Tirwedd – h.y. nodweddion tirwedd a chynefinoedd cadwedig
- Cymdogaeth – h.y. coridorau gwyrdd, ardaloedd bywyd gwyllt
- Stryd leol – h.y. coed stryd, ymylon gwyrdd, coridorau SUDs
- Llain leol – h.y. ffiniau perthi, gerddi glaw, toeon gwyrdd

3.15 Bydd datblygiadau deiliaid tai'n defnyddio seilwaith strydoedd presennol ac ni fyddant yn gyffredinol yn darparu cyfleoedd ar gyfer SG ar lefel stryd, ac felly dylid sicrhau bod mesurau gwella'n cynnwys SG **ar lefel lleiniau**.

3.16 Mae gerddi'n cyfrannu at wella seilwaith gwyrdd ar lefel leol, yn enwedig pan fo'r rhain yn ymgorffori mesurau gwella bioamrywiaeth a SUDs..

3.17 O safbwynt deiliad tŷ unigol, bydd SG yn ymwneud yn bennaf â nodweddion lleol 'ar y llain', er enghraifft:

- Gerddi Glaw
- Toeon Gwyrdd
- Ffiniau perth



Ffig 3.2 Gellir rhoi toeon gwyrdd ar nifer o adeileddau to gwastad neu oleddf isel

Gweler Atodiad 4 am ragor o fanylion am nodweddion SG ar bob graddfa.

3.18 Dylid nodi y gall rhai safleoedd fod yn rhan o goridor(au) gwyrdd pwysig ar raddfa'r dirwedd ac efallai na fyddant yn addas i'w datblygu. Gall rhai safleoedd gynnwys nodweddion SG sy'n bwysig ar raddfa'r gymdogaeth (h.y. coed terfyn) a bydd angen cadw'r rhain a'u hymgorffori mewn cynigion.

## Systemau Draenio Cynaliadwy (SUDs)

3.19 O dan ddeddfwriaeth yng Nghymru, mae pob datblygiad newydd o fwy nag 1 annedd neu lle mae'r ardal adeiladu yn 100 metr sgwâr neu fwy, yn gofyn am systemau draenio cynaliadwy (SUDs) ar gyfer dŵr wyneb.

3.20 Ni fydd y mwyafrif helaeth o gynigion gan ddeiliaid tai'n cyfateb i'r meini prawf uchod. Fodd bynnag, pan fydd yn berthnasol, dylid cymhwyso'r wybodaeth a ganlyn.

3.21 Mae'n rhaid i'r SUDs gael ei ddylunio a'i hadeiladu yn unol â Safonau SUDs Statudol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ac mae'n rhaid i Gynlluniau SUDs gael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Lleol yn rhinwedd ei rôl fel Corff Cymeradwyo SUDs, cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau.

3.22 Hyd yn oed os nad oes angen cymeradwyaeth SUDs ar gyfer eich gwaith, fe'ch anogir i archwilio nodweddion SUDs **ar lefel y llain** fel casgenni dŵr a stribedi hidlo er mwyn isafu'r perygl o lifogydd i'ch eiddo a'r rhwydwaith strydoedd ehangach.

3.23 Fel arfer, mae nodweddion SUDs yn dod o dan dri chategori:

- Rheoli Ffynhonnell – Toeon gwyrdd, Gerddi glaw, Arwynebau athraidd
- Systemau Trawsgludiad Athraidd – Pantiau, Draeniau Ffrengig/hidlo
- Triniaeth Oddefol (Llygredd) – Pyllau dargadw, Gwlyptiroedd.

3.24 Bydd y math o nodweddion SUDs sydd wedi'u hintegreiddio i'r datblygiad yn amrywio gan ddibynnu ar raddfa a chymeriad y safle.




Ffig 3.3. Gellir ymgorffori nodweddion ar lefel lleiniau megis gardd law ar lefel arwyneb (ar y chwith) a ffos ymdreiddiad (ar y dde) mewn datblygiadau

Ceir rhestr gynhwysfawr o nodweddion yn Atodiad 5.

## Diogelu Amwynder

- 3.25 Ni ddylai cynigion gael effaith annerbyniol ar ansawdd bywyd (a elwir fel arfer yn 'amwynder preswyl') deiliaid tai a gerddi gerllaw. Wrth benderfynu ar gais cynllunio gan ddeiliad tŷ, bydd amwynder deiliaid presennol, a deiliaid aelwydydd cyfagos, yn cael eu diogelu. Ni chaniateir unrhyw gynnig a fyddai'n methu â diogelu amwynder preswyl, gan gynnwys methu â darparu preifatrwydd digonol i ddeiliaid adeiladau presennol neu adeiladau arfaethedig.
- 3.26 Mae ystyriaethau allweddol mewn perthynas ag amwynder preswyl yn cynnwys osgoi effeithiau edrych drosodd, cysgodi a gormesu. At hynny, mae'n rhaid ystyried trwy'r amser yr effaith sy'n deillio o fynediad a pharcio o ran sŵn ac aflonyddwch.




Ffig 3.4 Byddai'r estyniad yn edrych dros ac yn cysgodi eiddo cyfagos a byddai'n ormesol i'r gerddi cefn cyfagos - nid yw hyn yn dderbyniol

## EGWYDDORION DYLUNIO ALLWEDDOL: OSGOI GORMESU, CYSGODI AC EDRYCH DROSODD – Y 3 O


- 3.27 **Osgoi Effaith Ormesol:** Fel rheol gyffredinol, ni ddylid lleoli estyniad deulawr mor agos i'r ffin â gardd eiddo cyfagos fel y byddai'n tresmasu'n annerbyniol ar y naws agored a'r olygfa o'u tŷ a'u gardd. Gall cynigion unllawr ar safleoedd goledol gael effeithiau tebyg.
- 3.28 Os cynigir wal ddeulawr wag yn agos at ffenestri ystafelloedd trigiadwy sy'n bodoli eisoes, rhaid i'r pellter gwahanu lleiaf fod yn 15m. Mae hyn er mwyn osgoi effaith ormesol ar yr ystafell yr effeithir arni ac i sicrhau goleuo naturiol digonol. Os yw'r wal ochr ar lefel uwch, a dylid cynyddu'r pellter gwahanu 2m am bob gwahaniaeth o 1m mewn lefel.
- 3.29 **Osgoi Effaith Gysgodi:** Mae'n bwysig nad yw estyniad neu ddatblygiad arall deiliad tŷ yn lleihau golau'r haul a golau dydd i lefel annerbyniol mewn tai cyfagos. Mae hefyd yn bwysig peidio â bwrw cysgodion mawrion dros dai a gerddi cyfagos. Bydd graddau golau'r haul a golau dydd a gollir a'r cysgod sy'n cael ei fwrw yn dibynnu ar leoliad y datblygiad o'i gymharu â'r haul a'i uchder a'i hyd mewn perthynas ag eiddo sydd eisoes yn bodoli yno.
- 3.30 Mewn llawer o strydoedd mae llinell adeiladu cefn gyffredin lle mae'r tai i gyd o'r un dyfnder. Os yw lloriau uchaf prosiect yn gwthio allan y tu hwnt i'r llinell adeiladu gefn yna gallai effeithio'n negyddol ar amwynder eiddo cyfagos. Gallai'r cynnig arwain at effeithiau edrych drosodd, gormesol a/neu gysgodi a allai fod yn annerbyniol.

3.31 Fel canllaw i asesu faint o olau haul a golau dydd a gollir a'r cysgod sy'n cael ei fwrw, defnyddir y prawf **45 gradd**. Mae hyn yn ymwneud â llinell a gymerir ar 45 gradd ar gynllun o ganol ffenestri'r ystafelloedd drigiadwy agosaf mewn eiddo cyfagos. Os bydd unrhyw ran o'r estyniad arfaethedig yn torri'r llinell 45 gradd, yna gallai olygu o bosib bod y tŷ cyfagos yn colli golau dydd/golau haul.



Ffig 3.5 Gellir defnyddio'r 'prawf 45 gradd' fel canllaw i asesu faint o olau haul a golau dydd a gollir a faint o gysgod a deflir o ganlyniad i estyniad arfaethedig

3.32 Dylech hefyd brofi uchder eich estyniad arfaethedig yn erbyn y **prawf 25 gradd** er mwyn asesu effeithiau goleuo a gormesu posib. Cymhwysir y prawf hwn fel ongl 25 gradd a gymerir o bwynt canol (pwynt canol fertigol a chanol llorweddol) agoriad ffenestr yr ystafell drigiadwy agosaf mewn eiddo cyfagos. Os yw eich datblygiad arfaethedig i gyd yn disgyn o dan linell a dynnwyd ar 25° o'r llorweddol, mae'n annhebygol y bydd effaith sylweddol ar olau dydd a golau'r haul.




Ffig 3.6 Gellir defnyddio'r 'prawf 25 gradd' i asesu goleuni posib ac effeithiau gormesol estyniad

3.33 Ni fydd peidio â chydymffurfio â'r profion 45 a 25 gradd o reidrwydd yn arwain at wrthod caniatâd cynllunio, ar yr amod y gall dadansoddiad effaith priodol ar yr adeiladau yr effeithir arnynt ddangos bod colli golau'r haul a golau dydd o fewn paramedrau derbyniol. Ymhlith y ffactorau eraill a gymerir i ystyriaeth fydd cyfeiriad yr anheddau ac


unrhyw estyniadau eraill (mae gweddlluniau sy'n wynebu'r de yn cael mwy o haul drwy gydol y dydd) yn ogystal â phresenoldeb adeiladau, adeileddau ac estyniadau eraill sy'n bodoli eisoes.

- 3.34 Mae'r diagram a ganlyn yn dangos llwybrau haul nodweddiadol yr haf a'r gaeaf ar draws yr awyr yn codi o'r dwyrain ac yn machlud yn y gorllewin. Fel y gellir ei weld, bydd gweddlluniau deheuol yn cael mwy o haul yn gyffredinol a bydd y rhai gogleddol yn cael y lleiaf. Gan hynny, dylech ystyried effaith eich cynigion ar eich cymdogion o ran cyfeiriad adeiladu a llwybr yr haul drwy'r dydd.



Ffig 3.7 Llwybr nodweddiadol yr haul yn yr haf a'r gaeaf

- 3.35 **Osgoi Effaith Edrych Drosodd:** Ni ddylai cynigion edrych dros dai cyfagos na'u gerddi preifat i raddau annerbyniol. Os cynigir ystafelloedd trigiadwy fel ystafelloedd gwely, ystafelloedd byw a cheginau ar y llawr cyntaf neu'n uwch, dylid bod yn ofalus iawn i osgoi edrych yn uniongyrchol o ffenestri a balconïau, yn enwedig pan fyddant yn agos at y ffin.
- 3.36 I ryw raddau mae edrych dros ei gilydd yn gyffredin mewn datblygiadau dwysedd uwch a bydd yr adeg yr aiff hyn yn annerbyniol yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. Fodd bynnag, ystyrir bod y canllawiau canlynol yn cynrychioli'r pellteroedd lleiaf yn y rhan fwyaf o achosion er mwyn atal gradd annerbyniol o edrych drosodd. Maent hefyd yn berthnasol er mwyn osgoi effaith gysgodi neu ormesu annerbyniol.
- 3.37 Pan fydd ffenestr ystafell drigiadwy arfaethedig yn wynebu ffenestr ystafell drigiadwy sydd eisoes yn bodoli mewn eiddo cyfagos ar draws gardd breifat, dylai'r pellter gwahanu fod **o leiaf 21 metr mewn sefyllfa 'cefn wrth gefn'**. Gall pellter is fod yn dderbyniol pan nad oes ystafelloedd trigiadwy ar y llawr cyntaf neu'n uwch, neu os nad yw gweddlluniau cefn yr eiddo yn wynebu ei gilydd yn uniongyrchol neu ar ongl i'w gilydd.




Ffig 3.8 Mae angen pellter o 21m rhwng ffenestri dwy ystafell drigiadwy mewn sefyllfa 'cefn wrth gefn'

- 3.38 Mae paragraff 2.29 yn nodi pwysigrwydd cynnal pellter gwahanu o 15m er mwyn osgoi **effeithiau gormesol** ar unrhyw eiddo yr effeithir arno. Mewn rhai achosion gall cynnal pellter gwahanu o 15m hefyd fod yn bwysig er mwyn sicrhau nad yw cynigion datblygu yn arwain at **effeithiau edrych drosodd** annerbyniol ar ystafelloedd trigiadwy a gerddi. Bydd unrhyw gynigion sy'n ceisio gostyngiad yn y pellter gwahanu hwn yn cael eu hasesu gan yr Awdurdod Cynllunio i bennu a yw'r amgylchiadau unigol sy'n berthnasol yn yr achos hwnnw yn cyfiawnhau llacio'r pellter safonol o 15m.


- 3.39 Yn ychwanegol at ddiogelu amwynder preswyl eiddo cyfagos, bydd yr awdurdod cynllunio lleol hefyd yn ystyried yr effaith y bydd estyniad yn ei chael ar ardd breifat cymdogion. Gellir osgoi edrych drosodd uniongyrchol annerbyniol i gerddi cymdogion trwy **sicrhau bod pellter gwahanu o 10m o leiaf yn bodoli rhwng ffenestr ystafell drigiadwy arfaethedig ar y llawr cyntaf a ffin gardd gefn neu ochr rhwng dau eiddo.**

- 3.40 Gellir lleihau edrych yn lletraws dros gerddi cyfagos drwy leoli ffenestri'n ofalus a chadw bwlch digonol ar ffiniau ochr. Gall perthi sgrinio a phlannu hefyd leihau'r potensial am edrych drosodd. Gall ffenestri gwyrdr aneglur parhaol i ffenestri bach mewn ystafelloedd nad ydynt yn cael eu hystyried yn 'drigiadwy' neu ffenestri eilaidd bach mewn ystafelloedd trigiadwy helpu i ymdrin â hyn hefyd.



Ffig 3.9 Mae angen pellter o 10m rhwng estyniad cefn a ffin cefn yr ardd

- 3.41 Os yw eiddo'r cais ar lefel uwch, yna bydd angen cynyddu'r isafswm pellteroedd gwahanu. Fel man cychwyn, **dylid cynyddu'r pellter gwahanu sylfaenol o 21m 2m (rhwng ffenestri a ffiniau gardd fel a nodir yn y paragraffau blaenorol) am bob gwahaniaeth o 1m mewn lefel.**



Ffig 3.10 Pan fydd newid mewn lefelau, mae'n bosib y bydd angen cynyddu'r pellter gwahanu rhwng estyniad a ffenest gyferbyn er mwyn cynnal lefelau preifatrwydd digonol

- 3.42 Gall pellter gwahanu gostyngol fod yn dderbyniol pan fo'r tirffurf rhwng yr anheddau a'r triniaethau ffin yn darparu sgrinio derbyniol neu o fewn Ardal Gadwraeth er mwyn adlewyrchu elfennau cadarnhaol o gymeriad lleol. Fodd bynnag, byddai angen cyfiawnhau hyn yn llawn yn y Datganiad Dylunio a Mynediad ategol (sy'n ofynnol ar gyfer ceisiadau o fewn Ardaloedd Cadwraeth).

- 3.43 Os cynigir ychwanegu llawr ychwanegol at adeilad deulawr, bydd angen isafswm pellter cynyddol i ddarparu am y potensial cynyddol i edrych drosodd. Er mwyn cyfrifo'r isafswm pellteroedd yn y sefyllfa hon, dylid ychwanegu 5m at yr isafswm pellteroedd (rhwng ffenestri ac i ffiniau gardd) ar gyfer pob llawr ychwanegol a gynigir.
- 3.44 Os yw adeiladau ar ongl i'w gilydd, neu pan fydd y tirffurf neu driniaethau ffin yn darparu sgrinio addas, mae'n bosib y bydd achosion pan ellir ystyried pellter gwahanu byrrach.
- 3.45 Yn gyffredinol, bydd pellteroedd gwahanu byrrach rhwng adeiladau'n dderbyniol ar gyfer cynigion unllawr gan ddibynnu ar y cyfyngiadau sy'n benodol i'r safle, megis trefniad y ffenestri a'r math o driniaeth ffin.
- 3.46 Mewn rhai sefyllfaoedd cyfyngedig mae'n bosib y bydd yn bosib sicrhau preifatrwydd ac amwynder priodol trwy ddylunio a sgrinio yn hytrach na gwahanu ffisegol. Er hynny, mae'n rhaid dangos hyn yn glir.
- 3.47 **Osgoi Aflonyddwch i Ddeiliaid:** Mae'n bwysig nad yw lleoliad gwaith allanol fel traciau mynediad, manau parcio, manau troi a phatios yn tarfu'n ddiangen ar y preswylwyr cyfagos.



### **Deall eich Tŷ a'ch Ardal Leol**

- 3.48 Un o brif amcanion y system gynllunio yw cynnal a gwella rhinweddau presennol yr amgylchedd, adeiladau a strydoedd. Wrth ddechrau ystyried gwneud cais i ymestyn neu newid eich eiddo, dylech asesu eich tŷ a'ch gardd a'r cyfraniad a wnânt i'r ardal neu'r stryd gyfagos. Mae'n bwysig bod unrhyw ychwanegiadau neu addasiadau wedi'u dylunio'n sensitif i gyd-fynd â nodweddion eich tŷ a'r strydlun ehangach. Mae'r ystyriaethau isod yn amlinellu'r hyn y mae angen i chi ei ystyried wrth baratoi eich cais cynllunio er mwyn cydymffurfio â Pholisi PS 2.

### **YSTYRIWCH GYMERIAD EICH Tŷ A LLAIN BRESENNOL**

- 3.49 Wrth ystyried gwneud cais cynllunio deiliad tŷ am y tro cyntaf, dylech ddadansoddi cymeriad eich tŷ a sut mae'n berthnasol i'w lain. Mae'n bwysig bod estyniadau wedi'u dylunio'n sensitif i gyd-fynd â nodweddion cynhenid eich eiddo. Bydd hyn yn deillio o nifero nodweddion, rhai'n eithaf amlwg, eraill yn fwy manwl. Dyma'r ystyriaethau allweddol:

**Pa fath o dŷ sydd gennych?** A yw'n dŷ teras, tŷ pâr, neu'n dŷ ar wahân – a yw'n ddau neu dri llawr neu a yw'n fyngalo?

**Ydy eich tŷ o gyfnod pensaernïol penodol?** Er enghraifft, a yw'n fwthyn o'r 19eg ganrif, yn dŷ pâr o'r 1930au neu fyngalo dormer o'r 1970au? Ym mhob achos dylech ystyried i ba raddau y mae eich tŷ wedi cadw ei gymeriad gwreiddiol.

**A yw eich tŷ yn Rhestredig neu mewn ardal gadwraeth?** Pa nodweddion treftadaeth y dylai'r dyluniad ymateb iddynt?

**Beth yw siâp y to?** A yw'n do talcen, to ar oleddf, to un oleddf neu'n do gwastad? A oes ganddo unrhyw ffenestri dormer neu estyniadau presennol

**A oes gan eich tŷ unrhyw nodweddion unigryw?** Ffenestri dormer, simneiau, ffenestri crwm, talcenni, a/neu nodweddion addurniadol?

**Beth yw trefniant y ffenestri a drysau?** A ydynt o gyfran fertigol gyda ffenestri codi traddodiadol, neu a ydynt o gyfran lorweddol fwy modern?

**Pa ddeunyddiau a ddefnyddiwyd?** Deunyddiau lleol, brics, cerrig, llechi? A yw'r ffenestri a'r drysau'n bren/ uPVC, beth yw gorchudd y to?

**Beth yw'r trefniadau parcio a mynediad ceir sy'n gwasanaethu eich tŷ?** Beth yw'r sefyllfa parcio gyffredinol yn yr ardal gyfagos ac ehangach?

## **YSTYRIWCH GYMERIAD Y STRYD A'R ARDAL AMGYLCHYNOL**

- 3.51 Dylech ystyried graddau amrywiad neu gysondeb y cymeriad. Efallai y bydd uchder, ffurf adeiladu neu nodweddion dylunio penodol sy'n gyson, y bydd angen eu parchu a'u hymgorffori yn eich datblygiad, yn enwedig os ydych yn byw mewn ardal gadwraeth. I'r gwrthwyneb, os oes amrywiaeth eang o ran dyluniadau adeiladu yn y stryd neu'r ardal o amgylch eich eiddo, efallai y bydd lle i bennu ymateb sy'n fwy penodol i'r safle. Fodd bynnag, dylech bob amser geisio osgoi ffurf ormesol ar ddatblygu.
- 3.52 Dylech fod yn ymwybodol, os oes gan gymydog estyniad mwy o ran maint, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y caniateir yr un peth i chi. Pennir pob cais ar sail ei deilyngdod ei hun gan gyfeirio at y canllawiau dylunio a'r fframwaith polisi sy'n berthnasol ar y pryd.
- 3.53 Yr ystyriaethau allweddol yw:

**Parchwch y Llinell Adeiladu** – sicrhewch fod eich datblygiad yn parchu'r llinell a grëwyd gan dai/ffryntiadau adeiladu eraill yn y stryd.

**Nodwch uchder yr adeiladau cyfagos** – mae uchder adeiladau eraill yn debygol o gyfyngu ar uchder yr estyniad i'ch eiddo chi.

**Nodwch y bylchau rhwng adeiladau** – mae bylchau rhwng adeiladau yr un mor bwysig â'r adeiladau eu hunain wrth greu'r strydlun. Fel arfer bydd bwch cyson rhwng adeiladau ar strydoedd lle ceir tai pâr yn bennaf. Ni ddylai datblygiad deiliad tŷ beryglu'r bwch os yw hwn yn nodwedd gref a nodedig o'ch stryd.

**Rhowch sylw i driniaethau ffiniau ffryntiad** – lle maent yn bodoli, mae triniaethau ffiniau ffryntiad yn helpu i wahaniaethu rhwng ardaloedd cyhoeddus a phreifat a gallant gyflwyno nodwedd ddylunio gyfunol bwysig yn y strydlun. Yn ogystal, gall defnyddio perthi a phlannu arall ddarparu amrywiaeth o fanteision Bioamrywiaeth, SUDs a Seilwaith Gwyrdd yn ogystal â strydoedd mwy dymunol ar gyfer cymunedau iachach a chynaliadwy.

**Parchwch dai aeddfed, perthi a phlannu arall** – gall llystyfiant naturiol sydd eisoes yn bodoli gyfrannu'n sylweddol at osod tŷ ac atyniad y strydlun. Dylid cadw hyn pryd bynnag y bo modd er mwyn darparu manteision bioamrywiaeth ac amgylcheddol eraill yn ogystal â chynnal cysylltedd ecolegol.

**Ystyriwch yr hyn sy'n gwneud i'ch cartref a'r stryd deimlo'n ddiogel** — meddyliwch am ba rinweddau o'ch cartref a'ch stryd sy'n gwneud i chi, trigolion eraill a cherddwyr deimlo'n ddiogel a sut y gellir cadw neu wella hyn.

## Parchu Cyd-destun a Chymeriad

- 3.54 Er mwyn cydymffurfio â pholisi CDLI PS 2 dylai eich estyniad alw ar gymeriad a graddfa'r tŷ gwreiddiol ac ymateb yn gadarnhaol iddo, gyda manylion to, ffenestri, drysau a deunyddiau allanol tebyg neu gydweddol.
- 3.55 Dylech fod yn ofalus i sicrhau nad yw eich datblygiad yn cyfrannu at faestrefoli pentrefi a'r cefn gwlad. Mae'n rhaid i ddatblygu yn AoHNE Gŵyr hefyd ystyried gofynion Polisi ER 4. Gweler y CCA Canllaw Dylunio AoHNE Gŵyr.



**Cymeriad Cryf a Chyson**  
Ardal Adnewyddu'r Hafod

- Cymeriad cyson
- Ffurf adeiladu Ailadroddol
- Llinell adeiladu gref



**Cymeriad Afreolaidd a Llac**  
Cilgant Coleridge

- Llinell Adeiladu Groesgam
- Amrywiaeth o fathau o dai
- Deunyddiau gwahanol

## YSTYRIED DULL DYLUNIO CYFOES

- 3.56 Mae polisi a chanllawiau cynllunio yn cefnogi dylunio arloesol a chyfoes pan fydd yn sensitif i'w leoliad a'i sefyllfa. Bydd angen i chi ddangos dull dylunio cyd-destunol sy'n defnyddio cymeriad, lleoliad a sefyllfa'r tŷ presennol i ysbrydoli ymateb mwy cyfoes. Mae ansawdd deunyddiau o'r pwys pennaf. Bydd angen cyfiawnhau cynigion ar gyfer dulliau dylunio cyfoes yn llawn yn erbyn y cyd-destun lleol a dylid eu hesbonio mewn datganiad dylunio ategol.
- 3.57 Bydd dull cyfoes yn aml yn cynnig cyfleoedd sylweddol i ymgorffori nodweddion dylunio cynaliadwy ac argymhellir yn gryf eich bod yn dewis eich pensaer yn ofalus os ydych am fabwysiadu'r dull hwn.



Ffig 3.11 Estyniad cyfoes i fwthyn to gwellt, Oxwich (enillydd sawl un o'r Gwobrau Dylunio yn 2006)

## EGWYDDORION DYLUNIO ALLWEDDOL

### ESTYNIAD I FLAEN EICH Tŷ

3.58 **Heblaw cynteddau, nid yw estyniadau i flaen eich tŷ yn debygol o fod yn dderbyniol** a dylid eu hosgoi'n gyffredinol gan eu bod yn amlwg iawn, yn aml yn torri'r llinell adeiladu, yn peryglu'r berthynas rhwng y tŷ a'r stryd ac yn cyfaddawdu cymeriad gwreiddiol yr eiddo yn ddifrifol. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer tai eiddo teras neu dai pâr ond gall hefyd fod yn berthnasol i dai ar wahân.

3.59 Wrth ddylunio cyntedd mae'n bwysig, fel unrhyw estyniad arall, y dylai adlewyrchu cymeriad y tŷ. Dylai cyntedd fod yn gymesur â graddfa'r tŷ ac ni ddylai fod yn ormesol.

### DEFNYDDIO'R DEUNYDDIAU CYWIR

3.60 Fel rheol gyffredinol, dylech ddefnyddio deunyddiau allanol sy'n cydweddu â'r eiddo presennol a'r ardal gyfagos. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer estyniadau blaen ac ochr gan fod y rhain fel arfer yn fwy gweladwy o'r stryd. Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau mae hyn yn golygu paru'r deunyddiau â'r rhai a ddefnyddir eisoes ar eich tŷ.

3.61 Er efallai na fydd bob amser yn bosib dod o hyd i ddeunyddiau a nodweddion sy'n cyfateb yn union, yn enwedig ar gyfer tai hŷn, bydd disgwyl i'ch cynigion ddefnyddio deunyddiau sy'n gweddu i liwiau, tonau a gwadau eich tŷ.

3.62 Anogir defnyddio deunyddiau ail-law i helpu cyflawni gyfatebiaeth dderbyniol cyhyd â'u bod mewn cyflwr cadarn ac yn addas i'r diben.




Ffig 3.12 Yn gyffredinol dylai deunyddiau gyd-fynd â'r eiddo presennol a gweddu i gymeriad y stryd (ar y chwith). Mae'r defnydd o ddeunyddiau amhriodol (ar y dde) yn tanseilio'r stryd

### LLEINIAU CORNEL

3.63 Os yw eich tŷ wedi'i leoli ar lain gornel, bydd estyniadau ac addasiadau yn tueddu i fod yn weladwy o nifer o safbwyntiau cyhoeddus, yn enwedig y strydoedd cyfagos. Felly, mae'n rhaid cydnabod yr angen am ymdrin â'r ffryntiad ar y ddwy stryd a bydd angen i chi ystyried y canllawiau canlynol. Ni ddylai estyniad ar lain gornel ymestyn y tu hwnt i'r llinell adeiladu yn y stryd gyfagos.

3.64 Bydd ymestyn tŷ ar lain gornel yn effeithio ar ddwy linell adeiladu. Yn gyffredinol, bydd angen cadw'r llinellau adeiladu hyn. O ganlyniad, gallai llinell adeiladu'r tŷ ar y stryd gyfagos gyfyngu ar led eich estyniad. Bydd dyluniad a golwg y tŷ ar y gornel gyferbyn yn bwysig hefyd, yn enwedig os yw'r adeiladau gyda'i gilydd yn creu ymdeimlad o ffynediad i'r stryd.



Ffig 3.13 Ni ddylai estyniad ar lain gornel fynd ymhellach na llinell yr adeiladau yn y stryd gyfagos

3.65 O ystyried amlygrwydd llain gornel, dylech osgoi dylunio estyniad gyda wal wag fawr yn ffryntio'n uniongyrchol ar y stryd gan y byddai hynny'n cael effaith ormesol ar y stryd ac yn lleihau gwyliadwriaeth naturiol.

3.66 Efallai y bydd achosion eithriadol pan allai adeilad neu estyniad cornel dorri'r llinell adeiladu er mwyn cyflawni swyddogaeth treflun megis er mwyn ymdrin yn ddigonol â'i lleoliad cornel gyda dau weddlun sy'n wynebu man cyhoeddus neu ddarparu adeilad nodwedd wrth gyffordd allweddol. Fodd bynnag, caiff priodoldeb dulliau o'r fath ei farnu ar sail cyd-destun ac amgylchiadau unigol pob achos. Yn ogystal â hyn, bydd angen i'r gwyradau hyn hefyd fod o raddfa addas a dyluniad o ansawdd uchel i gyfiawnhau'r ymagwedd.

## FFENESTRI A DRYSAU

3.67 Dylai dyluniad a threfniad ffenestri a drysau newydd barchu cymeriad a golwg y tŷ gwreiddiol. Gellir cyflawni hyn drwy ddilyn yr egwyddorion cyffredinol hyn:

- Maint, siâp, dyluniad, cyfrannedd a deunyddiau tebyg i'r tŷ gwreiddiol.
- Adlewyrchu patrwm a threfniad ffenestri'r tŷ.
- Dylai cilfachau'r ffenestri gyfateb i'r ffenestri presennol.
- Dylid osgoi cyflwyno mathau newydd o ffenestri yn yr estyniad.
- Dylid cadw mynedfa flaen bresennol y tŷ yn ei leoliad gwreiddiol.
- Dylid cadw ardaloedd mwy o ffenestri gwyrdr i'r gweddllun cefn.



Ffig 3.14 Dylai ffenestri gyfateb i raddfa a chyfrannedd ffenestri presennol eich eiddo

**DYLUNIAD MANWL**

- 3.68 Mae'n bwysig nid yn unig bod lliwiau a tonau'r deunyddiau'n cysoni, ond hefyd bod y manylion yn briodol:
- Mae manylion pen a sil i agoriadau fel arfer yn hawdd i'w hefelychu ac maent yn ffordd effeithiol iawn o integreiddio'r hen â'r newydd.
  - Edrychwch ar ymyl, bondo a chrib eich to a cheisiwch gyflawni manylion yr estyniad yn yr un ffordd. Mae'r elfennau hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer sicrhau ymdeimlad o ddilyniant.
  - Gall teils fformat mawr ymddangos yn drwsogl ac allan o raddfa ar estyniadau a chynteddau unllawr. Mae rhai gweithgynhyrchwyr yn cynhyrchu teils crib 'baban' i'w defnyddio mewn amgylchiadau o'r fath.
  - Dylai brics/ cerrig, bondio a math/cymalau mortar gyfateb i'r tŷ gwreiddiol. .
  - Ystyriwch ddefnyddio ffenestri pren â manylion traddodiadol mewn tai hŷn.

**Effeithlonrwydd o ran Adnoddau**

- 3.69 Mae effeithlonrwydd o ran adnoddau'n golygu lleihau'r ynni sydd ei angen ar eich tŷ ar gyfer gwresogi, goleuo a defnyddiau ynni eraill, a defnyddio deunyddiau a dulliau adeiladu nad oes angen llawer o ynni arnynt naill ai i'w cynhyrchu neu i adeiladu.
- 3.70 Nodir yr isafswm gofynion i sicrhau effeithlonrwydd adnoddau mewn gwaith adeiladu newydd yn y Rheoliadau Adeiladu. Gweler: <https://www.abertawe.gov.uk/newidiadaudomestig>
- 3.71 Mae Polisi CDLI PS 2 (xi) yn annog cynigion ar gyfer addasiadau ac estyniadau sy'n cyflawni lefelau uchel o effeithlonrwydd adnoddau. Gweler hefyd Bolisi EU 2 mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni a Pholisi RP 4 mewn perthynas ag effeithlonrwydd dŵr.

**EGWYDDORION DYLUNIO ALLWEDDOL:**

- 3.72 Ceisiwch drefnu cynllun mewnol estyniad fel bod y prif ystafelloedd trigiadwy ar ochr ddeheuol yr adeilad. Os yw cefn eich tŷ yn wynebu'r de, ystyriwch ymestyn cegin gefn i le mwy trigiadwy.
- 3.73 Gallwch arbed ynni a gwresogi eich cartref drwy fanteisio ar wres o'r haul os yw eich estyniad yn wynebu o'r de-ddwyrain i'r de-orllewin. Yn gyffredinol, dylai ffenestri ar ochr ddeheuol yr adeilad fod yn fwy er mwyn mwyaflu enillion solar goddefol.

- 3.74 Pan fo'n bosib, rhowch fynedfeydd i'r tŷ i ffwrdd o'r prifwyntoedd a'u diogelu â chyntedd neu lobi.
- 3.75 Gall ystafelloedd gwydr fod yn ddrud iawn i'w gwresogi yn y gaeaf a gallant wastraffu ynni. Felly, dylid eu gwahanu oddi wrth y prif dŷ gan wal wedi'i hinswleiddio a drysau a ffenestri y gellir eu cau er mwyn osgoi gorfod ei gynhesu pan fydd yn oer.
- 3.76 Wrth ddylunio eich newidiad neu estyniad ystyriwch a oes cyfleoedd i gynnwys nodweddion i gynhyrchu ynni. Gall paneli gwresogi dŵr solar ddarparu 50% o'ch gofynion dŵr poeth, a gall paneli ffotofoltäig gynhyrchu rhywfaint o'ch trydan. Er yr anogir nodweddion arbed ynni, os ydynt wedi'u lleoli'n wael gallant amharu ar gymeriad eich tŷ neu gymdogaeth, yn enwedig os yw'r adeilad wedi'i restru neu o fewn ardal sensitif fel AoHNE Gŵyr neu Ardal Gadwraeth. Os ydych yn bwriadu ymgorffori unrhyw un o'r nodweddion hyn, dylech wirio a oes angen caniatâd cynllunio ar eu cyfer.
- 3.77 Pryd bynnag y bo modd, defnyddiwch ddeunyddiau sy'n cael eu cynhyrchu'n lleol ac sy'n dod o ffynhonnell y gellir ei hadnewyddu heb niwed i'r amgylchedd. Gall deunyddiau wedi'u hadfer o ansawdd uchel arbed adnoddau a gallant hefyd ddarparu gwell cyfatebiaeth â'r adeilad presennol. Os yw eich cynigion yn cynnwys dymchwel, defnyddiwch ddeunyddiau dymchwel ar y safle pan fo'n bosib, er enghraifft gellir aildefnyddio cerrig naturiol mewn waliau.
- 3.78 Dylech osgoi defnyddio pren caled trofannol a chwilio am FSC wedi'i stampio ar bren sy'n ardystio y daw o ffynonellau cynaliadwy.
- 3.79 Mewn glaw trwm iawn, gall dŵr ffo o arwynebau caled orlwytho draeniau ac achosi llifogydd. Gellir lleddfu hyn trwy ddefnyddio to gwyrdd, sydd â thyweirch/planhigion yn sefyll ar leinin diddos. Mae arwynebau palmantu athraidd fel blociau neu frics wedi'u gosod yn y ddaear, yn caniatáu i ddŵr glaw ddraenio i ffwrdd yn raddol. Gall casgenni dŵr glaw ddarparu ffynhonnell ddefnyddiol o ddŵr ar gyfer dyfrio'r ardd neu olchi'r car mewn cyfnodau sychach. Mae Polisi RP 4 yn mynnu bod yn rhaid i ddatblygiad wneud defnydd effeithlon o adnoddau dŵr ac ymchwilio i'r defnydd o SUDs pryd bynnag y bo hynny'n effeithiol ac yn ymarferol.

Gosodwch ddeunyddiau inswleiddio ac atal drafftiau at safon uchel, gan gynnwys walïau ceudod, lloffydd, tanciau a phibellau dŵr. Defnyddiwch ddeunyddiau inswleiddio sy'n llesol i'r amgylchedd h.y. papur wedi'i ailgylchu, gwllân defaid. ♥£☀️🌱

Ystyriwch osod technegau gwresogi amgen h.y. CHP domestig / tanwydd pren a biomas, ffynhonnell gwres o'r ddaear fel y bo'n briodol ar gyfer eich amgylchiadau. ⚡️£☀️🌱🌱

Ystyriwch osod ffotofoltäig (PV) / tyrbinau gwynt ar raddfa fach ar gyfer trydan neu ynni'r haul ar gyfer dŵr poeth domestig. ⚡️£☀️🌱🌱

Meddyliwch am eich anghenion ar gyfer y gofod yn y dyfodol a dyluniwch fannau hyblyg i mewn. h.y. mynediad gwastad, drysau llydan a walïau mewnol hawdd eu tynnu. ⚡️🌱🌱

Gosodwch flychau nythu a clwydi / briciau ystumod ar estyll tywydd a bondoeau. Sicrhewch fod lle i nythod / clwydi os ydych yn adnewyddu toeon. 🌱

Defnyddiwch osodiadau a ffitiadau sy'n effeithlon o ran ynni, h.y. bylbiau golau ynni isel, nwyddau gwyn â gradd A. £☀️🌱

Gosodwch reolyddion gwresogi all gael eu rhaglennu fel y gallwch addasu eich gwres i ddiwallu eich anghenion a chreu parthau gwahanol ar gyfer ardaloedd sydd â phatrymau defnydd gwahanol. £☀️🌱


Defnyddiwch gynhyrchion sy'n llesol i'r amgylchedd neu'n fioddiraddadwy, h.y. paent organig. ♥⚡️🌱🌱

Defnyddiwch ddeunyddiau adnewyddadwy gwydn a gynhyrchir yn lleol, h.y. defnyddiwch bren o ffynonellau cynaliadwy (FSC neu gyfwerth), ystyriwch dechnolegau cynaliadwy fel adeiladu â byrnau gwellt. ⚡️🌱☀️🌱🌱

Defnyddiwch offer sy'n defnyddio dŵr yn effeithlon h.y. peiriannau golchi a golchi llestri sydd â sgôr uwch. £🌱

Meddyliwch am osod tanc fflys dwbl/bach neu hyd yn oed doiled compostio i arbed dŵr. £🌱

Manteisiwch ar gyfeiriad eich adeilad. Mae ffenestri sy'n wynebu'r de'n gwneud y gorau o olau'r haul. ♥£☀️🌱



Defnyddiwch lenni trwchus neu â leinin thermol i gadw'r gwres i mewn. ♥£☀️

Defnyddiwch wydr ar estyniadau i uchafu manteision golau dydd / ewres. 🚗🌱☀️🌱

Gosodwch foeleri cyddwyso / effeithlonrwydd uchel. ⚡️£☀️🌱🌱

Defnyddiwch alwminiwm neu gopr neu ddr galfanedig yn lle uPVC ar gyfer gwteri. ☀️🌱

Aildefnyddiwch / ailgylchwch wastraff adeiladu, h.y. gellir aildefnyddio rwbel glân o ddymchwel ar gyfer ôl-lenwi. £🚗🌱🌱

Bydd gosod gwydr hynod effeithlon h.y. gwydr eilaidd, gwydr dwbl neu driphlyg, a gwydr K allyrredd isel yn helpu i adlewyrchu gwres yn ôl i'r ystafell. ♥£☀️🌱

## Hydref 2021

### Allwedd

- ♥ Manteision iechyd
- ⚡️ Costau cynnal a chadw is
- £ Biliau cyfleustodau is
- 🚗 Llai o deithio
- 🌱 Bywyd gwyllt/amgylchedd gwell
- ☀️ Llai o nwyon tŷ gwydr
- 🌱 Atyniad I brynwyr yr eiddo
- 🌱 Efallai y bydd angen caniatâd cynllunio neu gymeradwyaeth rheoli adeiladau – ceisiwch gyngor gan y cyngor



**Atal Troseddu**

- 3.80 Mae'n rhwymedigaeth ar y cyngor i annog dylunio sy'n lleihau troseddu o dan adran 17 y Ddeddf Trosedd ac Anhrefn. Mae Polisi SI 8 y CDLI yn nodi'r mesurau y dylid eu hystyried er mwyn sicrhau bod datblygiadau wedi'u dylunio i hyrwyddo cymunedau diogel.
- 3.81 Er mwyn isafu cyfleoedd i droseddu ddigwydd neu waethgu, dylid cymhwyso egwyddorion diogelwch cymunedol yn unol ag egwyddorion Diogel trwy Ddylunio heb wrthdaro ag egwyddorion creu lleoedd.
- 3.82 Dylech ystyried y mesurau syml a ganlyn sydd yn aml yn rhad i leihau eich siawns o ddioddef trosedd.

**EGWYDDORION DYLUNIO ALLWEDDOL**

- 3.83 Edrychwch o safbwynt byrgler. Ydy eich tŷ'n darged hawdd? Beth allwch chi ei wneud i wneud eich cartref yn fwy diogel?
- 3.84 Os yw byrgler neu leidr yn meddwl y gall gael ei weld, bydd yn llai tebygol o gyflawni trosedd felly darparwch wyliadwriaeth naturiol dda o'ch cartref i'r stryd, eich gerddi a'ch tramwyfeydd. Gellir cyflawni hyn drwy leoli ffenestri'n ofalus.
- 3.85 Lle bo modd, sicrhewch y gallwch weld eich man parcio o'ch tŷ.

- 3.86 Bydd goleuadau sy'n synhwyro symudiad ar eich eiddo yn atal byrgleriaid a hefyd yn ei wneud yn fwy diogel i chi. Dylai goleuadau o'r fath gael eu lleoli'n sensitif gyda dyfeisiau amseru addas er mwyn osgoi llygredd golau diangen yn unol â Pholisi CDLI RP 3.
- 3.87 Dylid defnyddio caeadleoedd ffiniau i ddiogelu'r rhannau mwyaf agored i drosedd yn y tŷ, fel arfer yn y cefn lle nad oes gwylidwriaeth naturiol o'r stryd. Mae ffiniau isel ar y blaen yn rhoi'r gwelededd mwyaf posib a dylai fod modd cloi mynedfeydd ochr. Bydd angen deunyddiau cadarn deniadol o ansawdd uchel lle mae caeadleoedd i'w gweld o'r stryd neu'r manau parcio ac ni fydd yn dderbyniol creu adeileddau gwag, hyll a fyddai'n amharu ar gymeriad yr ardal neu mewn rhai achosion yn atgyfnerthu canfyddiadau negyddol o ardal.
- 3.88 Ystyriwch osod larwm byrgler o ansawdd da, sy'n rhwystr profedig. Dylid gosod cloeon yn gadarn i fodloni Safonau Diogelwch Prydeinig ar gyfer cloeon (BS3621), ffenestri (BS7950) a Drysau (PAS 24-1).
- 3.89 I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r CCA Cynllunio ar gyfer Diogelwch Cymunedol ar wefan y cyngor. Rhestrir mwy o ddogfennau ar atal troseddu yng nghefn y canllaw hwn.

## 4.0 Canllawiau ar gyfer Mathau o Ddatblygiadau Deiliaid Tai

### Egwyddorion Cyffredinol ar gyfer Pob Math o Dŷ

4.1 Mae nifer o egwyddorion allweddol i'w hystyried wrth ddylunio estyniad i unrhyw fath o dŷ. Crynhoir y rhain isod a dylent ffurfio'r man cychwyn ar gyfer eich cynigion. Mae nifer o ystyriaethau penodol hefyd a fydd yn dibynnu a oes gennych dŷ ar wahân, tŷ pâr, tŷ teras neu fyngalo ac mae'r rhain wedi'u nodi yn yr adrannau sy'n dilyn yr un yma.

### EGWYDDORION DYLUNIO CYFFREDINOL AR GYFER POB MATH O Dŷ

- Un o'r egwyddorion allweddol wrth ddylunio **estyniad i dŷ yw na ddylai dominyddu'r tŷ gwreiddiol o ran ei faint, ei safle a'i ddyluniad**. Yn gyffredinol, gellir cyflawni hyn drwy leoli estyniadau y tu ôl i'r eiddo.
- Os na ellir lleoli'r estyniad i'r cefn, gall **gosod yr estyniad yn ôl o'r priflun helpu i wneud yr estyniad yn fwy eilaidd** a chadw cymeriad y tŷ gwreiddiol.
- **Bydd gosod llinell grib yr estyniad o dan brif linell grib y tŷ presennol yn helpu i wneud yr estyniad yn eilaidd** ac yn cynnal cymeriad y tŷ gwreiddiol.
- Bydd faint y gosodir yr estyniad yn ôl ac i lawr i'r llinell grib arfaethedig yn dibynnu ar gymeriad yr annedd, ond **yn gyffredinol 0.5m fydd yr isafswm yn y ddau achos**.
- Ni ddylai estyniadau ochr darfu ar ffurf a chydbwysedd y gweddlun blaen gwreiddiol. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar dai mwy traddodiadol. Fel canllaw, **ni ddylai'r estyniad fod yn fwy nag un hanner lled ffryntiad y tŷ gwreiddiol**.
- **Dylid gosod estyniadau ochr o leiaf 1m oddi ar unrhyw ffin**.
- **Mae'n bwysig bod y priflun yn parhau i fod yn gyflawn ac yn cael ei barchu**. Dylid osgoi ail-leoli'r brif fynedfa.
- **Dylid ailadrodd siâp cyffredinol y to yn nyluniad to'r estyniad**. Er enghraifft, os oes gan eich tŷ presennol do ar oleddf neu do talcen, dylid dylunio'r estyniad gyda tho ar oleddf neu do talcen tebyg. Yn gyffredinol, ni fydd toeon gwastad yn cael eu hystyried yn dderbyniol ar estyniadau 2 lawr ac/neu estyniadau a fyddai'n weladwy o'r parth cyhoeddus.
- **Fel arfer, dylid adeiladu to'r estyniad ar yr un oleddf â'r prif do presennol**.

- **Yn gyffredinol, mae toeau anghymesur yn ymddangos yn ffuantus ac fel toeon gwastad yn gyffredinol ni fyddant yn annerbyniol ar dai traddodiadol.**
- Fodd bynnag **mewn achosion eithriadol, lle nad oes gan yr eiddo presennol fawr ddim teilyngdod pensaernïol na dylunio, os o gwbl, gellir mabwysiadu dull mwy cyfoes ac arloesol.** Bydd yn bwysig yn yr achosion hyn i sicrhau bod y datblygiad o'r ansawdd uchaf ac yn parhau i weddu i'r strydlun a'r ardal gyfagos o ran ei ddyluniad cyffredinol.
- Bydd cynigion ar gyfer **ystafelloedd gwydr, ystafelloedd haul, orendai etc. yn gyfystyr ag estyniad** ac yn cael eu hasesu yn yr un modd.
- Mae'n rhaid i ystafelloedd trigiadwy yn yr annedd bresennol ac mewn unrhyw estyniad arfaethedig feddu ar rywfaent o olwg o ffenestri. **Ni ystyrir bod dull sy'n defnyddio ffenestri to a/neu ffenestri gwydr aneglur yn unig ar gyfer ystafelloedd trigiadwy yn dderbyniol ac eithrio yn achos trawsnewidiadau llofft/ystafelloedd newydd o fewn y to presennol.**

## A: TAI AR WAHÂN

- A.1 Fel arfer, mae tai ar wahân, yn enwedig eiddo hŷn, wedi'u hadeiladu ar leiniau mwy ac yn aml mae mwy o botensial i'w newid a'u hymestyn; fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y dylid rhoi llai o sylw i ansawdd y dyluniad na bod estyniad rhy fawr yn dderbyniol. Un o'r egwyddorion allweddol i'w hystyried wrth ddylunio estyniad i dŷ ar wahân yw na ddylai dominyddu'r tŷ gwreiddiol o ran ei faint, ei safle a'i ddyluniad. Yn gyffredinol, gellir cyflawni hyn yn haws trwy leoli estyniadau y tu ôl i'r eiddo. Yn gyffredinol ni ddylai estyniadau ochr darfu ar ffurf a chydbwysedd y gweddwlun blaen gwreiddiol. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar dai mwy traddodiadol.



Ffig A.1 Estyniad darostyngol sy'n parchu cyfrannedd a graddfa'r tŷ gwreiddiol

### EGWYDDORION DYLUNIO ALLWEDDOL


#### ESTYNIADAU OCHR DEULAWR AR DAI AR WAHÂN

- A.2 Ni ddylai estyniad ochr ddominyddu na tharfu ar gyfrannau eich tŷ a'r ffordd symlaf o sicrhau hyn yw cyfyngu ar faint yr estyniad o'i gymharu â'r tŷ gwreiddiol. Gan ddibynnu ar ddyluniad y tŷ gwreiddiol a siâp y to, mae sawl ffordd y gellir cyflawni hyn: gosod yr estyniad yn ôl o flaen y tŷ; gostwng uchder y to islaw to'r tŷ gwreiddiol; cyfyngu ar led yr estyniad o'i gymharu â lled ffryntiad y tŷ gwreiddiol; ac osgoi defnyddio nodweddion pensaernïol cryf a allai gystadlu â'r tŷ gwreiddiol.
- A.3 Dylai dyfnder yr estyniad ei hun hefyd fod yn eilaidd i brif gorff y tŷ gwreiddiol.



Ffig A.2 Estyniad ochr a ddylunnir yn wael sy'n cystadlu â graddfa a ffurf y tŷ gwreiddiol

A.4 Dylid ailadrodd siâp cyffredinol y to yn nyluniad to'r estyniad. Er enghraifft, os oes gan eich tŷ presennol do ar oledf neu do talcen, dylid dylunio'r estyniad gyda tho ar oledf neu do talcen tebyg. Fel arfer, dylid adeiladu to'r estyniad ar yr un oledf â'r to presennol. Ni ddylai lled a chyfrannedd talcenni fod yn fwy nag ar y tŷ presennol a byddant fel arfer yn llai. greater than that on the existing house and will usually be smaller.



Ffig A.3  
To ar oledf y tŷ gwreiddiol wedi'i adlewyrchu yn yr estyniad

A.5 Ni ddylai estyniad i ochr eich tŷ amharu ar y berthynas rhwng y tŷ a'r gofod rhwng y tai. Pan fo'n bosib, dylai'r estyniad adael lle rhesymol o amgylch y tŷ ac ardal ddigonol o ardd. Mae'n bwysig nad yw unrhyw estyniad arfaethedig yn arwain at orddatblygu eiddo a sut y mae'n sefyll o fewn ei lain gardd. Mae'n bwysig i gadw digon o le rhwng estyniad a'r ffin gyffredin rhyngoch chi a'ch cymdogion er mwyn sicrhau bod cymeriad cyffredinol y stryd neu'r ardal a'r berthynas rhwng yr adeiladau yn cael eu cynnal.

A.6 Er mwyn osgoi'r 'effaith derasu', lle mae tai ar wahân yn tresmasu ar ei gilydd hyd nes y collir yr ymdeimlad o wahaniad gweledol rhwng y tai, dylid cadw pellter o 1m o leiaf rhwng bondo unrhyw estyniad a'r ffin ochr gyfagos. Bydd hyn hefyd yn caniatáu mynediad cyfleus o amgylch yr adeilad ar gyfer gwaith cynnal a chadw, er y bydd angen i hyn fod yn fwy weithiau. Bydd llawer yn dibynnu ar gymeriad cyffredinol yr ardal wrth benderfynu pryd y bydd gorddatblygu yn digwydd.

### ESTYNIADAU CEFN DEULAWR AR DAI AR WAHÂN

A.7 Er y bydd estyniad y tu ôl i dŷ ar wahân yn aml yn llai gweladwy nag estyniad ar yr ochr, mae'n dal yn bwysig bod yr estyniad wedi'i ddylunio'n dda ac yn eilaidd ei raddfa. Mewn achosion pan fydd estyniad cefn yn weladwy yn glir i'r cyhoedd, bydd angen i'r dull dylunio fod yr un mor gadarn â phe bai ar ochr yr eiddo.



Ffig A.4  
Enghraifft o estyniad ochr cyfoes ar dŷ ar wahân

## B: TAI PÂR

- B.1 Nodwedd unigryw tŷ pâr yw'r berthynas rhwng y pâr o adeiladau cyfagos. Mae gan dai pâr rinwedd gymesur, sydd yn aml yn adlewyrchu'r un dyluniad to, deunyddiau a threfniadau agor ffenestri a drysau. Bydd angen i estyniad i dŷ pâr barchu'r cymesuredd hwn a dylech roi sylw penodol i sut y bydd yr estyniad yn effeithio ar y berthynas rhwng y pâr o dai pâr



Ffig B.1 Yn aml mae gan dŷ pâr berthynas gymesur gref iawn a ddylai gael ei chadw

### EGWYDDORION DYLUNIO ALLWEDDOL

#### ESTYNIADAU OCHR DEULAWR AR DAI PÂR

- B.2 Os ydych yn ymestyn tŷ pâr mae'n arbennig o bwysig osgoi creu 'effaith derasu' drwy gau'r bwlch rhwng parau cyfagos o dai pâr. Os caiff y bylchau hyn eu cau'n raddol, yn y pen draw bydd cymeriad y stryd yn cael ei erydu a byddai hyn fel arfer yn groes i ddyluniad a phensaerniaeth y tai a chymeriad cyffredinol y strydlun.




Ffig B.2 Estyniadau ar raddfa ormodol sy'n achosi effaith derasu (uchod) ac estyniadau ochr â chyfrannedd dda sy'n cadw bwlch 1m (isod)



- B.3 Os oes perthynas gyson a pharhaus rhwng yr anheddau a'r bylchau rhwng yr anheddau hyn, bydd yr awdurdod cynllunio yn ceisio cadw pellter lleiaf o 1m rhwng y ffin gyffredin a bondo'r estyniad. Bydd hyn yn lleihau'r effaith ffisegol ar yr eiddo cyfagos ac yn osgoi'r sefyllfa lle mae toeon cyfagos yn cyfarfod neu bron yn cyfarfod mewn ffordd amhendant.

**ESTYNIADAU CEFN DEULAWR AR DAI PÂR**

- B.4 Weithiau mewn sefyllfa tai pâr gall cymdogion gyfuno estyniadau cefn. Gall hyn gynnig manteision i'r ddwy ochr fel osgoi cysgodi gardd cymydog neu adeiladu estyniad gormesol. Os ydych yn dymuno mynd ar drywydd yr opsiwn hwn, dylid cyflwyno un cais ar gyfer yr estyniad cyfunol er mwyn osgoi cysgodi annerbyniol neu estyniadau cefn deulawr gormesol.
- B.5 Bydd angen asesu pob estyniad cefn deulawr yn erbyn y 'Rheol 45 gradd' (gweler adran C). Er mwyn cydymffurfio â'r canllaw hwn dylai estyniad y tu ôl i eiddo gadw o fewn llinell a gymerir ar 45 gradd o ganol ffenestr agosaf unrhyw ystafell drigiadwy, gan gynnwys ceginau, mewn eiddo cyfagos



Ffig B.3 Mae'r rheol 45 gradd yn helpu atal cysgodi

**ESTYNIADAU UNLLAWR AR DAI PÂR**


- B.6 Yn achos estyniad unllawr yn y cefn, ni ddylai estyniad fod yn fwy na 4m ei hyd yn allanol, pan fo'r estyniad wedi'i adeiladu ar ffin a rennir. Mae hyn yn caniatáu adeiladu estyniad o faint rhesymol heb effeithio'n annerbyniol ar amwynder yr eiddo cyfagos. Pan adeiledir estyniad unllawr i ffwrdd o ffin a rennir, efallai y bydd lle i estyniad dyfnach yn amodol ar fodloni'r holl egwyddorion eraill ynghylch dylunio ac amwynder preswyl.
- B.7 Dylai'r estyniad fod yn eilaidd i'r tŷ gwreiddiol o ran ei gyfrannau a dyluniad ei do. Dylai trefniant a chyfran yr agoriadau a'r defnydd o ddeunyddiau i gyd gydweddu â'r prif dŷ.



Ffig B.4 Mae'r estyniad unllawr hwn yn llwyddo i ymgorffori deunyddiau, goleddf to a chyfrannedd ffenestri'r tŷ gwreiddiol

## C:TAI TERAS

- C.1 Gall tai teras fod ar ffurf eiddo teras traddodiadol neu dŷ teras mwy modern, y mae'r ail yn llai ar y cyfan, gyda chynllun mewnol gwahanol a dim adain gefn. Er bod llawer o agweddau cyffredin i'w hystyried wrth baratoi cynigion i ymestyn neu newid y mathau hyn o dai, ceir egwyddorion dylunio da sy'n berthnasol i bob math o dŷ. Mae'r rhan hon o'r canllaw yn disgrifio'r egwyddorion hynny.



Ffig C.1 Cynllun o derasau traddodiadol (A) gydag adenydd cefn sy'n gwthio allan a therasau modern gyda 'chefnau gwastad' (B)

### EGWYDDORION DYLUNIO ALLWEDDOL

#### YSTYRIAETHAU AR GYFER EIDDO TERAS MODERN A THRADDODIADOL

- C.2 Dylai pob tŷ gadw isafswm o 25 metr sgwâr o ofod amwynder preifat ar ôl cael ei ymestyn er mwyn darparu ar gyfer sychwyr troi, storio sbwriel ac ailgylchu yn

ogystal â dulliau rheoli gwastraff cynaliadwy eraill a byrddau a chadeiriau etc. Mae hyn er mwyn sicrhau hyfywedd hirdymor yr annedd i'w feddiannu yn y dyfodol.

- C.3 Dylid cynllunio estyniadau i eiddo teras gyda tho ar oledf neu do talcen addas (i gyd-fynd â'r prif dŷ) yn hytrach na tho gwastad. Wrth adeiladu estyniadau unllawr mae'n werth ystyried estyniadau llawr cyntaf posib yn y dyfodol wrth ddylunio sylfeini a lleoli waliau cynnal pwysau.
- C.4 Pan fydd newid yn y lefelau rhwng eiddo, bydd y tŷ ar dir uwch yn cael mwy o effaith ar ei gymydog, felly bydd angen ystyried uchder a safle'r estyniad yn ofalus.

#### ESTYNIADAU CEFN AR DAI TERAS TRADDODIADOL

- C.5 Mae estyniadau y tu ôl i anheddau teras traddodiadol fel arfer yn sensitif oherwydd lleoliad agos y tai â'i gilydd. Mae'r prif bethau i'w hystyried yn cynnwys ffurf/siâp gwreiddiol y tai a'u toeon, presenoldeb estyniadau ac adeiladau allanol eraill sy'n bodoli eisoes, a lleoliad ffenestri presennol ac arfaethedig. Y ffactorau hyn fydd prif sail yr ystyriaeth fanwl o dderbynioldeb y cynllun.
- C.6 Dyfnder allanol o 4m yw'r man cychwyn nodweddiadol mewn ceisiadau cynllunio ar gyfer estyniadau cefn deulawr, a hyd at 7.3m ar gyfer estyniadau unllawr. Pan fydd yr eiddo cyfagos ar y ddwy ochr eisoes wedi'u hymestyn y tu hwnt i'r pellteroedd hyn, gellir caniatáu estyniad i'r un hyd.



C.7 Er bod y pellteroedd hyn yn darparu man cychwyn ar gyfer estyniadau cefn i dai teras, caiff pob cynnig o'r math hwn ei asesu yn ôl ei deilyngdod unigol gan ystyried y ffactorau a nodir ym mharagraff C.2 yn ogystal â chael eu profi yn erbyn y profion 45 gradd a 25 gradd a nodir yn adran 3.0 y ddogfen hon. Os bydd estyniad yn mynd yn sylweddol groes i'r naill neu'r llall o'r profion hyn, yna efallai y bydd angen ei leihau er mwyn osgoi effaith negyddol annerbyniol ar gymdogion.



Ffig C.2 Tai rhes traddodiadol (chwith) a thai rhes modern (dde)

### ESTYNIADAU CEFN AR DAI TERAS MODERN

C.8 Mae trefniad ystafelloedd mewn tai teras modern a thai tref yn ogystal â ffasadau cefn gwastad y rhain yn debyg ar y cyfan i eiddo pâr ac mae'r arweiniad ynghylch yr adeiladau hynny'n berthnasol yn gyffredinol i derasau modern hefyd. Gan hynny, cyfeiriwch at a chymhwyswch yr arweiniad a ddisgrifir ym mharagraffau B.4-B.7 ar gyfer estyniadau i eiddo teras modern.

C.9 Fel gydag estyniadau tai pâr bydd y prawf 45 gradd yn berthnasol i bob estyniad ar gyfer tai teras (gweler Adran 3.0).

### ESTYNIADAU OCHR I DAI PEN TERAS

C.10 Os yw tŷ yn ffurfio diwedd rhes o dai teras, mae'n bosib y bydd modd adeiladu estyniad ochr. Yn yr achosion hyn bydd yn bwysig cadw cymeriad a golwg yr eiddo teras a chymeriad y strydlun yn ei gyfanrwydd.

C.11 Ar estyniadau ochr, dylai dyluniad y to, trefniad a chyfrannedd yr agoriadau a'r defnydd o ddeunyddiau i gyd gydweddu â'r tŷ presennol.

C.12 Rhoddir ystyriaeth ofalus i weld a ellir cynnwys drws garej o fewn estyniad ochr i dŷ pen teras gan y bydd hyn yn aml yn tarfu ar batrwm y ffenestri a'r drysau sydd i'w gweld yn y stryd.

## Ch: BYNGALOS

Ch.1 Mae byngalos yn cynnig llety hygyrch i amrywiaeth o ddeiliaid. Fodd bynnag, pan fydd angen lle ychwanegol, dyhëir yn aml am ddefnyddio gofod y to i ddarparu hyn. Yn achos ymestyn chalet preswyl bydd mwy o gyfyngiadau o ganlyniad i gymeriad a graddfa'r fath anheddau a bydd unrhyw gynigion o'r fath yn cael eu hasesu yn unol â chyd-destun a chymeriad penodol yr adeilad lletyol a'r ardal..



Ffig Ch.1 Mae byngalos yn cynnig llety hygyrch. Mae'n rhaid ystyried unrhyw newidiadau i doeon yn ofalus

Ch.2 Yn aml, bydd cynigion i gyflawni hyn ar ffurf ffenestri neu estyniadau dormer sy'n caniatáu i'r rhan fwyaf o'r llety ychwanegol gael ei gynnwys ym mhrif do presennol yr annedd tra'n darparu ar gyfer lle pen ychwanegol. Ceir gwybodaeth fanylach am ffenestri ac estyniadau dormer yn Adran Dd y ddogfen hon a dylech gyfeirio at hyn ar gyfer unrhyw gynigion sy'n ymwneud â dull o'r fath.

Ch.3 Er mwyn darparu mwy o ofod byw yn eich byngalo efallai yr hoffech gynnig gwaith mwy radical i'r to i godi'r bondo neu gynyddu goleddf y to ac uchder y to er mwyn cael mwy o le pen yn eich llofft. Fodd bynnag, mae hyn yn aml yn broblemus ac os yw'r eiddo wedi'i leoli mewn stryd lle ceir dyluniad, siâp a/neu uchder toeon cyson, ni fyddai'n dderbyniol yn gyffredinol.

Ch.4 Felly, mae'n bwysig ystyried yr effaith bosib ar gymeriad yr eiddo presennol ac ar y strydlun yn gyffredinol. Dylid cymhwyso'r egwyddorion dylunio a ganlyn..




Ffig Ch.2 Mewn strydoedd gyda byngalos o uchder to a dyluniad cyson, bydd mwy o gyfyngiadau ar newidiadau i doeon

Ch.5 Parchwch gymeriad y strydlun. Ystyried uchder yr adeiladau cyfagos gan y bydd hyn yn ystyriaeth allweddol pan fydd yr awdurdod cynllunio lleol yn asesu'r cynnig. Os mai byngalos yw'r eiddo pennaf yn y stryd rydych yn byw ynddi, mae'n annhebygol y byddwch yn gallu codi uchder to eich tŷ i gael llawr ychwanegol. Fodd bynnag, os oes amrywiaeth o uchderau crib neu lawr, mae'n bosib y bydd lle i ymestyn i fyny. Dylech ystyried lefel yr amrywiad neu gysondeb mewn uchder toeon yn eich stryd cyn datblygu eich cynlluniau. Pan fyddwch yn dymuno codi uchder eich byngalo fe'ch anogir i gyflwyno lluniad gweddllun o'r strydlun gyda'ch cynigion a bydd hyn yn arbennig o ddefnyddiol lle mae amrywiaeth o uchderau to yn eich stryd. Gan hynny, dylai'r lluniad hwn ddangos nifer o'r anheddau yn y rhes o dai lle mae eich byngalo er mwyn helpu i asesu addasrwydd eich cynigion.

Ch.6 Meddyliwch am eich cymdogion ac a fyddai eich estyniad to yn ormesol i unrhyw eiddo cyfagos. Bydd hyn yn arbennig o bwysig lle mae'r bondo'n cael ei godi i ddarparu ar gyfer llawr ychwanegol.

Ch.7 Bydd angen i chi sicrhau hefyd na fydd eich estyniad arfaethedig i'r to yn edrych dros unrhyw gymdogion nac yn cynyddu'r effaith gysgodi arnynt. Fel gydag estyniadau cyffredinol i dai, bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn ceisio diogelu amwynder preswyl a phreifatrwydd eiddo cyfagos. Bydd grwpiau o fyngalos yn aml yn elwa o lefelau uwch o breifatrwydd na thai arferol ac ni ddylai estyniadau i doeon gyfaddawdu hwn yn annerbyniol trwy greu effaith edrych drosodd nad oedd yn bodoli o'r blaen.

Ch.8 Ystyriaeth allweddol ar gyfer unrhyw gynnig i ymestyn byngalo i fyny yw uchder cribau eich cymdogion. Os yw'r eiddo cyfagos o uchder cyfartal neu debyg, dylai'r cynigion gyfateb i'r rhain. Fodd bynnag, pan fydd amrywiaeth o uchderau annedd dylech dynnu llinell o grib un eiddo cyfagos i'r llall. Er mwyn cyrraedd uchder addas ar gyfer y cynigion ac isafu'r effaith ar y cymdogion ni ddylai'r estyniad geisio torri uwchben y llinell hon.



Ffig Ch.3 Mae estyniad sy'n eistedd islaw'r llinell rhwng cribau'r eiddo cyfagos yn fwy tebygol o fod yn dderbyniol yn amodol ar ystyriaethau eraill

- Ch.9 Dylech hefyd edrych ar gymeriad eich eiddo eich hun – bydd angen i unrhyw estyniad i'r to barchu cymeriad, cyfrannau a graddfa'r tŷ presennol. Mae gan newidiadau i siâp, uchder a/neu oleddf y to y potensial i anghytbwysu dyluniad yr annedd yn ei chyfanrwydd. Yn benodol, bydd angen i chi sicrhau bod deunyddiau'n cyfateb i rai eich tŷ presennol a bod unrhyw ffenestri ychwanegol yn gweddu i batrwm a dyluniad presennol y ffenestri.
- Ch.10 Mewn rhai achosion lle ceir cymysgedd o gymeriad a mathau o dai yn y stryd efallai y bydd lle i wella golwg eich byngalo presennol trwy gyflawni ymddangosiad mwy cyfoes i'r cynigion fel rhan o set ehangach o adnewyddiadau i'r eiddo cyfan.
- Ch.11 Yn aml, gall dulliau dylunio cyfoes ganiatáu defnyddio deunyddiau cladin neu rendro allanol newydd, ffenestri newydd yn ogystal â chynnwys nodweddion ychwanegol fel balconïau, fel rhan o waith adnewyddu cyffredinol i'r byngalo presennol. Fodd bynnag, bydd pob agwedd ar y dyluniad, gan gynnwys nodweddion newydd, yn cael ei hasesu fesul achos gan ystyried effaith y fath nodweddion ar gymdogion, yn ogystal ag addasrwydd y rhain fel rhan o ddull dylunio integredig.
- Ch.12 Dylai unrhyw addasiadau to neu addasiadau eraill i fyngalos weddu i'r gofynion cyffredinol o ran creu lleoedd yn adran 3.0 hefyd. Dylai cynigion sy'n cynnwys dormerau hefyd ddilyn y canllawiau a nodir yn adran Dd y canllaw hwn.



Ffig Ch.4 Enghreifftiau o adnewyddiadau cyfoes i fyngalos. Bydd derbynoldeb cyflwyno balconïau'n dibynnu ar yr effaith o edrych dros anheddau cyfagos yn ogystal â natur y tai presennol hyn (h.y. unllawr neu ddeulawr)



## D: RHANDAI A LLETY ATEGOL

- D.1 Gall llety preswyl ategol, sydd fel arfer ar ffurf rhandir i lety byw sylfaenol, gyflawni swyddogaeth bwysig, megis galluogi perthynas i fyw gyda'i deulu yn yr un annedd ond gyda rhywfaint o annibyniaeth. Mae'n rhaid i unrhyw gynigion ar gyfer llety atodol fodloni gofynion Polisi H8 CDLI Abertawe.
- D.2 Felly, mae'n rhaid i lety o'r fath fod yn atodol i'r brif annedd o ran dyluniad, maint a swyddogaeth, bod o fewn cwrtil y brif annedd, a **pheidio â ffurfio annedd hunangynhwysol ar wahân**. Bydd unrhyw gynllun sy'n methu â dangos ei fod wedi'i gysylltu'n ymarferol â'r prif annedd, neu ddibynol arni, yn cael ei asesu fel cynnig ar gyfer annedd newydd.
- D.3 **Gan hynny, ni ddylai llety preswyl ategol feddu ar yr ystod lawn o gyfleusterau na chael ei ddylunio yn y fath fodd fel y byddai modd ei feddiannu fel annedd annibynol.**
- D.4 Dylech ddarparu manylion pwy fydd yn ei ddefnyddio, gan gynnwys eu perthynas a/neu eu dibyniaeth gyda phrif ddeiliaid yr annedd, a manylion perchnogaeth ar y rhandir. Mae'n rhaid i chi fedru dangos hefyd ei fod wedi'i ddylunio i adlewyrchu anghenion hanfodol y preswilydd yn llym. Gallai hyn gynnwys un ystafell wely en-suite ac ardal fyw gyda cheginette (gydag ystod gyfyngedig o gyfleusterau/offer) yn achos un person dibynol.
- D.5 Mae'n rhaid i randai preswyl, yn rhinwedd eu dyluniad, graddfa, uchder, ffurf, masio, deunyddiau a chynllun, fod yn eilaidd i, a pharchu a gwella, cymeriad y brif annedd bresennol.
- D.6 Mae'n rhaid i randai fod o fewn yr un cwrtil preswyl â'r brif annedd a bod yn rhan o'r un uned gynllunio sengl gan rannu amwynderau gan gynnwys mynediad i gerbydau, parcio a gardd. Ni ddylid pennu ffiniau nac isrannu ardaloedd gardd neu barcio.
- D.7 Fel arfer, dim ond ar ffurf estyniad i'r brif annedd y caniateir rhandai. Mae'n rhaid i'r fath randai fod wedi'u hatodi'n ffisegol a'u dylunio fel estyniad i'r brif annedd gyda drws/drysau cyswllt mewnol a dim mynedfa allanol ar wahân ar y priflun.
- D.8 Yn achos trawsnewid adeiladau allanol presennol o fewn prif gwrtil yr annedd sy'n elwa o hawliau datblygu a ganiateir, mae'n bosib na fydd ond yn dderbyniol trawsnewid rhan o'r adeilad er mwyn sicrhau bod y trawsnewidiad yn darparu cyfleusterau cyfyngedig yn unig sy'n gymesur â rhandy sy'n rhannol ddibynol ar y brif annedd.
- D.9 Ni ddylai rhandy ddisodli defnydd sy'n bodoli eisoes a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i codi adeilad arall er mwyn i'r defnydd hwnnw barhau.

- D.10 Dim ond pan ddangosir yn foddhaol nad yw estyniad neu drawsnewidiad yn briodol neu'n bosib y caiff rhandai ar wahân wedi'u hadeiladu o'r newydd eu hystyried, ac ni chânt eu caniatáu mewn lleoliadau y tu hwnt i derfynau diffiniedig yr anheddiad.
- D.11 O ystyried pwysigrwydd asesu'r berthynas rhwng unrhyw randy arfaethedig a'r prif dŷ y mae'n dibynnu arno, dylech gyflwyno cynlluniau a gweddluniau sy'n dangos y datblygiad arfaethedig yng nghyd-destun y safle cyfan.
- D.12 Bydd cynigion a gyflwynir ar gyfer llety preswyl atodol yn cael eu hasesu fesul achos gan ystyried gwybodaeth berthnasol a gyflwynwyd sy'n cyfiawnhau'r angen am lety o'r fath. Pan ystyrir bod cynigion yn dderbyniol, bydd yr Awdurdod Cynllunio mewn llawer o achosion yn gosod amodau penodol a/neu'n ei gwneud yn ofynnol i gytundeb cyfreithiol Adran 106 gyfyngu ar y defnydd o'r llety at ei ddefnydd ategol arfaethedig. Bydd unrhyw lety y gwelir ei fod yn groes i'r amodau hyn yn destun camau gorfodi neu gyfreithiol.


## Dd: DORMERAU AC ESTYNIADAU TO

Dd.1 Mae'r rhan hon o'r canllaw yn berthnasol i gynigion sy'n ymwneud ag estyniadau ac addasiadau i do. Ni waeth p'un a ydych yn cynnig dormer neu unrhyw fath arall o estyniad i'r to, mae rhai egwyddorion dylunio y mae angen eu dilyn.

### DORMERAU AC ESTYNIADAU TO DORMER

Dd.2 Mae maint, siâp a golwg to tŷ yn elfen allweddol o'i ddyluniad cyffredinol ac yn cyfrannu llawer at ei gymeriad. Gan hynny, mae angen ystyried newidiadau i'ch to yn ofalus er mwyn sicrhau na therfir ar ei gymeriad.

Dd.3 Gall dormerau naill ai fod ar ffurf estyniad to dormer neu ffenestr dormer. Y gwahaniaeth allweddol yw bod estyniad to dormer yn tueddu i fod â mwy o gyfaint, gan gynyddu'r lle pen yn yr ystafell a thrwy hynny greu llety mewnol ychwanegol o fewn gofod y to, yn ychwanegol at ddarparu ffenestr to.



Ffig Dd.1  
Mae ffenestri dormer yn tueddu i fod mor llydan â'r ffenestr ei hun tra y bydd gan estyniad dormer gyfaint ehangach gan greu lle ychwanegol yn y to

Dd.4 Mae ffenestr dormer fel arfer yn adeiledd llai sydd ond mor eang â'r ffenestr ei hun ac fel arfer mae'n sefyll yn fwy cyfforddus ym mhlân y to, naill ai ar ei phen ei hun neu fel rhan o grŵp o dormerau. Hanner dormerau yw'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn rhannol o fewn gofod y to ac yn rhannol o fewn prif gorff y tŷ.

### EGWYDDORION DYLUNIO ALLWEDDOL

Dd.5 Dylai unrhyw estyniadau to dormer arfaethedig neu ffenestri dormer adlewyrchu dyluniad dormerau sy'n nodwedd wreiddiol o'r tŷ gwreiddiol neu adeiladau eraill yn eich ardal neu stryd.



Ffig Dd.2 Mae'r ffenestri dormer gwreiddiol hyn yn ymateb i'r cymeriad cymesur a phatrwm yr agoriadau heb ddominyddu plân y to

Dd.6 Ni ddylai estyniad to dormer gyfaddawdu ffurf y to na dominyddu plân y to gwreiddiol. Er mwyn cyflawni hyn, dylid ei osod i fyny o'r bondo, i lawr o'r crib a heb gymryd gormod o led y to.

Dd.7 Fel rheol gyffredinol, nid yw estyniadau dormer yn cael eu hannog ar flaen eich tŷ, oni bai eu bod yn nodwedd leol.

Dd.8 Anaml y bydd ffenestri dormer ac estyniadau dormer to gwastad yn adlewyrchu cymeriad tai traddodiadol a dylid eu hosgoi oni bai bod y rhain yn rhan o ddull dylunio cyfoes o ansawdd uchel.

Dd.9 Dull gwell, yn enwedig yn achos tai a dyluniadau traddodiadol, yw darparu talcen neu do talcen ar ffenestr dormer sy'n cyfateb i oleddf a siâp y prif do. Bydd hyn yn caniatáu'r lle pen ychwanegol yn fewnol. Yn achos estyniadau dormer dylid darparu to 'catslide' i'r rhain er mwyn darparu proffil to llai ymwithiol ac ategu'r prif do yn well.



Ffig Dd.3 Ffenest to talcen (ar y chwith) ac estyniad dormer 'Catslide' (ar y dde)

Dd.10 Ar weddluniau gweladwy, dylid lleoli ffenestri dormer a ffenestri yn yr estyniad dormer i gyd-fynd â safle, cyfran a graddfa'r ffenestri presennol er mwyn cadw cymesuredd y gweddlyn.



Ffig Dd.4 Dylai dormerau adlewyrchu cymesuredd a maint ffenestri eraill y tŷ. Nid yw dormerau blaen yn cael eu hannog os nad ydynt yn nodwedd o'r stryd

Dd.11 Ar dai â thoeon talcen bydd estyniad dormer i ochr yr eiddo yn fwy gweladwy yn y strydlyn nag os yw wedi'i leoli yn y cefn a bydd angen ei ddylunio'n ofalus.

Dd.12 Mewn achosion o'r fath bydd cyfyngu ar faint yr estyniad dormer a'i osod o fewn plân y to islaw'r brif linell grib ac i fyny o'r bondo yn helpu i liniaru ei effaith ar gymeriad y tŷ. Pan fydd prif do'r tŷ'n do talcen, dylai'r dormer adlewyrchu'r dyluniad to talcen.





Ffig Dd.5 Mae'r dormer ar y dde yn briodol o ddarostyngedig o fewn plân y to ac mae'r dyluniad to talcen slip yn adlewyrchu to talcen slip y tŷ gwreiddiol

Dd.13 Hyd yn oed pan nad yw plân to'n hawdd ei weld, ni fyddai estyniad to rhy fawr yn cael ei ystyried yn dderbyniol os yw'n dominyddu'r plân to gwreiddiol.



Ffig Dd.6 Gall estyniad dormer mawr a ddylunnir yn wael ddominyddu tŷ a'r strydlun

Dd.14 Ar oleddfau to mwy, efallai y byddai'n fwy priodol gosod dau ddormer llai yn hytrach na dormer ehangach mwy.

Dd.15 Dylai fod gan bob ffenestr ddormer ffrâm a bochau tenau, a dylent gysylltu'n dda â safle a maint y ffenestri ar y lloriau isod.

Dd.16 Yn achos y rhan fwyaf o ddormerau ac yn enwedig y rhai ar anheddau hŷn, mwy traddodiadol, dylid cymryd gofal ychwanegol i sicrhau bod deunyddiau'r ffenestr ddormer neu'r estyniad dormer yn cyfateb i gladin a/neu ddeunyddiau to'r prif dŷ. Ni fydd dormerau uPVC gwyn fel arfer yn cael eu hystyried yn dderbyniol.



Ffig Dd.7 Dormerau bach sy'n cysylltu'n dda â'r ffenestri islaw (ar y chwith) a dormer cyfoes â ddeunyddiau sy'n cyfateb i'r to (ar y dde)

Dd.17 Mewn rhai achosion, mae'n bosib y bydd cwmpas i ddarparu dormerau mwy cyfoes. Yn yr achosion hyn dylai'r cymeriad a'r deunyddiau arfaethedig gyfateb neu ategu'r annedd letyol er mwyn darparu ymddangosiad cydlynol cyffredinol i'r annedd.

Dd.18 Mewn rhai achosion gall ffenestri to fod yn fwy priodol fel ffenestri eilaidd (yn ychwanegol at ddormerau), gan fod y rhain yn llai ymwithiol yn weledol a hefyd yn lleihau problemau o ran edrych drosodd. Fel arfer, nid oes angen caniatâd cynllunio ar eu cyfer os ydynt yn gwthio allan 150mm neu lai o blân y to, oni bai eu bod wedi'u lleoli o fewn AoHNE Gŵyr neu Ardal Gadwraeth, lle mae angen caniatâd cynllunio ar gyfer pob ffenestr to.

Dd.19 Noder y gallai newidiadau i doeon ei gwneud yn ofynnol cynnal arolwg ystlumod. Mae'n rhaid i'r fath arolygon gael eu cynnal gan unigolyn cymwysedig a thrwyddedig a bydd yr awdurdod cynllunio yn eich cynggori pan ystyrir bod angen y fath arolwg. Ceir rhagor o wybodaeth yn y CCA Bioamrywiaeth.



Ffig Dd.8 Ffenestri to ar oledf blaen y to

## E: CYNLLUNIAU MWYHAU

- E.1 Mae rhai datblygiadau preswyl o'r 20fed ganrif (grwpiau o anheddau a thai unigol) yn Abertawe wedi gadael etifeddiaeth o adeiladau nad oes ganddynt gysylltiad cryf â'u cyd-destun ac a allai, o'u gweld ar wahân i'w lleoliad, fod mewn unrhyw ystâd faestrefol o'r un oedran.
- E.2 Gan hynny, mae'n bwysig gwerthfawrogi'r rôl y gall gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio cyffredinol o'i gyfuno â newidiadau priodol ar raddfa fach (e.e. ffenestri/drysau newydd, cladin ac ati) a/neu estyniad ei chwarae wrth wella'r adeiladau hyn sydd o ansawdd gwael neu fel arall yn 'ddinod'. Felly, mae cynlluniau gwella priodol yn rhoi cyfle i 'adnewyddu' y tai hyn a chodi ansawdd dylunio'r ardal drwy ddarparu cymeriad mwy lleol gwahanol a phriodol.



Ffig E.1 Cynllun mwyhau gan gynnwys estyniad ochr a rendro a ffenestri newydd— ond collir yr ardd

- E.3 Anogir ymgeiswyr i ymchwilio i gynlluniau gwella fel cyfle i wella ansawdd yr amgylchedd adeiledig a mannau naturiol/gwyrdd o amgylch y cartref. Bydd dull cyd-destunol priodol sydd wedi'i ystyried yn dda yn gwella ansawdd ymddangosiad a chymeriad gweledol, yn creu 'ymdeimlad o le' ac yn adlewyrchu rhinweddau gorau'r cyd-destun lleol o ran graddfa, ffurfiau a deunyddiau lleol. Dylai cynlluniau o'r fath hefyd gynnig manteision amgylcheddol fel bioamrywiaeth a gwelliannau i seilwaith gwyrdd (gweler Adran 3.0).
- E.4 Wrth symud tuag at ffyrdd o fyw ynni is, byw'n gynaliadwy a deunyddiau cynaliadwy, gall hyn newid y ffordd y mae cartrefi sydd wedi'u hailfodelu yn edrych; dyma gyfle i ddylunio'n gyfoes mewn lleoliadau cymdogaeth gan ddefnyddio deunyddiau modern a phensaernïaeth flaengar.

### CYD-DESTUN

- E.5 Cyn ystyried ymgymryd â chynllun gwella i'ch tŷ dylech benderfynu pa fath o gymeriad/dull sydd fwyaf addas ar gyfer eich tŷ yn ogystal â'r cyd-destun ehangach.
- E.6 Dylech nodi, os oes gennych dŷ teras neu dŷ pâr, y mae'n annhebygol y bydd cynigion i newid cymeriad hyn yn sylweddol yn cael eu cefnogi oherwydd erydiad deilliannol cymeriad y grŵp adeiladu cyffredinol. Yn yr un modd, os yw eich tŷ mewn ardal gadwraeth neu mewn stryd neu ardal sydd â chymeriad cadarnhaol cryf/unffurf yna mae'n annhebygol y bydd cynigion i newid cymeriad hyn yn sylweddol yn cael eu cefnogi ychwaith. Er hynny, bydd cynigion sy'n ceisio cryfhau/gwella cymeriad sefydledig y grwpiau adeiladu a'r ardaloedd hyn yn cael eu cefnogi.

E.7 Os yw eich tŷ yn adeilad rhestredig, mae gwaith ar hyn yn cael ei reoli'n fwy llym gan ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cymeriad gael ei gadw. Mae angen caniatâd adeilad rhestredig ar gyfer unrhyw newidiadau yn fewnol ac yn allanol cyn dechrau gweithio.

### **DULL TRADDODIADOL**

E.8 Yn gyffredinol, ymgymryd â dyluniad traddodiadol yw'r dull symlaf i'w ddilyn gan y byddai hyn fel arfer yn golygu adfer cymeriad gwreiddiol eich tŷ a sicrhau bod unrhyw estyniadau yn briodol i hyn. Bydd dull traddodiadol llwyddiannus yn gofyn am ddadansoddiad cyd-destunol trylwyr o'r tŷ a'r ardal ehangach a bydd fel arfer yn cynnwys un neu fwy o'r canlynol:

- Cynnal ffurf (siâp) gyffredinol tŷ neu do neu ddarparu ar gyfer ffurf draddodiadol fwy priodol lle mae hyn wedi'i newid yn andwyol o'r blaen.
- Darparu patrwm cytbwys o ffenestri a drysau o faint priodol (fel a welir mewn mathau o dai o'r fath) neu adfer/gwella'r patrwm lle mae hyn wedi'i newid yn andwyol o'r blaen.
- Sicrhau bod unrhyw estyniad ar ffurf briodol draddodiadol yn ogystal ag yn gydweddol o ran cymeriad ac yn eilaidd i'r brif annedd.
- Sicrhau bod y dull o ymdrin â deunyddiau yn briodol i gymeriad gwreiddiol y tŷ a'r ardal ehangach yn ogystal â bod o ansawdd gweledol sy'n ddigon uchel yn gyffredinol.

E.9 Yn ychwanegol at wella effeithlonrwydd thermol, gellir defnyddio rendro allanol hefyd fel ffordd o adfer nodweddion gwreiddiol coll ar eich tŷ i wella ei gymeriad. Y rheswm am hyn yw, cyn i'r haen rendro gael ei gosod, gellir torri/siapiro'r paneli inswleiddio yn hawdd er mwyn darparu copi o nodweddion a manylion traddodiadol fel plinthau, pilastrau, fframiau ffenestri etc. Gan y bydd rendro allanol yn cynyddu trwch waliau eich tŷ, mae'n debygol i hyn olygu y bydd y rhain yn ymestyn y tu hwnt i bondo ac ymylon talcen presennol eich to. Felly, bydd gofyn i chi adfer perthynas flaenorol y waliau â'r to, fel arfer drwy ychwanegu rhes(i) newydd o lechi, ffsgau, estyll tywydd ac unrhyw fanylion eraill sy'n bodoli eisoes.

E.10 Gan hynny, dylech drafod y pwyntiau hyn gyda'ch contractwr cyn dechrau ar unrhyw waith i sicrhau na fydd unrhyw broblemau'n codi yn ystod neu ar ôl cwblhau'r gwaith hwn, neu mae'n bosib y bydd gofyn i chi gywiro'r rhain yn nes ymlaen. Argymhellir felly i chi gyflwyno lluniadau gyda'ch cais cynllunio sy'n dangos sut yr aethpwyd i'r afael â'r dull o ymdrin â'r manylion hyn.



Ffig E.2 Cynllun gwella sy'n cynnwys deunyddiau toi, ffenestri a rendro newydd

## DULL CYFOES

E.11 Bydd ymgymryd â dyluniad cyfoes yn rhoi mwy o ryddid i chi newid ffurf ac arddull eich tŷ, ond nid yw hyn yn cyfiawnhau dull 'gwneud beth bynnag'. Er mwyn i ddull dylunio cyfoes gael ei ystyried yn dderbyniol, mae angen gwneud hyn mewn modd cyfannol, lle mae'r holl rannau'n cyflwyno cymeriad ac ymddangosiad cydlynol i'r tŷ a hefyd yn gwella cymeriad yr ardal y mae wedi'i leoli ynddi.



Ffig E.3 Cynllun mwyhau syml gyda deunyddiau a ffenestri newydd

E.12 Fel arfer, gellir cyflawni dull cyfoes sy'n gweithio gyda'r adeiledd presennol tra'n ategu'r cyd-destun lleol hefyd drwy ddilyn ymagwedd '**arddull frodorol gyfoes**' at ddylunio.

E.13 Felly, dylid ystyried y pwyntiau a ganlyn wrth ymgymryd ag ymagwedd fwy cyfoes at fwyhau eich tŷ:

- Mae'n rhaid i'r fath ymagwedd sicrhau bod y cynllun wedi'i gwblhau yn cyflwyno cymeriad ac ymddangosiad cyfoes newydd llwyddiannus i'r annedd h.y. nid yw'n gyfiawnhad dros ddarparu ffenestri

newydd mawr neu fân newidiadau eraill i ffurf tŷ traddodiadol sy'n bodoli eisoes heb fawr o newidiadau eraill i'w gymeriad.

- Mae symlrwydd geometrig i ddyluniad cyfoes da. Mae hyn yn golygu ei fod fel arfer yn cyflwyno siapiau syml gyda llinellau llyfn a'i fod yn rhydd rhag manylion allanol ffyslyd.
- Oherwydd y symlrwydd geometrig nodweddiadol, mae dulliau dylunio cyfoes yn aml yn ymgorffori lefel o 'gwthio allan a chilannu' ar eu gwahanol rannau sy'n creu rhannau sy'n unigryw ac rhesymegol yn weledol.
- Rhan o lwyddiant cynlluniau cyfoes da yw'r gofal a gymerir gyda deunyddiau a ddylai gyfeirio at elfennau a lliwiau yn yr ardal yn ogystal â bod o ansawdd da.
- Er bod mwy o gwmpas yn aml gyda deunyddiau ar gynlluniau cyfoes dylech osgoi drysu cymeriad y cynllun drwy ddewis gormod. Cynghorir palet llai/symlach o ddeunyddiau sy'n helpu i atgyfnerthu cymeriad syml ond cryf.
- Dylid rhoi ystyriaeth i ddefnyddio'r gwahanol ddeunyddiau i dorri ardaloedd mawr, unffurf neu wahanol elfennau o'r dyluniad i fyny'n weledol i rannau rhesymegol unigryw. Gall hyn helpu i leihau'r màs yn weledol ac ychwanegu diddordeb at ymddangosiad eich tŷ.
- Mae manylion y cynllun (e.e. fframiau ffenestri a drysau, manylion y to ac ati) yn agwedd bwysig ar ddylunio cyfoes. Dylai'r rhain fel arfer gyflwyno ymagwedd denau a minimalaidd er mwyn cyflwyno cymeriad twt a ddiffinnir gan linellau glân/taclus.

- Fel arfer, mae dulliau dylunio cyfoes yn cyflwyno cymhareb solet-i-ofod (wal i ffenestr) sy'n darparu ar gyfer ffenestri/ardaloedd gwydr mwy. Yn ogystal â hyn, mae mwy o gyfle i newid maint a dosbarthiad ffenestri yn y gweddoluniau. Fodd bynnag, dylai'r rhain gyfrannu o hyd at gydbwysedd gweledol cyffredinol y cynllun. Os ydych yn defnyddio ffenestri mawr, dylid ystyried mater llygredd golau yn unol â Pholisi CDLI RP 3. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i gynlluniau yn ardal AoHNE Gŵyr.

E.14 Oherwydd yr amrywiaeth eang o ffyrdd y gellir mynd ati gyda chynlluniau cyfoes, dylid cefnogi'r rhain gyda datganiad dylunio. Dylai hyn nodi prif gyd-destun/trosgynnol yr ardal uniongyrchol ac ehangach (e.e. graddfa, ffurfiau (siapiau tŷ a tho), deunyddiau etc.) ac amlygu pa rai o'r nodweddion hyn a nodwyd y mae'r datblygiad yn cyfeirio atynt yn ogystal â'r weledigaeth/syniad cyffredinol ar gyfer y cynigion, yn enwedig gan nodi'r rhesymau dros unrhyw ddewisiadau dylunio sy'n deillio o gyd-destun y cymeriad lleol..

E.15 Gallai cynigion cyfoes nad ydynt yn cael eu cefnogi gan ddatganiad dylunio byr priodol gymryd mwy o amser i'w prosesu gan fod yr wybodaeth hon yn debygol o gael ei cheisio yn ystod y broses benderfynu. At hynny, pan na esbonnir penderfyniadau dylunio trwy wybodaeth ategol neu drwy gyfarfod, gellir colli gwybodaeth gyfiawnhad allweddol yn y broses benderfynu a allai arwain at wrthod y cynigion, rhywbeth a allai fod wedi cael ei drafod ynghynt.

E.16 Os yw eich cynigion dylunio cyfoes yn cynnwys cyfres o elfennau sy'n gwthio allan ar wahanol ddyfnderoedd, efallai y byddai'n fuddiol cyflwyno model masio / 3D syml o hyn i helpu i ddangos y ffurflen arfaethedig, gan y gall hyn fod yn anodd ei ddarllen ar luniadau gwastad.



Ffig E.4 Cynllun mwyhau gan ddefnyddio estyniadau a rendro cyfoes

E.17 O ystyried y wybodaeth a'r profiad technegol sydd eu hangen i gyflwyno cynllun mwyhau cyfoes llwyddiannus, argymhellir eich bod yn ceisio gwasanaethau pensaer cymwysedig (ardystiad ARB neu RIBA).

E.18 Mae'r Bwrdd Cofrestru Penseiri (ARB) yn darparu'r rhestr o benseiri sydd wedi'u cofrestru'n gyfreithiol ac yn caniatáu nifer o ddulliau chwilio, gan gynnwys yn ôl enw personol, enw busnes, gwlad, rhanbarth ac ardal dinas. Gellir dod o hyd i'r rhestr yn: <http://architects-register.org.uk/>

E.19 Mae Sefydliad Brenhinol y Penseiri (RIBA) yn darparu offeryn holiadur ar-lein defnyddiol lle gallwch ddarparu manylion yr hyn yr ydych ei eisiau yn ogystal â chyllideb, a byddwch yn derbyn ymatebion gan fusnesau pensaer cofrestredig sydd â diddordeb trwy RIBA (cedwir eich manylion cyswllt yn gyfrinachol nes eich bod yn dymuno cysylltu â'r rhain). Os oes gennych ddiddordeb mewn defnyddio'r offeryn hwn gweler:

[www.architecture.com/find-an-architect/](http://www.architecture.com/find-an-architect/)



Ffig E.5  
Cynllun mwyhau  
gydag agoriadau  
newydd, canopi  
cyfoes a pheintio  
brics

### Inswleiddio Waliau Allanol (IWA)

- E.20 Gellir defnyddio inswleiddio waliau allanol mewn cynlluniau mwyhau traddodiadol a chyfoes ar yr amod bod y dull o ymdrin â hyn yn briodol i gymeriad gorffenedig cyffredinol y cynllun.
- E.21 Gellir torri IWA i amrywiaeth o siapiau ac felly dylid cymryd gofal arbennig i sicrhau bod yr holl nodweddion wal traddodiadol (fel fframiau ffenestri, conglfeini ac ati) yr annedd wreiddiol yn cael eu ffurfio fel rhan o'r gwaith IWA. Os yw'r strydlun yn cyflwyno cymeriad trosgynnol o nodweddion a gollwyd yn flaenorol ar yr annedd ymgeisio, dylid adfer y rhain drwy'r gwaith IWA i wella cymeriad yr annedd hon a'r strydlun ehangach.
- E.22 Mae IWA yn gwthio'r waliau allanol allan yn fwy, a all greu perthynas od â'r to presennol ac felly mae'n rhaid i waith IWA adfer perthynas a phroffil to/wal priodol.

## F:ARWYNEBAU UCHEL, BALCONIAU A WALIAU CYNHALIOL

- F.1 Efallai y bydd angen caniatâd cynllunio ar rai arwynebau uchel (e.e. deciau, patios ac ati), dyluniadau balconi a waliau cynnal gan ddibynnu ar eu maint a'u uchder. Gall lefel y ddaear fod yn arbennig o berthnasol yn hyn o beth.
- F.2 Gall adeiladu arwyneb, balconi neu wal gynnal uchel i'r tu allan i'ch tŷ ddarparu lle ychwanegol y tu allan ac ymestyn eich ardal fyw. Fodd bynnag, er y gall strwythurau o'r fath fod yn ddatblygiad cymharol fach, gallant gael effaith andwyol o hyd ar ansawdd gweledol eich eiddo a'r strydlun os ydynt wedi'u lleoli ar flaen eich tŷ. Yn fwy penodol, gallant gael effaith andwyol ar amwynder eiddo cyfagos. Dylech ystyried y canlynol wrth ddylunio balconi, arwyneb neu wal gynnal uchel.

### EGWYDDORION DYLUNIO ALLWEDDOL

#### ARWYNEBAU UCHEL

- F.3 Ystyriwch leoliad yr arwyneb uchel. Os ydynt wedi'u lleoli'n rhy agos at y ffin, gallai'r rhain edrych dros eiddo eich cymydog, sef deilliant na fyddai'n dderbyniol. Gweler adran C am ganllawiau sy'n ymwneud â diogelu amwynder deiliaid cyfagos.
- F.4 Sicrhewch fod dyluniad yr arwyneb uchel yn cydweddu â chymeriad eich tŷ. Dylai'r raddfa, masio a deunyddiau a ddefnyddir ar gyfer yr arwyneb barchu ymddangosiad eich eiddo, eiddo cyfagos a'r strydlun cyffredinol.

- F.5 Dylech osgoi defnyddio coed caled trofannol ar gyfer unrhyw ddeciau a chwiliwch am bren gyda'r marc FSC sy'n ardystio y daw o ffynonellau cynaliadwy. Ystyriwch hefyd y defnydd o waliau wedi'u plannu/gwyrdd ar gyfer unrhyw wal o'ch arwyneb uchel.
- F.6 Er y gall arwynebau uchel fel deciau fwyhau'r defnydd o'ch gardd, ni ddylai'r rhain, yn rhinwedd eu maint, gael effaith andwyol ar amwynder neu breifatrwydd eich cymydog.




Ffig F.1 Ni ddylai deciau arwain at edrych dros eiddo cyfagos

- F.7 At hynny, byddai effaith gosod ffensys diogelwch o amgylch unrhyw arwyneb uchel yn cynyddu'r effaith ormesol ar eiddo cyfagos ac mewn rhai achosion yn creu cysgodi.



- F.8 Bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer pob arwynebedd dros 30cm o uchder o lefel y ddaear. Bydd ceisiadau ariannu'n cael eu hasesu ar sail eu teilyngdod eu hunain.
- F.9 Yn aml, mae arwynebau uchel yn cael eu codi uwchben y ddaear i ymdrin â llethr ar safle. Fodd bynnag, ni waeth p'un a ydynt wedi'u gorffen gyda wal gynnal neu ddeciau pren, gallai hyn fod yn ormesol ac ar yr un pryd caniatáu edrych yn uniongyrchol dros eiddo eich cymydog.



Ffig F.2 Ar dir ar oleddf gall deciau a waliau cynhaliol arwain at ddatblygiad sy'n ormesol ac yn anghydnaws

## BALCONIAU

- F.10 Dylai balconi barchu cymeriad a golwg eich tŷ. Ni ddylai anghytwyso na dominyddu'r gweddlyn y mae ynghlwm wrtho, nac ymddangosiad y tŷ pan gaiff ei weld fel rhan o'r strydlun. Gan ddibynnu ar eu maint gall balconïau ychwanegu gofod amwynder newydd at yr eiddo a all greu gweithgaredd newydd a chodi pryderon o ran

amwynder, yn enwedig o ganlyniad i edrych dros a chynhyrchu sŵn. Gall balconïau fod yn arbennig o anodd yn hyn o beth oherwydd eu perthynas â gerddi cefn preifat eiddo cyfagos.

- F.11 Ni ddylai balconi arwain at edrych dros eiddo cyfagos yn uniongyrchol. Mewn sefyllfaoedd lle mae lefel bresennol o edrych drosodd eisoes, caiff cynigion eu hasesu fesul achos.
- F.12 Mewn rhai achosion efallai y byddai'n briodol ystyried cilannu'r balconi er mwyn ymdrin â phryderon ynghylch edrych dros eiddo cyfagos. Ni fydd y dull hwn o reidrydd yn cael ei ystyried yn dderbyniol ym mhob achos a bydd ceisiadau unigol yn cael eu hasesu ar sail eu rhinweddau eu hunain.
- F.13 Dylai graddfa, dyluniad a deunyddiau weddu i gymeriad eich eiddo, boed yn draddodiadol neu'n fodern. Dylid eu gosod ymhell oddi wrth ffiniau cyffredin er mwyn osgoi edrych drosodd uniongyrchol. Ni ddylai balconïau arwain at edrych i mewn i ffenestri ochr neu gefn eiddo cyfagos. Mae'n bosib y bydd angen i chi ystyried defnyddio sgriniau preifatrwydd i leihau unrhyw effaith edrych drosodd a dylid cyflwyno manylion y rhain fel rhan o'ch cais.



Ffig F.3 Estyniad balconi cefn cyfoes yn cynnwys sgrin breifatrwydd i ddiogelu amwynder cymdogion

## **WALIAU CYNHALIOL**

- F.14 Dylai waliau cynhaliol newydd neu amnewid barchu cymeriad yr ardal a pheidio ag effeithio ar amwynder cymdogion.
- F.15 Ystyriwch uchder cyffredinol wal gynhaliol gyda waliau terfyn 2m nodweddiadol a ffensys uwchben – yn aml gall hyn fod yn amlwg iawn yn yr strydlun/ardal ehangach ac ar gymdogion.
- F.16 Defnyddiwch orffeniadau sy'n briodol i gymeriad yr ardal. Os ydych yn newid wal gynhaliol gerrig draddodiadol, cadwch y gerrig a'u hail-ddefnyddio i orffennu'r gwaith bloc concriid.
- F.17 Ystyriwch a oes ateb llai llym. A fyddai dwy wal isel o fewn ardal ardd yn gweithio yn lle wal gynhaliol uchel ar y ffin?
- F.18 Ystyriwch a oes lle i blannu o flaen wal gynhaliol i alluogi llystyfiant i dyfu a darparu meddalau gweledol.
- F.19 Pan fwriedir codi neu ymestyn wal gynhaliol ag uchder dros 1.5m, mae'n bosib y bydd angen i chi geisio cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu. Mae hon yn broses ar wahân i unrhyw gais cynllunio..

## Ff: GAREJYS DOMESTIG AC ADEILADAU ALLANOL

Ff.1 Mae'r rhan hon o'r canllaw yn berthnasol i gynigion i ychwanegu garej ddomestig neu adeilad allanol newydd o fewn eich cwrtil neu gynigion ar gyfer ymestyn garej neu adeilad allanol sy'n bodoli eisoes. Mae'n rhaid defnyddio'r adeiladau hyn at 'ddibenion sy'n gysylltiedig â mwynhad eich tŷ', ac nid at ddibenion masnachol neu fel llety preswyl ar wahân. Dylid ystyried bod adeiladau allanol ar gyfer manau storio biniau a beiciau'n ddiogel ac mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer tai a drawsnewidir i Dai Amlfeddiannaeth. Fel gydag estyniadau ac addasiadau, dylai lleoliad a dyluniad eich garej neu'ch adeilad allanol barchu cymeriad a golwg eich eiddo, perthynas eich eiddo â rhai cyfagos a'r strydlun cyffredinol.

### EGWYDDORION DYLUNIO ALLWEDDOL

Ff.2 Ni ddylai maint a safle garej a/neu adeiladau allanol arfaethedig newydd gael effaith andwyol ar y gofod o amgylch y tŷ a dylent roi ystyriaeth lawn i gyngor ar Fynediad a Pharcio yn Adran G y canllaw hwn.

Ff.3 Mae'n rhaid i garej neu adeilad allanol fod yn llai o ran maint ac yn eilaidd i'r prif dŷ. Dylid gorffennu'r rhain hefyd mewn deunyddiau sy'n sensitif i'r prif dŷ. Argymhellir toeon ar oleddf neu dalcen (i gyd-fynd â'r prif dŷ) ar yr amod nad yw hyn yn cynyddu mas yr annedd yn annerbyniol.

Ff.4 Yn gyffredinol, ni ddylid lleoli garejys ac adeiladau allan o flaen y prif dŷ oni bai bod hyn yn ffurfio rhan o gymeriad y stryd.


Ff.5 Mae'n rhaid i'ch garej neu'ch adeilad allanol beidio ag effeithio'n andwyol ar fwynhad eich cymydog o'i ardd neu dŷ. Ni ddylai garej neu adeilad allanol achosi cysgodi, edrych dros eiddo cymydog na bod yn ormesol iddo, gan gynnwys ei ardd.

Ff.6 Ni ddylai garej neu adeilad allanol olygu y collir coed neu nodweddion eraill sy'n bwysig i'r ardal.



Ffig Ff.1 Mae gan y garej hon, sydd wedi'i gosod yn ôl y tu ôl i'r tŷ, olwg adeiledd darostyngol sy'n atodol i'r prif dŷ

- Ff.7 Fel rheol gyffredinol, dylai drysau'r garej fod mor gul ag sy'n ymarferol, gyda dau ddrws sengl yn cael eu ffafrio dros un drws dwbl. Mae drysau traddodiadol sy'n agor 'i fyny a throsodd' yn gweddu'n llawer gwell i leoliad preswyl na drysau caead rholio sydd ag ymddangosiad llawer mwy masnachol, ni argymhellir y rhain oni bai nad ydynt yn weladwy i'r cyhoedd.
- Ff.8 Wrth ystyried drysau'r garej, mae'n rhaid rhoi sylw i'r lle sydd ei angen i agor a chau drysau. Mae'n rhaid cadw hyd tramwyfa o 5m o leiaf pan fydd drysau'n cael eu hagor.
- Ff.9 Ar gyfer garejys ar lôn gefn, rhaid gosod y garej yn ôl yn ddigonol fel nad yw ei drysau'n gwthio i mewn i'r lôn pan fyddant ar agor.
- Ff.10 Ni ddylai garejys newydd gyfaddawdu diogelwch defnyddwyr y briffordd



Ffig Ff.2 Dylid gosod garej isafswm o 6m yn ôl o'r ffin flaen

**G: MYNEDIAD A PHARCIO**

- G.1 Mae'n ddigon posib y bydd ymestyn eich tŷ yn cynyddu'r galw am parcio ceir yn yr eiddo a/neu'n arwain at bwysau ychwanegol o ran parcio ceir ar y stryd. Bydd hyn o bosib yn cyfyngu ar faint yr estyniad arfaethedig. Bydd canllawiau a darpariaethau perthnasol CCA Parcio Polisi T 6 y CDLI yn cael eu cymhwyso i'r holl geisiadau cynllunio gan ddeiliaid tai.
- G.2 Os bydd eich estyniad neu newid arfaethedig yn arwain at newidiadau i'ch mynedfa i gerbydau; tramwyfa newydd; neu groesfan newydd i'r palmant neu'r ymyl sy'n gofyn am ymylfaen isel, mae'n rhaid i chi gael cymeradwyaeth ar wahân gan adran briffyrdd y Cyngor. Bydd angen i chi hefyd gael caniatâd cynllunio ar gyfer mynedfa newydd neu ehangach i'ch tramwyfa os yw'n ffryntio ar ffordd ddosbarthol.

**EGWYDDORION DYLUNIO ALLWEDDOL**

- G.3 Cadw mannau parcio oddi ar y stryd sy'n bodoli eisoes a chydymffurfio â'r canllawiau mabwysiedig pryd bynnag y bo modd oni bai bod hyn yn arwain at golled annerbyniol o driniaeth ffin gardd flaen neu ffryntiad.
- G.4 Dylai tramwyfeydd fod o leiaf 3.2m eu lled i ddarparu ar gyfer parcio a symudiad cerddwyr.
- G.5 Dylai mynediad fod yn ddiogel gyda gweledd digonol.
- G.6 Ni chaniateir i gatiâu agor allan i'r llwybr troed na'r briffordd.

- G.7 Efallai y bydd angen man troi o fewn eich llain ar gyfer mynedfa gerbydau newydd oddi ar brif ffordd neu ffordd brysur iawn fel nad oes rhaid i gerbydau facio i mewn neu allan. Os yw eich cynnig yn cynnwys creu tramwyfa breifat a rennir, mae'n rhaid i chi ddarparu cyfleuster troi.
- J.8 Dylai mannau parcio fesur isafswm o 2.6m â 4.8m gydag ymyl 1.2m ychwanegol o gwmpas 3 ochr ar gyfer mannau parcio hygrych. O fewn garej, dylai'r lle parcio gynyddu i isafswm dimensiynau mewnol o 3m â 6m.
- G.9 Dylid lleoli parcio ble y gellir gweld ceir er mwyn lleihau'r cyfleoedd ar gyfer troseddu gysylltiedig â cheir. Fodd bynnag, mae angen cydbwysu hyn yn erbyn effaith weledol ceir wedi'u parcio ac ardaloedd o arwyneb caled ar strydoedd a chymeriad yr ardal. Felly, pan fo'n briodol, dylid lleoli garejys ac ardaloedd parcio fel bod ceir y tu ôl i'r llinell adeiladu mewn mannau diogel. Pan nad yw hyn yn bosib, dylid cadw ffiniau blaen a gardd i'w plannu er mwyn darparu rhyddhad gweledol.
- G.10 Bydd trawsnewid unrhyw gerddi blaen i fannau parcio yn cael effaith ar fioamrywiaeth a draeniad a dylid lliniaru hyn drwy ddarparu nodweddion plannu a SUDs rhwng mannau parcio ac mewn ardaloedd eraill. Dylai plannu newydd gyflawni rôl ecosystem ac nid un weledol yn unig.

G.11 Dylid gorffen tramwyfeydd a manau parcio newydd mewn deunyddiau athraidd i leihau dŵr ffo ar yr arwyneb. Ystyriwch raean (pan na fydd hyn yn golchi ar y briffordd gyhoeddus), palmantu bloc athraidd ac arwynebau mandyllog. Bydd defnyddio palmantu glaswellt athraidd hefyd yn helpu i wella bioamrywiaeth a draeniad yn ogystal â meddalau ardaloedd parcio yn weledol. Pa ddeunyddiau bynnag a ddefnyddir, dylai dŵr wyneb gael ei ddraenio'n briodol o fewn y safle ac ni chaniateir iddo lifo i'r briffordd o ganlyniad i'ch cynigion (gweler Polisi RP 4).

G.12 Mewn llawer o achosion bydd yr Hawliau Datblygu a Ganiateir ar gyfer trawsnewid garejys integredig i le byw wedi cael eu dileu, felly fe'ch cynghorir i wirio statws y fath hawliau cyn ymgymryd â'ch gwaith. Mae garejys integredig yn elfennau cynhenid o lawer o ddatblygiadau preswyl a bydd eu trawsnewidiad yn cael ei wrthsefyll oni bai y gellir darparu digon o le parcio oddi ar y stryd heb olygu y caiff mwy na hanner gardd flaen eiddo'r cais ei cholli.



Ffig G.1 Tramwyfa â phalmantu blociau athraidd gyda glaswellt

## Ng: TRINIAETHAU FFINIAU

Ng.1 Gall triniaethau ffiniau blaen fel waliau, rheiliau, gatiâu a pherthi gyfrannu'n sylweddol at gymeriad a golwg ardal, stryd neu lôn yn ogystal â darparu diogelwch a mwy o ymdeimlad o breifatrwydd i flaen tŷ. Maent hefyd yn helpu i ddiffinio ac amgáu mannau cyhoeddus a'u gwneud yn fwy deniadol i gerddwyr. Yn gyffredinol, mae strydoedd a lonydd yn mynd yn anneniadol os yw triniaethau ffiniau ffryntiadau'n amrywio neu ar goll. Mae Polisi PS 2 yn mynnu bod cynigion datblygu'n gwella'r parth cyhoeddus a gall triniaethau ffiniau priodol helpu i gyflawni hyn

### EGWYDDORION DYLUNIO ALLWEDDOL


Ng.2 Dylai triniaethau ffiniau ffryntiadau gyfateb i uchder, deunyddiau a math y ffiniau ar y naill ochr a'r llall. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fyddant yn gyson yn gyffredinol, neu'n nodwedd o'r ardal leol. Mewn rhai achosion, gall gardd flaen ddiogel hefyd ddarparu lle ar gyfer storio beiciau a sbwriel.



Ffig Ng.1 Mae triniaethau ffiniau ffryntiad yn cyfrannu at gymeriad eich stryd a dylid eu cadw

Ng.3 Ni ddylai triniaethau ffiniau ffryntiadau newydd rwystro golygfeydd o'r tŷ, nac atal gwylidwriaeth naturiol ar y parth cyhoeddus o'r tŷ. Ni chaniateir triniaethau ffiniau blaen dros 1m o uchder sy'n ffinio â phriffordd.

Ng.4 Wrth ystyried triniaethau ffiniau ar gyfer llain gornel mae angen i uchder y caeadle ffiniol ymateb yn gadarnhaol i'r ddau



Ffig Ng.2 Ar leiniau cornel, dylai triniaethau ffiniau ymateb yn gadarnhaol i'r ddau ffryntiad stryd, gan sicrhau nad yw triniaethau ffiniau gerddi cefn preifat yn cael yr effaith o wneud y stryd yn ddifywyd

Ng.5 Felly, bydd angen i driniaethau ffiniau ar gorneli gael eu gorffen mewn deunyddiau gwydn o ansawdd uchel sy'n cyd-fynd â'r eiddo presennol a'r ardal amgylchynol.

Ng.6 Ni fydd ffensys byrddau agos fel triniaeth unigol yn dderbyniol ar gyfer unrhyw ffiniau neu gatau sy'n ffryntio'n uniongyrchol ar y briffordd gyhoeddus neu ardaloedd eraill sy'n weladwy i'r cyhoedd. Fodd bynnag, gall ffensys byrddau agos ar y cyd â waliau a phileri fod yn dderbyniol mewn rhai lleoliadau os nad oes hunaniaeth gref o driniaethau ffiniau eraill fel waliau, perthi neu reiliau.




Ffig Ng.3 Nid yw ffensys byrddau agos fel triniaeth unigol yn dderbyniol mewn ardaloedd sy'n weladwy i'r cyhoedd



Ffig Ng.4 Gellir cyfuno ffensys byrddau agos â waliau a phileri ag arddull a deunyddiau priodol i ddarparu triniaeth ffin fwy derbyniol (yn amodol ar fesurau cysylltedd bywyd gwyllt priodol)

Ng.7 Gall perthi ffurfio triniaeth ffin ddeniadol ac effeithiol y mae angen ei chynnal a'i chadw'n rheolaidd er mwyn osgoi tyfu'n rhy uchel neu dresmasu ar y palmant neu dir arall. Dylid osgoi conwydd sy'n tyfu'n gyflym gan fod eu maint yn amhriodol i ardal breswyl a gallant achosi cysgodi sylweddol i eiddo cyfagos. Yn aml, gellir cyfuno perthi â waliau neu ffensys i ddarparu triniaeth ffin sy'n fwy priodol yn lleol.



Ffig Ng.5 Gall perthi greu ffin gadarn sy'n darparu gwyrddni ac yn creu manteision lluosog i'r amgylchedd megis lleihau llygredd aer gerllaw ffyrdd prysur



Ng.8 Wrth ystyried triniaethau ffiniau dylech hefyd ystyried anghenion bywyd gwyllt lleol fel anifeiliaid bach sy'n fforio (gan gynnwys rhywogaethau a warchodir fel draenogod) y mae angen iddynt allu mynd drwy unrhyw driniaeth ffin o'r fath. Perthi yw'r opsiwn ffin gorau yn yr achos hwn gan y gall fod yn gymharol ddwys ond yn dal i ddarparu ar gyfer pasio drwodd. Yn achos waliau a ffensys solet dylai'r rhain gynnwys rhai tyllau o faint priodol (o leiaf 13 x 13 cm) ar eu gwaelod neu mewn twnelau bach o dan y rhain.

Ng.9 Dylid dewis rhywogaethau perthi ar sail priodoldeb lleol yn ogystal â'r rhai sy'n cynyddu bioamrywiaeth drwy beillio neu ddarparu cynefinoedd rhywogaethau brodorol (Polisi ER 9).



Ffig Ng.6 Gellir cyfuno perthi â waliau a/neu reiliau i ddarparu ymddangosiad mwy trefol

Ng.10 Wrth ystyried gosod gatiau, mae'n rhaid i chi sicrhau mai gatiau sy'n agor i mewn yw'r rhain gan na fydd gatiau sy'n agor allan ac yn achosi rhwystr i'r briffredd gyhoeddus (gan gynnwys palmentydd) yn cael eu hystyried yn dderbyniol.

## H: COED A LLYSTYFIANT ARALL

- H.1 Mae coed a phlannu sydd eisoes yn bodoli yn helpu i wneud ardaloedd yn fwy deniadol ac yn ychwanegu at werth eich cartref. Gallant hefyd ychwanegu at werth ecolegol ardal. Fodd bynnag, mae'n hawdd difrodi coed a phlannu wrth gyflawni gwaith, naill ai drwy effeithio ar y pridd neu lefel y ddaear o amgylch y parth gwreiddiau neu drwy dorri gwreiddiau wrth adeiladu gwasanaethau a sylfeini.
- H.2 I Mae'r CCA Coed, Gwrychoedd a Choetiroedd yn nodi'r disgwyliad y bydd yr holl goed categori A a B yn cael eu cadw a'u hintegreiddio i gynigion lle bo hynny'n bosib. Mae'r CCA hwn hefyd yn nodi meini prawf clir a thryloyw ar gyfer pennu nifer y coed newydd sydd eu hangen o ystyried y rhai y bwriedir eu tynnu ymaith. Mae hyn yn seiliedig ar liniaru colli gorchudd canopi nid nifer y coed a gollir yn unig. Disgwylir i goed newydd fod yn rhywogaethau sy'n tyfu'n fawr ar gyfer presenoldeb a chadernid ar unwaith.



Ffig H.1 Mae coed a phlannu'n helpu i wneud ardaloedd yn fwy deniadol ac ar yr un pryd yn darparu draeniad naturiol mewn ardaloedd adeiledig

## YSTYRIAETHAU ALLWEDDOL

- H.3 Ni ddylid ymgymryd â gwaith adeiladu o dan ganopïau coed nac o fewn radiws o ddau fetr o goed llai gyda choron heb ei datblygu.
- H.4 Ni ddylid storio cyfarpar neu ddeunyddiau o dan ganopïau coed nac o fewn radiws o ddau fetr o goed llai gyda choron heb ei datblygu.
- H.5 Mae rhai coed yn cael eu gwarchod yn ôl y gyfraith gan Orchmynion Cadw Coed (TPO) oherwydd eu hansawdd unigol neu fel grŵp a'r cyfraniad a wnânt at gymeriad ardal. Mae'n anghyfreithlon cyflawni gwaith ar y coed hyn, neu eu symud heb ganiatâd. Os oes gennych unrhyw amheuan, holwch y Cyngor a yw unrhyw un o'r coed ar eich eiddo yn cael eu diogelu gan TPO.
- H.6 Os yw eich eiddo o fewn Ardal Gadwraeth, dylech wirio cyn gwneud unrhyw waith neu a allai effeithio ar unrhyw goed gan y gallai fod ganddynt warchodaeth statudol hefyd os oes gan foncyffion y rhain ddiamedr o fwy na 75mm/7.5cm pan gânt eu mesur ar uchder o 1.5m uwchben lefel y ddaear.
- H.7 Ystyriwch gyfleoedd i wella eich datblygiad drwy blannu coed, llwyni a nodweddion ecolegol eraill fel y nodir yn y bennod ganlynol (Adran 3.0).

## 5.0 Cyflwyno Cais Cynllunio

- 5.1 Mae gofynion safonol ar gyfer cyflwyno cais cynllunio i sicrhau ei bod yn glir i'r Cyngor, eich cymdogion ac unrhyw bobl eraill rydym yn ymgynghori â hwy yn union beth rydych eisiau ei adeiladu. Mae hyn yn hanfodol er mwyn medru asesu'r ardal gyfagos yn briodol. Mae hefyd yn bwysig i fedru cadarnhau mai'r hyn rydych yn ei adeiladu yw'r hyn y mae gennych ganiatâd ar ei gyfer.
- 5.2 Mae'r adran hon yn amlinellu pa wybodaeth y mae'n rhaid iddi gyd-fynd â phob cais cynllunio gan ddeiliaid tai a pha wybodaeth ychwanegol fyddai'n helpu'r Cyngor wrth iddo ystyried y cais. Anfonir nodiadau canllaw ar wahân gyda'r holl ffurflenni cais cynllunio i ddangos pa wybodaeth sy'n ofynnol.
- 5.3 Mae'n ddefnyddiol nodi dimensiynau allweddol, er mwyn helpu i osgoi unrhyw ddryswch yn enwedig os edrychir ar gynlluniau ar-lein.

### Cynllun o'r lleoliad

- Graddfa 1:1250 o ddewis a ddim yn llai na 1:2500. Ffefrir detholiadau o'r Arolwg Ordnans;
- Gan gynnwys pwynt Gogleddol;
- Amlinellwch safle'r cais gyda llinell goch, a nodwch unrhyw dir cyfagos sy'n eiddo i'r ymgeisydd neu a reolir ganddo gyda llinell las;
- Dangoswch yr eiddo sy'n destun y cais mewn perthynas â'r holl eiddo cyfagos a'r ardal uniongyrchol gyfagos, gan gynnwys o leiaf 2 ffordd a enwir;
- Dangoswch fynedfa cerbydau i'r briffordd os nad yw'r safle'n ffinio â phriffordd.

### Manylion cynllun arfaethedig y safle—Cynllun bloc

- Graddfa, fel arfer o 1:200; 1:500 neu raddfa gynllunio yr un mor briodol a chydabyddedig i ganfod y lefel ofynnol o fanylder;
- Pwynt gogleddol, dyddiad a rhif ar gynlluniau;
- Dangoswch y cynigion yng nghyd-destun adeiladau presennol sydd i'w cadw yn ogystal ag unrhyw adeiladau cyfagos sy'n agos iawn;
- Dangoswch leoliad unrhyw adeilad neu estyniad newydd, mynediad i gerbydau/cerddwyr, newidiadau mewn lefel, cynigion tirlunio, gan gynnwys coed i'w symud, plannu newydd, waliau ffiniol newydd neu wedi'u haddasu a ffensys, a manau agored arwyneb caled newydd;
- Mae'n rhaid dangos manau parcio ceir a/neu garejys ar luniadau a gyflwynir;
- Bydd y manylion yn cynnwys cyfleusterau parcio presennol ac arfaethedig hyd yn oed os nad yw'r gwaith adeiladu'n effeithio arnynt.

### (Dewisol)—Manylion y Safle Presennol (Yn arbennig o ddefnyddiol pan fydd adeiladau ar y safle'n cael eu cadw)

- Graddfa, i gyfateb i'r cynllun bloc o gynigion;
- Dangoswch y tŷ presennol yn ei gyfanrwydd ar ffurf cynllun gan gynnwys safle unrhyw adeiladau allanol presennol, garejys, coed, tramwyfeydd, manau parcio a nodweddion nodedig eraill;
- Dangoswch y driniaeth ffin bresennol i'r safle a lleoliad yr eiddo cyfagos agosaf.

### **Cynlluniau llawr**

- Graddfa o 1:50 neu 1:100;
- Yn achos estyniad, dangoswch gynllun llawr yr adeilad presennol, gan nodi gwaith newydd yn glir;
- Dangoswch gynlluniau llawr yng nghyd-destun adeiladau cyfagos, pan fo hynny'n briodol;
- Dylech gynnwys cynllun to pan fydd angen, i ddangos to cymhleth neu newidiadau i un.

### **Gweddlluniau**

- Graddfa o 1:50 neu 1:100 (gan gyfateb i'r cynlluniau llawr);
- Dangoswch bob gweddllun adeilad neu estyniad newydd;
- Ar gyfer estyniad neu newid, gwahaniaethwch yn glir rhwng gweddlluniau presennol ac arfaethedig;
- Dylech gynnwys manylion deunyddiau ac ymddangosiad allanol;
- Dangoswch weddlluniau yng nghyd-destun adeiladau cyfagos. Mae brasluniau o'r strydlun yn bwysig lle cynigir estyniad i dŷ pâr neu dŷ teras.

### **Croestoriadau**

- Graddfa o 1:50 / 1:100, pan fo'n briodol. Bydd angen y rhain ar safleoedd lle nad yw lefelau tir yn unffurf neu pan fydd y cynigion yn arwain at newid mewn lefelau.

### **Ceisiadau a gwybodaeth ychwanegol bosib ar gyfer Adeiladau Rhestredig a Thai mewn Ardaloedd Cadwraeth:**

#### **Adeiladau Rhestredig**

- Cais am Ganiatâd Adeilad Rhestredig
- Datganiad o'r Effaith ar Dreftadaeth—Datganiad Adeilad Rhestredig (yn unol â dogfen 'Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru' (Cadw, 2017))

#### **Ardaloedd Cadwraeth**

- Cais Caniatâd Ardal Gadwraeth (CAC) (ar gyfer dymchwel unrhyw adeiladau dros 115m<sup>3</sup> neu gatiâu/ffensys/waliau neu reiliau dros 1m o uchder wrth ymyl y briffordd neu 2m uchder mewn mannau eraill)
- Datganiad o'r Effaith ar Dreftadaeth—datganiad Ardal Gadwraeth (gweler Adeiladau Rhestredig uchod).

**Atodiad A: Rhestr termau**

<b>Amwynder</b>	Ansawdd bywyd a llesiant a fwynheir gan gymdogion/deiliaid	<b>Ystafell drigiadwy</b>	Yn cynnwys ystafelloedd byw, ystafelloedd bwyta, astudfeydd, ceginau ac ystafelloedd gwely ond nid ystafelloedd ymolchi, toiledau, ystafelloedd gwisgo na chynteddau
<b>Gofod amwynder</b>	Ardaloedd o ofodau o amgylch eich eiddo gan gynnwys gerddi, ardaloedd deciau a balconïau	<b>To talcen</b>	To sydd yn gyffredinol â phedwar plân goleddol, pob un yn goleddu i'r bondo heb unrhyw dalcen
<b>Llinell adeiladu</b>	Y llinell a grëir gan ffyrntiadau adeiladau mewn stryd - mae gan dai teras llinell adeiladu gref iawn	<b>Crib neu Linell Grib</b>	Yn gyffredinol rhan uchaf y to lle mae'r goleddfau'n cwrdd
<b>Cwrttil</b>	Y tir o gwmpas ac yn perthyn i dŷ	<b>Ffenestr to</b>	Ffenestr wedi'i mewnosod yn y to sy'n gorwedd yn gyfwyneb â phlân y to
<b>Annedd</b>	Term a ddefnyddir mewn cynllunio i ddisgrifio tŷ, byngalo neu fflat	<b>Plân y to</b>	Goleddf to
<b>Tŷ ar wahân</b>	Tŷ annibynnol nad yw wedi'i gysylltu ag unrhyw annedd arall	<b>Tŷ pâr</b>	Pâr o anheddau sydd, pan gânt eu gweld fel un, yn adlewyrchiad o'i gilydd.
<b>Estyniad Dormer</b>	Wal fertigol sy'n gwthio allan o oleddf y to, yn aml gyda ffenestri	<b>Llawr</b>	Term a ddefnyddir i ddisgrifio lefel neu lawr mewn adeilad
<b>Ffenestr Ddormer</b>	Ffenestr yn y to gyda to ar oleddf neu wastad	<b>Teras</b>	Rhes o dai sydd fel arfer o'r un raddfa a dyluniad
<b>Bondo</b>	Ymyl isaf y to sy'n gwthi allan dros ben wal	<b>To ar oleddf</b>	To gyda dwy ochr ar oleddf sy'n cwrdd ar grib gyda thalcenni ar naill ochr a'r llall
<b>Gweddlun</b>	Term a ddefnyddir mewn cynllunio i ddisgrifio waliau allanol tŷ		
<b>Ffenestriad</b>	Term a ddefnyddir i ddisgrifio patrwm neu drefniant ffenestri		
<b>Talcen</b>	Wal, fel arfer gydag adran drionglog a geir ar ben to ar oleddf		

## Atodiad B: Ffynonellau Gwybodaeth a Chysylltiadau

### Mae'r canlynol ar gael ar ffurf copi caled neu ar-lein gan Lywodraeth Cymru neu'r Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG):

- Llywodraeth Cymru, 2018—(Argraffiad 10), Polisi Cynllunio Cymru
- Llywodraeth Cymru, 2005—NCT 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy
- Llywodraeth Cymru, 2016—NCT 12
- Llywodraeth Cymru, 2014—Datblygu a Ganiateir ar gyfer deiliaid tai (Fersiwn 2)
- Llywodraeth Cymru, 2013—Gwaith adeiladu, amnewid ac atgyweirio i'ch cartref
- Llywodraeth Cymru, 2014—Coed Gwarchoddedig - Canllaw i Weithdrefnau Cadw Coed
- Llywodraeth Cymru, 2014—Canllaw Cynllunio i Ddeiliaid Tai ar gyfer Gosod antenâu (gan gynnwys dysglau lloeren)
- Llywodraeth y DU, 1996—Deddf Waliau Cydrannol etc. 1996: llyfryn esboniadol
- Dinas a Sir Abertawe—Cynllun Datblygu Lleol

### Mae'n bosib y bydd y cyhoeddiadau manylach hyn o gymorth i rai darllenwyr:

- BRE, 2008—The Green Guide to Specification
- Building Research Establishment "Site Layout Planning for

Daylight and Sunlight" BR209

- British Standards Institute BS8300, 'Access for Disabled People'
- CCA Safonau Parcio Ceir
- CCA Diogelu Coed ar Safleoedd Datblygu
- CCA Canllaw Dylunio AoHNE Gŵyr
- Lleodedd i Fyw - CCA Canllaw Dylunio Preswyl
- CCA Canllaw Dylunio Mewnlenwi a Thir Cefn
- CCA Trawsnewid Adeiladau Gwledig
- CCA Cynllunio ar gyfer Diogelwch Cymunedol
- CCA Bioamrywiaeth
- CCA Seilwaith Gwyrdd
- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, Adran 17
- Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 16/94, 'Cynllunio i Gael Gwared â Throseddu'

### Cysylltiadau Gwe:

- Dinas a Sir Abertawe - Addasiadau tai i'r henoed a phobl anabl <https://www.abertawe.gov.uk/addasiadaucartref>
- Dinas a Sir Abertawe - Canllaw i estyn eich cartref <http://www.swansea.gov.uk/article/32338/Guide-to-extending-your-home>
- Dinas a Sir Abertawe - Gwnewch eich cartref yn fwy ynni-effeithlon ac arbedwch arian <https://www.abertawe.gov.uk/cartrefynniefieithlon>

**Mae'r canlynol yn darparu rhestr o gysylltiadau ar gyfer adrannau perthnasol y Cyngor:**

I gysylltu â'r cyngor dros y ffôn, ffoniwch y prif switsfwrdd ar **(01792) 636000** a gofynnwch am gael eich trosglwyddo i'r adran berthnasol (gweler isod)

Neu fel arall cysylltwch â'r adrannau hyn drwy'r cyfeiriadau e-bost a ddarperir

**Adran Ceisiadau Cynllunio**

Ebost: [cynllunio@abertawe.gov.uk](mailto:cynllunio@abertawe.gov.uk)

Rhynggrwyd: [www.abertawe.gov.uk/cynllunio](http://www.abertawe.gov.uk/cynllunio)

Email: [planning@swansea.gov.uk](mailto:planning@swansea.gov.uk)

Web: [www.swansea.gov.uk/planning](http://www.swansea.gov.uk/planning)

**Coed a Pherthi**

Ebost: [coedaddiogelir@abertawe.gov.uk](mailto:coedaddiogelir@abertawe.gov.uk)

Rhynggrwyd: [www.abertawe.gov.uk/article/37630/Gorchmynion-Cadw-Coed-GCC](http://www.abertawe.gov.uk/article/37630/Gorchmynion-Cadw-Coed-GCC)

Email: [protectedtrees@swansea.gov.uk](mailto:protectedtrees@swansea.gov.uk)

Web: [www.swansea.gov.uk/tpo](http://www.swansea.gov.uk/tpo)

**Rheoli Adeiladu**

Ebost: [rheoliadeiladau@abertawe.gov.uk](mailto:rheoliadeiladau@abertawe.gov.uk)

Rhynggrwyd: [www.abertawe.gov.uk/rheoliadeiladau](http://www.abertawe.gov.uk/rheoliadeiladau)

E-mail: [bcon@swansea.gov.uk](mailto:bcon@swansea.gov.uk)

Web: [www.swansea.gov.uk/bcon](http://www.swansea.gov.uk/bcon)

**Cadwraeth Natur**

Ebost: [nature.conservation@swansea.gov.uk](mailto:nature.conservation@swansea.gov.uk)

E-mail: [nature.conservation@swansea.gov.uk](mailto:nature.conservation@swansea.gov.uk)

**Cadwraeth ac Adeiladau Rhestredig**

Ebost: [rheoliadeiladau@abertawe.gov.uk](mailto:rheoliadeiladau@abertawe.gov.uk)

Rhynggrwyd: [www.abertawe.gov.uk/rheoliadeiladau](http://www.abertawe.gov.uk/rheoliadeiladau)

Email: [designswansea@swansea.gov.uk](mailto:designswansea@swansea.gov.uk)

Web: [www.swansea.gov.uk/urbandesignandconservation](http://www.swansea.gov.uk/urbandesignandconservation)

**Trafnidiaeth**

Ebost: [HTPSDept@abertawe.gov.uk](mailto:HTPSDept@abertawe.gov.uk)

Rhynggrwyd: [www.abertawe.gov.uk/trafnidiaethaphrifyrdd](http://www.abertawe.gov.uk/trafnidiaethaphrifyrdd)

E-mail: [transportation@swansea.gov.uk](mailto:transportation@swansea.gov.uk)

Web: [www.swansea.gov.uk/transportandstreets](http://www.swansea.gov.uk/transportandstreets)

## Atodiad C: Enillion a Gwelliannau Bioamrywiaeth

Mae'r wybodaeth a ganlyn yn ehangu ar y deunydd trosolwg a geir yn Adran 3.0 y Canllaw.

Mae materion sy'n ymwneud â Bioamrywiaeth yn ystyriaethau allweddol ar gyfer pob datblygiad a dylai cynigion geisio isafu'r effeithiau ar fioamrywiaeth, cynefinoedd a rhwydweithiau seilwaith gwyrdd sy'n bodoli eisoes, yn ogystal â chyflwyno mesurau i sicrhau buddiant net i fioamrywiaeth yn unol â dyletswyddau Adran 6.

Mae'r atodiad hwn yn ymhelaethu ar yr ystyriaethau bioamrywiaeth. Mae mwy o wybodaeth wedi'i chynnwys yn y CCA Bioamrywiaeth.

### Safleoedd Ecolegol Arbennig

Dylech wirio'n gyntaf a yw eich datblygiad arfaethedig o fewn neu'n agos at safle sydd wedi'i ddynodi fel un o bwysigrwydd ecolegol. Cyfeiriwch at Fap Cyfyngiadau a Materion CDLI Abertawe ([www.abertawe.gov.uk/cca](http://www.abertawe.gov.uk/cca)) ar gyfer lleoliad safleoedd a ddynodir yn genedlaethol a dynodiadau lleol fel SINC. Efallai y bydd angen rhagor o wybodaeth am yr arolwg os yw'r datblygiad arfaethedig yn debygol o effeithio ar safle dynodedig (gweler Polisi ER 8).

### Rhywogaethau a Warchodir

Os ydych eisoes yn ymwybodol bod rhywogaethau a warchodir yn bresennol ar eich safle neu'n agos ato, dylech gynnwys yr holl wybodaeth sydd ar gael fel rhan o'ch cyflwyniad cyn

ymgeisio. Fel rhan o'r broses hon bydd tîm ecoleg y cyngor yn rhoi sylwadau ar ba arolygon sydd eu hangen ac unrhyw fesurau digolledu neu wella ecolegol. Noder efallai na fydd presenoldeb rhywogaethau a warchodir yn gyfyngedig i'ch safle yn unig ac felly bydd angen i'r Cyngor ystyried presenoldeb rhywogaethau a warchodir fel ystlumod ac adar sy'n nythu (yn benodol tylluanod ysgubor) sydd hefyd yn defnyddio adeiladau eraill gerllaw (megis garejys ac adeiladau allanol) a choed i glwydo a nythu.

### Os oes angen arolwg, mae'n rhaid iddo fod yn ddiweddar ac wedi'i gyflawni gan ecolegydd sydd â chymwysterau addas.

Dylai'r wybodaeth ofynnol gynnwys yr arolygon angenrheidiol, asesiad o effaith, datganiadau dull a strategaethau lliniaru/gwella. Bydd angen cynnwys yr wybodaeth hon fel rhan o'ch cais cynllunio. Ystyrir bod yr holl Arolygon Ecolegol a gyflwynir i gefnogi ceisiadau cynllunio yn ddilys am gyfnod o 2 flynedd, ac ar ôl hynny, bydd angen arolygon wedi'u diweddarau. Mae angen i chi gadw hyn mewn cof wrth ystyried pryd i geisio cyngor cyn-ymgeisio a phryd mae cais yn debygol o gael ei gyflwyno.

Noder bod **arolygon Ecolegol yn dymhorol, felly mae'n rhaid cynnal yr arolwg gofynnol mewn mis priodol o'r flwyddyn**, ac adeg briodol o'r dydd. Dylai gwybodaeth yr arolwg gynnwys chwiliad data o Ganolfan Cofnodion Biolegol De-ddwyrain Cymru (SEWBRc), a defnyddio canllawiau /dulliau arolwg a gydnabyddir yn genedlaethol pan fyddant ar gael.



Mae nifer o rywogaethau adar ac anifeiliaid wedi'u diogelu o dan wahanol ddeddfau Amgylcheddol ac felly mae'n drosedd ymgymryd â gwaith a fyddai'n peri aflonyddwch i'r rhain heb weithredu mesurau lliniaru priodol.

Bydd presenoldeb (neu bresenoldeb posib) rhywogaethau a warchodir yn gofyn am gydymffurfio â'r holl rwymedigaethau a chyfrifoldebau statudol perthnasol, a gallant olygu dod o hyd i drwydded gan Gyfoeth Naturiol Cymru er mwyn osgoi cyflawni trosedd. Mae adran atodiad y CCA Bioamrywiaeth hefyd yn nodi rhestr wirio o'r mathau o arolygon rhywogaethau y bydd eu hangen ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiadau a ffactorau perthnasol eraill.

Mae'r canlynol yn rhestr o'r mathau mwyaf cyffredin o rywogaethau sy'n debygol o gael eu heffeithio gan waith datblygu mewnlenni a/neu dir cefn. Noder nad rhestr hollgynhwysol mo hon ac i ddarganfod effaith bosib y cynnig neu i bennu a fyddai angen trwydded, dylech ofyn am gyngor cyn-ymgeisio neu gyngor ecolegydd sydd â chymwysterau addas.

## Ystlumod

Mae'n rhaid darparu gwybodaeth arolwg ar gyfer ystlumod ymlaen llaw bob amser fel rhan o gais cynllunio. Ni ellir penderfynu ar gais cynllunio a allai gael effaith ar ystlumod nes bod yr wybodaeth angenrheidiol wedi'i darparu.

Mae'n rhaid i'r arolwg, adroddiad yr arolwg a chynigion lliniaru/digolledu/gwella gael eu cyflawni a'u paratoi bob amser gan syrfëwr ystlumod trwyddedig (cyflenwir trwyddedau arolwg ystlumod yng Nghymru gan CNC). **Y tymor ar gyfer arolygon ystlumod yw o 1 Mai tan 30 Medi** (gyda rhai arolygon cyfyngedig yn bosib ym misoedd Ebrill a mis Hydref).

Os dengys yr arolwg a gyflwynir fod ystlumod yn debygol o gael eu heffeithio gan eich datblygiad, bydd angen darparu cynigion lliniaru, digolledu a gwella. Bydd y cynigion hyn yn dibynnu ar ganlyniadau'r arolwg ystlumod. Gallant gynnwys: cynnwys clwyd ystlumod yn yr adeilad, codi blychau ystlumod neu blannu coed/perthi. Mae'n rhaid i gynigion lliniaru, digolledu a gwella hefyd ystyried ffactorau fel goleuo ac agosrwydd cynefin addas.

Ceir rhagor o wybodaeth am ofynion a phroses arolygon ystlumod yn y ddogfen CIEEM o'r enw "What to Expect from a Bat Survey: A Guide for UK Homeowners" sydd ar gael yn:

<https://cieem.net/resource/what-to-expect-from-a-bat-survey-a-guide-for-uk-homeowners/>

## Tylluanod Ysgubor

Mae'r diogeliad ar gyfer tylluanod ysgubor yn cynnwys yr holl adar, eu nythod a'u hwyau. Mae'r diogeliad arbennig a roddir iddynt yn ei gwneud yn drosedd i darfu ar adar yn y nyth. Cyn i unrhyw waith ddechrau, mae'n bosib y bydd yn ofynnol i arolwg gael ei gyflawni gan ecolegydd sydd â chymwysterau addas.



Os deuir o hyd i dylluanod ysgubor, bydd angen cynigion lliniaru/digolledu a gwella, a allai gynnwys darparu blychau nythu yn/ar/ger yr adeilad neu'r adeiledd. Mae'n rhaid i gynigion sy'n effeithio ar dylluanod ysgubor hefyd ystyried ffactorau fel goleuo ac agosrwydd cynefin addas.

Mae rhagor o wybodaeth am arolygon Tylluanod Ysgubor lleol, gweithdrefnau chwilio, ffyrdd i'ch helpu i adnabod tystiolaeth o ddeiliadaeth yn ogystal â rhywfaint o gefndir ar Dylluanod Ysgubor a'r gyfraith ar gael yn y daflen "Barn Owl Trust: Survey Techniques ar y wefan CIEEM:

<https://cieem.net/resource/barn-owl-trust-survey-techniques/>

## Adar sy'n Nythu

Mae'r diogeliad ar gyfer adar sy'n nythu yn diogelu pob aderyn gwyllt rhag cael ei ladd, ei anafu neu ei gymryd. Mae'r diogeliad hwn hefyd yn ymestyn i wyau, adar ifainc a nythod adar (tra'u bod yn cael eu defnyddio).

Mae rhywogaethau adar fel gwennol y bondo, adar y to, gwenoliaid a gwenoliaid duon i gyd yn defnyddio adeiladau i nythu ynddynt/arnynt. Mae ardaloedd o lystyfiant trwchus (e.e. perthi a phrysgwydd) hefyd yn bwysig ar gyfer adar sy'n nythu.

**Dylai gwaith a allai effeithio ar adar sy'n nythu osgoi'r tymor bridio adar, yr ystyrir yn gyffredinol ei fod rhwng 1 Mawrth a 31 Awst.** Fodd bynnag, gall hyn ddechrau'n gynharach a gorffen yn ddiweddarach gan ddibynnu ar rywogaeth yr adar. Efallai y bydd angen gwiriadau cyn gwaith ar gyfer nythod actif hefyd.

Ceir gwybodaeth ychwanegol am drwyddedu adar yn ogystal â dolenni i restr o rywogaethau a warchodir Atodlen 1 a gwybodaeth arall yn:

<https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/species-licensing/uk-protected-species-licensing/bird-licensing/?lang=cy>

## Draenogod

Mae'r diogeliadau lluosog ar gyfer draenogod yn ei gwneud yn anghyfreithlon i ladd, dal neu drin draenogod gwyllt yn greulon. Rhestrir draenogod fel rhywogaeth o 'bwysigrwydd pennaf' at ddiben cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru.

Mae dewis ac athreiddedd triniaethau ffiniau arfaethedig yn arbennig o bwysig ar gyfer lliniaru effeithiau niweidiol ar ddraenogod ac felly argymhellir defnyddio ffiniau meddalach, naturiol (e.e. perthi). Pan fwriedir defnyddio ffiniau caled fel waliau a ffensys, dylai'r rhain naill ai beidio â bod yn sownd wrth y ddaear neu ddylent gynnwys bylchau neu dyllau o leiaf 13 x 13 cm ar bwyntiau strategol yn eu sylfaen i alluogi draenogod (a rhywogaethau mudol/porthi eraill) fynd drwy'r rhain. I gael rhagor o wybodaeth am ffensys sy'n llesol i ddraenogod, ewch i:

<https://www.hedgehogstreet.org/hedgehog-friendly-fencing/>

Mae nodweddion eraill sy'n llesol i ddraenogod y gellir eu hymgorffori mewn gerddi yn cynnwys elfennau lled-barhaol a thros dro fel pentyrrau boncyffion, tomenni compost, pentyrrau dail, lleiniau wedi'u gordyfu, lleiniau blodau gwyllt a phyllau. Ceir rhagor o wybodaeth am y rhain yn ogystal â chanllaw ar sut i adeiladu cartref draenogod yn:

<https://www.hedgehogstreet.org/help-hedgehogs/helpful-garden-features/>

## Mesurau Gwella Bioamrywiaeth

Dylai cynigion datblygu mewnlenni a/neu dir cefn ddarparu cyfleoedd newydd i fywyd gwyllt, a gallant gynnwys y nodweddion a ganlyn. Fe'ch anogir i ystyried integreiddio'r canlynol yn eich cynigion beth bynnag er mwyn gwella bioamrywiaeth a chynefinoedd lleol ar gyfer rhywogaethau lleol yn gyffredinol:

- Ymgorffori toeon gwyrdd a waliau gwyrdd yn yr adeiladwaith;
- Darparu blychau nythu adar ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau (e.e. teras adar y to, blwch gwenoliaid duon, cwpan adar y gwennol etc.) a nodweddion clwydo ystlumod o fewn y toeon, blychau ystlumod yn allanol neu ar goed aeddfed addas o fewn y tiroedd, a phorthwyr adar a baddonau adar;
- Gosod blwch tylluanod ysgubor;
- Tirlunio'r ardd i gynnwys perthi brodorol, coed ac ardaloedd blodau gwyllt. Mae'n hanfodol defnyddio rhywogaethau brodorol o darddiad lleol (neu o leiaf Gymreig) a rhywogaethau o fudd hysbys i fywyd gwyllt a phryfed peillio mewn unrhyw gynllun tirlunio meddal sy'n gysylltiedig â'r datblygiad.
- Creu pwll neu ardd gors;
- Creu pentwr boncyffion neu bentwr cerrig;
- Darparu 'gwesty' gwenyn a/neu'r infertebratau yn eich gardd;
- Isafu'r defnydd o ffensys byrddau agos neu nodweddion ffiniau caled eraill sy'n lleihau cysylltedd ar gyfer bioamrywiaeth.

A phan ddefnyddir y fath driniaethau;

- Gwneud tyllau bach (isafswm 13 x 13cm) mewn unrhyw ffensys ffiniol i alluogi i ddraenogod a rhywogaethau mudol eraill wella cysylltedd i ardaloedd/ gerddi;
- Cynnal a chadw llinellau coed sy'n bodoli eisoes a chadw perthi.

### **Rhywogaethau Estron Goresgynol (RhEG) e.e. Canclwm Japan**

Pan fo rhywogaeth anfrodorol goresgynol o fflora a restrir yn Atodlen 9 Rhan II adran 14(2) Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) yn bresennol ar safle cais cynllunio, gosodir amod rhywogaethau estron goresgynol (fflora) ar y cais hwnnw.

Fel arfer, mae amodau o'r fath ynghlwm wrth geisiadau cynllunio i ddelio â Chanclwm Japan, ond gellir atodi'r rhain hefyd i ddelio â phresenoldeb RhEG llai cyffredin eraill os ydynt yn bresennol.


Er mwyn cyflawni'r amod, mae'n rhaid i chi ddarparu a gweithredu datganiad dull priodol ar gyfer rheoli'r planhigyn cyn, yn ystod ac ar ôl y gwaith datblygu. Gall Canclwm Japan yn benodol fod yn anodd iawn i'w ddileu ac ar ben hynny mae'n cael ei ystyried yn 'wastaff rheoledig' o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, sy'n ei gwneud yn ofynnol i hyn gael ei waredu gyda chlodwyr gwastraff cofrestredig megis contractwyr Canclwm Japan arbenigol. Os yw Canclwm Japan yn bresennol ar eich eiddo, fe'ch anogir felly i gyflogi arbenigwr canclwm cofrestredig. I gael rhagor o wybodaeth am drin ac adnabod Canclwm Japan:

<https://www.gov.uk/guidance/prevent-japanese-knotweed-from-spreading> a  
<https://www.rhs.org.uk/advice/profile?pid=218>

## Atodiad Ch: Seilwaith Gwyrdd (SG)

Mae amgylchedd naturiol Abertawe a'i rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd strategol yn darparu gwasanaethau ecosystem hanfodol y mae'n ddyletswydd statudol ar y cyngor i'w cynnal a'u gwella. Dylai byw gyda natur fod yn thema allweddol yr holl ddatblygiadau newydd trwy ymagwedd a arweinir gan seilwaith gwyrdd at greu lleoedd.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio pwysigrwydd integreiddio Seilwaith Gwyrdd (SG) ar bob graddfa (6.2.1) a gellir mynd i'r afael â hyn mewn ffordd gadarnhaol mewn dull hierarchaidd fel y dangosir gyferbyn. Dylai'r nodweddion hyn fod yn rhan o'r dull cyffredinol o greu lleoedd a arweinir gan ddylunio.

- 
- **Graddfa'r Dirwedd** – mae hyn yn cynnwys cynefinoedd argadwedig a nodweddion tirlun ynghyd ag ymylon heb eu datblygu, a chynnal a gwella coridorau cysylltedd cynefinoedd strategol
  - **Graddfa'r Gymdogaeth** – mae hyn yn cynnwys coridorau gwyrdd o fewn safleoedd parciau newydd, ardaloedd bywyd gwylt, rhandiroedd, cyfleoedd chwarae
  - **Graddfa leol** – mae hyn yn cynnwys coed stryd, perthi, ymylon wedi'u plannu a choridorau draenio trefol cynaliadwy, dolydd blodau gwylt
  - **Graddfa'r Iain** – mae hyn yn cynnwys ffiniau perthi, gerddi glaw, plannu bioamrywiol, waliau a thoeon gwyrdd

## Atodiad D: Systemau Draenio Cynaliadwy (SUDs)

O dan ddeddfwriaeth yng Nghymru, mae pob datblygiad newydd o fwy nag 1 annedd neu lle mae'r ardal adeiladu yn 100 metr sgwâr neu fwy, yn gofyn am systemau draenio cynaliadwy (SUDs) ar gyfer dŵr wyneb. Mae'n rhaid i SUDs gael eu dylunio a'u hadeiladu yn unol â Safonau SUDs Statudol a'u cymeradwyo gan yr Awdurdod Lleol yn rhinwedd ei rôl fel Corff Cymeradwyo SUDs, cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau.

Fel arfer, mae SUDs yn dod o dan dri chategori:

- Rheoli Ffynhonnell
- Systemau Trawsgludiad Athraidd
- Triniaeth Oddefol (Llygredd)

### Rheoli Ffynhonnell

Dylunnir technegau rheoli ac atal ffynhonnell i isafu'r dŵr ffo a'r gollyngiadau dŵr wyneb cynyddol o safleoedd datblygedig sydd â mwy o arwynebau caled (yn hytrach na mannau naturiol), trwy ei storio mor agos at y ffynhonnell â phosib a'i ryddhau'n arafach er mwyn lleihau faint o ddŵr a ryddheir o'r safle (yn ychwanegol, o bosib, at drin hyn wrth iddo gael ei ryddhau). Mae nodweddion o'r fath i'w hystyried yn eich cynigion datblygu yn cynnwys:

- Toeon Gwyrdd
- Ffesydd Ymdreiddio
- Arwynebau Athraidd (e.e. palmentydd mandyllog)
- Casglu Dŵr Glaw (e.e. casgenni dŵr a systemau dŵr llwyd)
- Gerddi Glaw
- Ffesydd Cerrig

### Toeon Gwyrdd

Mae dau fath o do gwyrdd: dwys a helaeth. Mae toeon gwyrdd dwys yn drwchus gydag isafswm dyfnder o 12.8cm a gallant gefnogi amrywiaeth ehangach o blanhigion ar gyfer bioamrywiaeth yn ogystal â gwell swyddogaethau draenio. Fodd bynnag, maent yn drymach ac mae angen mwy o waith cynnal a chadw arnynt. Mae toeon gwyrdd helaeth yn fwy bas (2—12.7cm) ac mae angen llai o waith cynnal a chadw arnynt ond maent yn llai amrywiol o ran rhywogaethau ac yn cyflawni swyddogaethau draenio llai.



Gellir cymhwyso toeon gwyrdd i nifer o adeileddau ar oleddf gwastad neu gul - estyniadau, siediau, storfeydd a garejys neu fannau parcio ceir

## Ffogydd Ymdreiddio

Gwaith cloddio bas yw ffogydd ymdreiddio wedi'u llenwi â rwbél neu garreg sy'n creu storffeydd glaw a dŵr ffo o stormydd dros dro o dan y ddaear, gan wella gallu naturiol y ddaear i storio a draenio dŵr. I ddechrau, mae ffogydd ymdreiddio'n dal y dŵr wrth iddynt llenwi ac yna'n caniatáu iddo ddraenio i'r pridd cyfagos o waelod ac ochrau'r ffos yn arafach. Yn ddelfrydol, dylai'r rhain dderbyn croes-lifau dŵr ffo o arwynebau cyfagos.

## Arwynebau Athraidd

Mae defnyddio arwynebau caled anhydraid fel tarmac, concrit a mathau penodol o balmentydd yn atal dŵr glaw rhag treiddio i'r ddaear, gan achosi dŵr i gronni mewn rhannau isel yn ogystal â rhedeg ar hyd yr wyneb i ardaloedd eraill, gan arwain o bosib at lifogydd lleol. Mae opsiynau palmantu athraidd yn darparu bylchau yn yr arwyneb er mwyn caniatáu i lefelau amrywiol o ddŵr daear dreiddio er mwyn osgoi'r broblem hon. Gall opsiynau ar gyfer arwyneb athraidd gynnwys graean rhydd ac agregau bach eraill nad ydynt yn rhwymedig (ar yr amod nad yw'r rhain yn debygol o olchi ar y briffordd gyhoeddus), palmentydd bloc athraidd, palmentydd mandyllog a phalmentydd glaswellt wedi'i atgyfnerthu etc. Cefnogir opsiynau palmentydd glaswellt athraidd yn benodol mewn lleoliadau priodol gan y gall y rhain gyfrannu at fioamrywiaeth a chysylltedd seilwaith gwyrdd yn ogystal â meddalu ardaloedd ag arwyneb caled yn weledol a darparu swyddogaeth ddraenio.

## Casglu Dŵr Glaw

Mae casglu dŵr glaw yn cywain ac yn dal dŵr glaw mewn storffeydd at ddibenion eraill. Dull syml o wneud hyn yw cysylltu casgen ddŵr â phibell law i storio dŵr at ddefnydd yr ardd. Gall systemau dŵr llwyd eraill gynnwys cyflenwi dŵr glaw ar gyfer tynnu dŵr y toiled yn eich estyniad.

## Gerddi Glaw

Mae'r rhain fel arfer yn ffogydd bas wedi'u llenwi â phridd amsugol, sy'n draenio'n rhydd a phlanhigion priodol a all wrthsefyll llifogydd dros dro. Mae ffurf arall yn defnyddio blwch plannu i weithredu fel tanc storio eilaidd gyda draeniad rheoledig. Yn ychwanegol at helpu i ddraenio dŵr o'r wyneb i'r pridd, mae'r nodweddion hyn hefyd yn darparu swyddogaeth hidlo sy'n cyflenwi dŵr glanach yn ôl i'r system ddŵr. Am fwy o wybodaeth:

<http://raingardens.info/>



Gall gerddi glaw fod ar lefel arwyneb a chynnwys casgenni dŵr (brig) neu eu darparu fel blychau plannu (gwaelod)

## Ffosydd Cerrig

Mae ffos gerrig yn nodwedd ddraenio gladdedig sy'n hidlo dŵr wyneb i'r ddaear, yn hytrach na'i ryddhau i leoliad oddi ar y safle fel cwrs dŵr neu garthffos. Mae ffosydd cerrig yn gofyn am gloddio twll addas sydd fel arfer yn cael ei ddisodli gan adeiledd ffurfiol, a adeiledir gan ddefnyddio cylch concriid, system leinin ffabrig neu system cewyll plastig.

Mae'r twll storio fel arfer wedi'i lenwi â charreg a rwbel, sy'n caniatáu i'r dŵr dreiddio a thynnu llygryddion cyn cael eu hidlo i'r pridd mewn modd rheoledig. Gellir defnyddio cewyll geogellog hefyd, sy'n darparu mwy o storfa, ond llai o allu i hidlo dŵr wyneb ffo. Mae angen amodau penodol er mwyn i ffosydd cerrig weithio ac felly fe'ch cynghorir i geisio rhagor o wybodaeth cyn gosod unrhyw nodwedd o'r fath.

## Systemau Trawsgludiad Athraidd

Mae systemau trawsgludiad athraidd yn symud (trawsgludo) dŵr yn araf tuag at gwrs dŵr (fel afon) sy'n caniatáu storio, hidlo a cholli dŵr ffo i ryw raddau drwy anweddiad ac ymdreiddiad cyn iddo gyrraedd y pwynt arllwys. Y prif fathau o systemau trawsgludiad athraidd yw pantiau dŵr wyneb a systemau tanddaearol fel ffosydd hidlo (neu ffosydd Ffrengig).

## Pantiau

Mae angen maint cymharol fawr o le ar gyfer pantiau a deuir o hyd iddynt fel arfer ar strydoedd. Yn y termau symlaf mae'r rhain yn ffosydd bas gydag ochrau ag ychydig o oleddf sy'n rhedeg ar hyd neu yng nghanol strydoedd. Mae pantiau wedi'u dylunio i storio a chyfleu dŵr ffo yn ogystal â chael gwared ar lygryddion yn y broses. Gall pantiau fod yn laswelltrog ond maent yn fwy effeithiol os cânt eu plannu gyda llystyfiant priodol gan gynnwys coed mewn lleoliadau priodol.



Mae pantiau glaswellt syml yn cludo dŵr yn ystod tywydd gwlyb (ar y chwith) a gall pantiau ar stryd sydd â llystyfiant (ar y dde) wella bioamrywiaeth a chymeriad y stryd


## Gall ffosydd hidlo/Ffrengig

Gall ffosydd hidlo/Ffrengig fod ar sawl ffurf ond un o'r dulliau symlaf ar gyfer y rhain yw creu ffos ymdreiddio wedi'i llenwi â graean sydd hefyd yn cynnwys pibell â slotiau neu dyllau ynddi. Defnyddir y draeniau hyn yn bennaf i gyfeirio dŵr daear neu ddŵr wyneb i ffwrdd o ardal benodol, fel sylfaen neu islawr eich cartref. Bydd y dŵr ar lefel y wyneb yn cael ei



gyfeirio tuag at y pwynt isaf, ac yna'n cael llifo drwy'r graean i'r draen. Mae'r graean hefyd yn gwneud y gwaith o rwystro malurion gormodol rhag mynd i mewn i'r draen. Yna cesglir y dŵr yn y pibell wedi'i slotio yn y gwaelod, ac fe'i gyfeirir i ffrwd o'ch cartref, tuag at leoliad mwy addas ar gyfer ymdreiddio.

Mae ffosydd Ffrengig yn wahanol i ddraeniau arwyneb cyffredinol gan eu bod yn casglu dŵr trwy gydol hyd y ffos yn hytrach nag un man unigol. O'r herwydd, maent yn gweithio'n dda i atal dŵr rhag cronni mewn mannau penodol yn ogystal â delio'n well â glaw trwm a allai orlwytho un draen sefydlog. Mewn amgylchiadau priodol, gellir gosod ffosydd Ffrengig hefyd ar y cyd â waliau i helpu i leihau pwysau llwytho ac i atal dŵr rhag cronni yn erbyn yr adeileddau hyn.



Gall adeiladu Ffos Ffrengig/Hidlo (ar y chwith) a chyfuno ffos Ffrengig â storfa ffos gerrig helpu i leihau llifogydd o amgylch eich eiddo ar yr amod bod amodau'r ddaear yn addas (ar y dde)

Gellir cyfuno ffosydd hidlo/Ffrengig hefyd â ffosydd cerrig i ddarparu ateb SUDs syml ond effeithiol i draenio dŵr i ffrwd o anheddau yn ogystal ag adeileddau ac ardaloedd eraill:

### Triniaeth Oddefol (Llygredd)

Mae systemau trin goddefol yn defnyddio prosesau naturiol i dynnu a chwalu llygryddion o ddŵr ffo arwyneb. Gellir dylunio systemau ar raddfa fach fel sribedi hidlo yn hawdd i'r dirwedd ac fe'u lleolir i fyny'r ffrwd o SUDs eraill. Fel arfer, mae systemau 'diwedd pibell' mwy yn ymwneud â storio dŵr mewn pyllau adeiledig.


Yn gyffredinol, mae angen ardal fwy na mathau eraill o nodweddion ar systemau triniaeth oddefol ac felly nid ydynt fel arfer yn addas ar gyfer ceisiadau lleiniau unigol oni bai bod gennych safle datblygu mawr iawn. Fodd bynnag, gall eich safle ddarparu cyfleoedd i gysylltu â nodweddion o'r fath a'u gwella, sy'n cynnwys:

- Basnau crynhoi
- Pyllau dargadw
- Gwlyptiroedd

## Basnau Crynhoi

Defnyddir basnau crynhoi i storio dŵr ffo o ardaloedd mawr. Mae dŵr fel arfer yn rhedeg i mewn i'r rhain o systemau draenio confensiynol neu o SUDs i fyny'r llif megis pantiau.

Mae basnau crynhoi'n gadael i ddŵr ffo ymledu ar draws arwynebedd llydan ac yn llenwi dim ond ar ôl glaw trwm pan fyddant yn dal cyfeintiau mawr o ddŵr. Mae hyn yn gadael i lygryddion setlo allan cyn i'r dŵr socian i ffrwd neu arllwys yn araf i lawr y ffrwd. out before the water soaks away or discharges slowly downstream.



Basn crynhoi wedi'i lenwi o bant a phibell arllwys danddaearol SUDs ar wahân (ar y chwith) a basn crynhoi sych gyda phlannu (ar y dde) yn ychwanegu at gymeriad lleol, bioamrywiaeth ac yn darparu gofod amwynder

## Pyllau Dargadw a Gwlyptiroedd

Mae pyllau dargadw yn debyg i fasau crynhoi ond maent yn storio dŵr am fwy o amser ac yn gyffredinol yn wlyb trwy'r amser. Mae hyn yn caniatáu i brosesau naturiol, gan ddefnyddio bacteria a golau'r haul, chwalu llygryddion cyn i'r dŵr lifo i gyrsiau dŵr i lawr yr ffrwd yn y pen draw. Gall pyllau hefyd fod yn ychwanegiad i'w groesawu i ardaloedd trefol, gan annog planhigion a bywyd gwylt.

Mae gwlyptiroedd yn cynnwys cyrff dŵr sydd â llystyfiant dwys ar ffurf pyllau bas ac ardaloedd corsio sy'n defnyddio gwaddodiad a hidlo i drin dŵr ffo halogedig. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r broses hon, dylai'r rhain fod yn gam olaf y broses SUDs oherwydd y risg o siltio.

Mae pyllau a gwlyptiroedd newydd eu creu yn ddelfrydol ar gyfer trin dŵr wedi'i halogi'n ysgafn o fuarthau fferm a heolydd fferm. Ni ddylid byth ddefnyddio pyllau naturiol neu wlyptiroedd presennol i drin dŵr ffo gan y gall hyn niweidio neu darfu ar y bywyd gwylt sydd eisoes yn yr ardal.

Gellir cysylltu nifer o byllau, neu eu cynnwys gyda gwlyptiroedd i fynd i'r afael â dŵr ffo o ardaloedd mwy ar raddfa'r gymdogaeth a'r dirwedd. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn: <https://www.susdrain.org/> and <https://www.sudswales.com/>